

Cyfiawnder yng Nghymru

Dr Sarah Nason, Prifysgol Bangor (Mai 2020)

Cynnwys:

Crynodeb.....	2
Pennod Un: Cyflwyniad.....	7
Pennod Dau: Cyfiawnder troseddol.....	9
2.1 Cyfiawnder troseddol ar 'ffin amrwd' datganioli	9
2.2 Problemau 'ffin amrwd' penodol.....	12
2.3 Rheoli cymhlethdod a'r angen am arweinyddiaeth.....	13
2.4 Yr angen am werthusiad gwell o fentrau polisi ar sail tystiolaeth; yr angen am fwy o ddata dadgyfunol Cymru yn unig.....	15
2.5 Craffu ac atebolrwydd.....	16
Pennod Tri: Cyfiawnder Gweinyddol.....	20
3.1 Cyfraith weinyddol gyhoeddus.....	21
3.2 Sefydliadau cyfiawnder gweinyddol.....	24
3.3 'Ffin amrwd' a goruchwyliaeth.....	29
Pennod Pedwar: Cyfiawnder Teuluol.....	30
4.1 Cyfiawnder teuluol: Cyflwyniad, materion allweddol a goruchwyliaeth	30
4.2 Cafcass Cymru.....	32
4.3 Cymryd plant i mewn i'r system ofal.....	32
4.4 Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd.....	33
Pennod Pump: Cyfiawnder Sifil.....	34
Pennod Chwech: Gwybodaeth, cyngor a chymorth, gan gynnwys cymorth cyfreithiol.....	36
Pennod Saith: Cyllid ar gyfer cyfiawnder yng Nghymru.....	37
Pennod Wyth: Prif themâu a chasgliadau.....	39
8.1 Arweinyddiaeth a goruchwyliaeth.....	39
8.2 Arloesi a gwerthuso.....	40
8.3 Ymchwil a data.....	41
8.4 Atal.....	42
8.5 Myfyrdodau i gloi.....	42
Atodiad un – Mapio cyfiawnder yng Nghymru	
Atodiad dau – Adolygiad o'r deunydd darllen	
Atodiad tri – Penodiadau i driwilysoedd datganoledig Cymru	

Crynodeb

1. Mae'r Senedd a Llywodraeth Cymru yn sefydliadau sy'n gyfrifol am gyflawni cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru mewn meysydd gweithgareddau sy'n cynnwys, er enghraifft, iechyd ac addysg. Mae'r gweithgareddau cyfiawnder cymdeithasol hyn yn gorgyffwrdd â swyddogaethau a gedwir yn ôl, ac wedi'u hintegreiddio â hwy, dros gyfiawnder cyfreithiol (llysoedd, tribiwnlysoedd, carchardai, yr heddlu ac ati) mewn ffyrdd amrywiol. Yn ogystal, mae gan y Senedd a Llywodraeth Cymru rai cymwyseddau datganoledig yn fwy uniongyrchol ym maes cyfiawnder cyfreithiol (er enghraifft, tribiwnlysoedd datganoledig Cymru). Mae'r adroddiad hwn a'i atodiadau'n mapio'r prif weithgareddau a materion sy'n berthnasol i wneud i gyfiawnder weithio yng Nghymru.

Prif themâu ar draws cyfiawnder troseddol, gweinyddol a theuluol

2. Nododd y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (ac ymchwil i ['ffin amrwd'](#) cyfiawnder yng Nghymru) rai pryderon ynghylch lleoli arweinyddiaeth, gan gynnwys arweinyddiaeth yn Llywodraeth Cymru, ar faterion cyfiawnder; pwy yn union sy'n gyfrifol a phwy, felly, y gellir eu dal yn atebol. Mae'n debyg bod hyn wedi gwella gyda sefydlu Is-bwyllgor Cabinet ond mae diffyg ymwybyddiaeth o hyd, ac efallai hyd yn oed rhywfaint o ddiffyg tryloywder, ynghylch faint o bobl yn Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar faterion cyfiawnder a beth yw eu rolau.
3. Roedd y pryderon ynghylch arweinyddiaeth hefyd yn ymwneud ag a yw byrddau, pwyllgorau a rhwydweithiau presennol a oedd i fod i adrodd ar berfformiad systemau cyfiawnder yng Nghymru a sicrhau cydgyssylltiad rhwng rhanddeiliaid, yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon. Ym maes cyfiawnder troseddol, mae cyfres gymhleth o gyrff sy'n gorgyffwrdd, ac mae eu hatebolrwydd ar y cyd yn gyfyngedig. Yn ôl y Comisiwn ar Gyfiawnder, mae hyn yn rhannol oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi sefydlu ei chyrff ei hun oherwydd diffyg rheolaeth dros agenda cyrff a sefydlwyd gan Lywodraeth y DU. Nid oes corff penodol yn gyfrifol am oruchwylio ac adrodd ar y system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru.
4. Mae cynnydd wedi'i wneud tuag at wella trefniadau ar gyfer ymgynghori a chydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn enwedig drwy [Goncordat](#) y cytunwyd arno ym mis Mawrth 2018, ond mae angen rhagor o waith o hyd i wella gwaith cydweithredol a strategol. Mae achos dros fwy o gyfranogiad gan Weinidogion Cymru yng nghyrrff arwain cyfiawnder y DU.
5. Mae'r rhaniad rhwng datblygu polisi a gweithredu yn parhau i greu problemau, ac mae sefydliadau a gwasanaethau cyfiawnder sydd wedi'u datganoli i raddau helaeth o safbwynt darparu yn aml yn canfod eu hunain yn ymateb i fentrau polisi'r Llywodraeth ganolog, gan orfod 'dal i fyny' o ran sut y gallai'r rhain weithio'n benodol yng Nghymru.
6. Mae anallu gwirioneddol (neu ganfyddedig) i ddatblygu atebion arloesol i ystod o faterion cyfiawnder, gan gynnwys datrys anghydfodau. Weithiau mae hyn oherwydd bod rhaid 'dal i fyny' fel sydd wedi'i nodi uchod, ond mae canfyddiadau o gymhwysedd datganoledig, a rhywfaint o ddiffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol o

faterion cyfiawnder (gan gynnwys ar draws y gangen wleidyddol ac mewn sefydliadau cymdeithas sifil yng Nghymru) hefyd yn amlwg.

7. Mae diffyg ymchwil yn parhau, ac ymgysylltiad â chymdeithas sifil yn benodol, mewn perthynas â Chymru fel safle lle y gwneir cyfiawnder. Ar y cyd â phryderon ynghylch arweinyddiaeth, a phroblemau wrth gyrchu data dadgyfunol 'Cymru yn unig' am faterion cyfiawnder, yn golygu nad yw atebion arloesol tymor hwy a allai fod yn fwy cyson ag anghenion Cymru (ac a allai arbed arian hefyd) bob amser wedi'u trafod neu eu dilyn. Ar y llaw arall, mae enghreifftiau o arloesiadau llawr gwlad a lleol ar draws Cymru sydd wedi cael effeithiau buddiol a bu newidiadau deddfwriaethol allweddol mewn rhai meysydd.
8. Mae'n ymddangos bod rhai pryderon nad yw effeithiau mentrau a strategaethau polisi amrywiol, a hyd yn oed rhai diwygiadau cyfreithiol penodol, wedi bod yn ddarostyngedig i brosesau monitro a gwerthuso tymor hwy ar sail tystiolaeth. Yn rhannol ymddengys fod hyn oherwydd diffyg data sydd ar gael, gan sefydliadau a gedwir yn ôl, ond gallai Llywodraeth Cymru hefyd gasglu a chyhoeddi mwy o ddata ar weithredu dulliau cyfiawnder sy'n dod dan ei chymhwysedd ei hun.
9. Mae'n ymddangos bod pwyslais Cymru ar atal, ar draws cyfiawnder troseddol, gweinyddol a theuluol, yn ased sylweddol, ond mae dau bryder penodol. Yn gyntaf, mae Llywodraeth Cymru (ac eraill) wedi mynegi rhwystredigaeth y gall dull gweithredu ataliol Cymru gael ei danseilio weithiau gan bolisiau cyfiawnder canolog, a bod arbedion sy'n cael eu creu'n cael eu defnyddio i roi cymhorthdal ar gyfer gweithrediad sefydliadau a gedwir yn ôl. Yn ail, ni ddylid ystyried bod dulliau atal yn cymryd lle dulliau gwneud iawn, nac yn negyddu'r angen am fynediad atynt, gan gynnwys dulliau gwneud iawn cyfreithiol a datblygu, cyllido (a gwerthuso) dull o wneud iawn sy'n benodol i Gymru lle y bo'n briodol.

Cyfiawnder troseddol

10. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ystod eang o weithgareddau cyflenwol mewn perthynas â'r amgylchedd cyfiawnder troseddol a phlisma. Mae'r system yn gymhleth ac, ar hyn o bryd, nid oes digon o waith craffu arni yn San Steffan ac yn y Senedd. Mae cyfres o sefydliadau wedi datblygu yng Nghymru sy'n cyfateb i system de facto o ddatganoli gweinyddol. Mae'r 'ffin amrwd', fel y'i gelwir o groestoriad rhwng materion a gedwir yn ôl ym maes cyfiawnder a phlisma, a chymhwysedd datganoledig ym maes addysg, iechyd, tai ac ati yn achosi cymhlethdod a dywedir eu bod yn atal Llywodraeth Cymru rhag mynd ar drywydd dull system gyfan, gan gynnwys o ran mynd i'r afael ag achosion troseddu. Ni chaiff Llywodraeth Cymru a'r Senedd osod dyletswyddau cyfreithiol ar gyrff cyfiawnder a gedwir yn ôl, na mynnu eu cyfranogiad wrth fonitro a goruchwylio perfformiad, a dywedir bod hyn yn amharu ar fynd ar drywydd polisiâu Cymru.
11. Mae cyfrifoldebau cymhleth, gan gynnwys mewn meysydd allweddol megis diogelwch cymunedol, yn ei gwneud yn anodd i gyrff cyhoeddus gydgyssylltu dulliau gweithredu strategol. Gall hyn danseilio atebolrwydd a'r gallu i helpu pobl (gellid dweud yr un peth

mewn meysydd eraill, gan gynnwys cyfiawnder teuluol). Nid gwaith amlasiantaethol, fel y cyfryw, sy'n achosi problemau ond gormodedd cyrff ac atebolrwydd gwasgaredig a darniog lle y gall gwir atebolrwydd ar y cyd fod yn gyfyngedig.

12. Roedd y Comisiwn ar Gyfiawnder o'r farn bod diffyg dull trylwyr o reoli perfformiad dan strategaethau a fframweithiau cyfiawnder troseddol amrywiol a ddatblygodd Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag asiantaethau cyfiawnder troseddol.
13. Mae goruchwyliaeth y Senedd yn wynebu heriau penodol gan gynnwys; bod pwyllgorau yn aml yn ymateb i broblemau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg pan fo mwy o botensial i gael effaith yn y tymor byrrach, ac mewn meysydd heb 'ffin amrwd' lle y mae'r llwybr i gael effaith yn gliriach. Weithiau, mae Gweinidogion a swyddogion y DU yn amharod i ymgysylltu â gwaith y Senedd; mae diffyg data Cymru yn unig; mae sefydliadau cymdeithas sifil wedi ymwneud â chyfiawnder yng Nghymru mewn modd cyfyngedig; nid yw Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo ei gweithgareddau ym maes cyfiawnder ddigon ac mae diffyg eglurder ynghylch cyfrifoldebau gweinidogol ac adrannol yn parhau; mae 'ffocws' ar faterion cyfiawnder yn cael ei wanhau gan gyfrifoldebau niferus eraill pwyllgorau'r Senedd.

Cyfiawnder Gweinyddol

14. Yng Nghymru, mae'r system cyfiawnder gweinyddol eisoes wedi'i datganoli i raddau helaeth a hynny ers cryn amser. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi polisi penodol ar gyfer cyfiawnder gweinyddol (a thribiwnlysoedd), na strategaethau neu ddogfennau fframwaith fel y'u cynhyrchwyd mewn perthynas â materion cyfiawnder troseddol. Daeth goruchwyliaeth annibynnol o gyfiawnder gweinyddol yng Nghymru i ben yn 2016.
15. Fodd bynnag, bu [ymchwil](#) sylweddol (a symbylwyd gan y cyn-Bwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yng Nghymru) yn datblygu rhaglen o ddiwygiadau posibl (y cafodd llawer ohonynt eu cymeradwyo gan y Comisiwn ar Gyfiawnder). Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu'n gyson â'r ymchwil hon a'i chefnogi lle y bo'n briodol.
16. Mae gan y Senedd gyfrifoldeb sylweddol i sicrhau bod cyfraith weinyddol yn mynd ati, mewn modd clir, cyson a chydlynol, i ddatblygu pwerau craffu i sicrhau y gall cyrff cyhoeddus gyflawni dyletswyddau a osodir, ac y cynhelir adolygiad ôl-ddeddfwriaethol parhaus o effeithiau dyletswyddau newydd ar gyrff cyhoeddus, cyfraddau cydymffurfio a chanlyniadau. Yn ei [Ddarlith Arglwydd Renton](#), dywedodd yr Arglwydd Thomas yn ddiweddar y dylai dyletswyddau cyfraith weinyddol gael eu drafftio'n ddigon manwl i alluogi llys priodol, tribiwnlys neu sefydliad arall i benderfynu a ydynt wedi'u cyflawni ar sail tystiolaeth wrthrychol. Awgrymodd nad yw hyn yn wir o ran rhai o gyfreithiau gweinyddol Cymru.
17. Codwyd pryderon ynghylch 'haenu' dyletswyddau newydd ar gyrff cyhoeddus (dyletswyddau ar sail hawliau, llesiant a chydaddoldeb yn bennaf) ac a oes angen adolygiad ac ad-drefnu o bosibl, yn enwedig yng nghyd-destun gweithgaredd

cydgrynhoi a chodeiddio. Yn gyffredinol, nid aethpwyd i'r afael â materion hawliau, cynaliadwyedd a chydaddoldeb fel materion cyfiawnder, ac ymddengys fod effaith deddfwriaeth yn y meysydd hyn ar y system gyfiawnder yng Nghymru wedi bod yn fach iawn.

18. Mae adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol yng Nghymru yn rhwyd ddiogelwch pan nad yw deddfwriaeth yn cynnwys dull penodol o wneud iawn. Mae adolygiad barnwrol hefyd yn hanfodol i reolaeth y gyfraith. Mae hawliadau adolygiad barnwrol sifil a throeddol (nad ydynt yn ymwneud â mewnfudo) fesul pen o'r boblogaeth gan bobl yng Nghymru yn is na'r rhai gan bobl yn rhanbarthau Lloegr ac mae cyfran yr hawliadau a gyhoeddwyd gan ymgyfreithwyr heb gynrychiolaeth yng Nghymru wedi codi ochr yn ochr â gostyngiad sylweddol mewn hawliadau a ariennir gan gymorth cyfreithiol.
19. Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gefnogi'r proffesiwn cyfreithiol cyfraith gyhoeddus yng Nghymru ac argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder newidiadau Rheolau Trefniadaeth Sifil i'w gwneud yn orfodol i hawliadau yn erbyn cyrff cyhoeddus Cymru sy'n herio cyfreithlondeb eu penderfyniadau gael eu cyhoeddi a'u gwranddo yng Nghymru, ochr yn ochr ag argymhell y dylai achosion gwneud iawn yn y dyfodol o dan gyfraith Cymru gael eu gwranddo yn nhribiwnlysoedd datganoledig Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar ddiwygio tribiwnlysoedd datganoledig Cymru ond, hyd yn hyn, dim ond ymgysylltiad cyfyngedig a fu â'r Senedd.

Cyfiawnder Teuluol

20. Ymddengys mai cyfiawnder teuluol yng Nghymru yw'r maes lle y bu'r lleiaf o waith ymchwil, ond lle y mae materion 'ffin amrwd' hefyd yn bodoli, gan fod y gyfraith, arfer llys a gweithdrefnau sy'n ymwneud â phlant yn arbennig, yn rhychwantu materion datganoledig a rhai a gedwir yn ôl. Materion datganoledig addysg, iechyd, gofal cymdeithasol, tai ac ati yw cyd-destun beunyddiol bywyd teuluol.
21. Mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder o'r farn bod strwythur arwain presennol cyfiawnder teuluol yng Nghymru yn annigonol i ymdrin â phryderon ynghylch plant sy'n derbyn gofal (y cyfraddau uchel o blant sy'n cael eu cymryd i mewn i'r system ofal yng Nghymru), ac mai materion Seisnig sy'n drech yn y cyrff arwain a goruchwylio a gedwir yn ôl gyda chyfranogiad Cymru.
22. Mae diffyg ymwybyddiaeth parhaus o'r gwahaniaethau rhwng cyfraith Cymru a Lloegr (yn enwedig mewn perthynas ag achosion cyfraith gyhoeddus sy'n cynnwys plant) er bod llawer o gyhoeddusrwydd i'r gwahaniaethau hyn mewn testunau ymarferwyr (sydd ar gael am ddim).
23. Yn yr un modd â meysydd eraill, weithiau nid eir ar drywydd arloesiadau (gan gynnwys achosion gwneud iawn) oherwydd cyfyngiadau gwirioneddol (neu ganfyddedig) y setliad datganoli, a gellid monitro a gwerthuso'n well y diwygiadau sy'n cael eu datblygu. Byddai ymchwil helaethach, fel yr argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder, yn cynorthwyo hyn.

Cyfiawnder Sifil

24. Deddf gyntaf y Senedd y bwriedir iddi wneud newidiadau i gyfraith sifil sylweddol fydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 pan ddaw i rym. Bu materion ymarferol i Wasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM wrth ddatblygu prosesau a ffurflenni angenrheidiol ar gyfer y gyfraith hon sy'n benodol i Gymru, a rhai pryderon cyffredinol ei bod yn tynnu sylw at y diffyg systemau digonol ar lefel cyflawni a gweithredol i reoli'r gwahaniaeth arall a ragwelir rhwng cyfraith Cymru a Lloegr.
25. Mae'n werth ailadrodd bod polisiau a gedwir yn ôl fel digideiddio llysoedd a thriwilysoedd a chau llysoedd ffisegol yn cael effeithiau unigryw yng Nghymru y dylid eu monitro'n ofalus fel na chaiff unrhyw anghydraddoldeb presennol ei ymwreiddio drwy brosesau gwahanol.

Gwybodaeth, cyngor a chymorth, gan gynnwys cymorth cyfreithiol

26. Y 'ffin amrwd' ganolog wrth ddarparu cyngor, gwybodaeth a chymorth (gan gynnwys gwasanaethau eiriol) yw'r ffaith bod cymorth cyfreithiol wedi'i gadw yn ôl ac i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu darpariaeth gwasanaethau cynghori (gan gynnwys pan fyddai cyllid wedi dod i ben o ganlyniad i Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012). Bu gostyngiad 38 y cant mewn termau real mewn gwariant ar gymorth cyfreithiol yng Nghymru ers 2010-2011.
27. Daeth y Comisiwn ar Gyfiawnder i'r casgliad nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn edrych ar yr hyn sy'n gweithio'n dda ar lefel leol a bod diffyg dulliau gweithredu systematig a strategol o hyd. Mae rhai o'r pryderon hyn yn dechrau cael sylw yng ngwaith y Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol a'r chwe Rhwydwaith Cyngor Rhanbarthol ar draws Cymru.

Cyllid ar gyfer Cyfiawnder yng Nghymru

28. Mae [Canolfan Llywodraethiant Cymru](#) wedi archwilio 'Gwariant Cyhoeddus ar y System Gyfiawnder i Gymru' a 'Fiscal implications of devolving justice'. Rhai prif gasgliadau yw y gwariwyd tua £1.2 biliwn ar y system gyfiawnder i Gymru yn 2017-2018, ond daeth 38 y cant o'r gwariant hwn o gyllid datganoledig a llywodraeth leol; a bod yr elfennau datganoledig wedi tyfu mewn termau real yn ystod y blynyddoedd diwethaf pan fo gwariant ar faterion a gedwir yn ôl wedi gostwng.
29. Yn wahanol i'r darlun yn Lloegr, mae'r gwariant ar garchardai yng Nghymru wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ochr yn ochr â chynnydd mawr ym mhoblogaeth y carchardai yng Nghymru. Ar gyfer llysoedd a thriwilysoedd a gedwir yn ôl, roedd gwariant net gan Wasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM yng Nghymru yn cyfateb i ychydig llai na 4 y cant o wariant Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM yn 2017-2018 (mewn cymhariaeth â chyfran Cymru o boblogaeth Cymru a Lloegr (5.3 y cant) a Phrydain Fawr (4.9 y cant)).

30. Mae pryder bod buddion ariannol polisïau 'gwario i arbed' fel y'u gelwir, a weithredodd Llywodraeth Cymru, wedi'u cipio gan Lywodraeth y DU. Ni chafwyd asesiad o gost ariannol lawn darparu cyfiawnder gweinyddol, nac o ble y gellid gwneud arbedion.

Pennod un: Cyflwyniad

31. Mae'r adroddiad hwn yn archwilio prif weithgareddau Llywodraeth Cymru a'r Senedd, yn uniongyrchol ym maes cyfiawnder cyfreithiol ac yn cyd-fynd ag ef, gan gymryd yn eu tro: cyfiawnder troseddol; cyfiawnder gweinyddol; cyfiawnder teuluol; cyfiawnder sifil, a materion canolog sy'n ymwneud â chymorth cyfreithiol, gwybodaeth, cyngor a chymorth a chyllid ar gyfer cyfiawnder yng Nghymru. Yna mae'n tynnu sylw at rai themâu a chasgliadau cyffredinol sy'n gyffredin i bob un, neu o leiaf i'r rhan fwyaf, o'r meysydd cyfiawnder a archwiliwyd. Ceir tri atodiad i'r adroddiad. Mae atodiad un yn rhoi mwy o fanylion am yr ymarfer 'mapio' a gynhaliwyd i weld beth yw prif weithgareddau Llywodraeth Cymru a'r Senedd sy'n ymwneud â chyfiawnder. Mae hyn yn cynnwys methodoleg, a mwy o fanylion ar faterion na ddewiswyd eu cynnwys yn y prif adroddiad. Mae atodiad dau yn darparu adolygiad o'r prif ddeunydd darllen ar gyfiawnder yng Nghymru (ymchwil ac adroddiadau eraill, llyfrau, erthyglau cyfnodolion, tystiolaeth allweddol i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (y 'Comisiwn ar Gyfiawnder') ac ati). Gyda'i gilydd mae'r atodiadau hyn yn darparu sylfaen dystiolaeth fanwl ar gyfer casgliadau'r prif adroddiad. Mae atodiad tri yn amlinellu prosesau ar gyfer penodi barnwyr ac aelodau i driwlynlysoedd datganoledig Cymru, a lle y mae atebolrwydd am y penodiadau hyn.
32. Un o'r pethau cyntaf i'w hystyried ar gyfer cyfiawnder yng Nghymru yw gofyn beth yw ystyr cyfiawnder. Mae hyn yn ymarferol bwysig i wneud i gyfiawnder weithio yng Nghymru ac nid yw'n ymddangos ei fod yn fater a archwiliwyd yn llawn yn y deunydd darllen. Mewn ystyr eang, mae sicrhau cyfiawnder cymdeithasol yn brif rôl i'r Senedd a Llywodraeth Cymru. Nid yw'r ffaith bod y sefydliadau hyn yn gyfrifol am lysoedd, plismona, carchardai, y gwasanaeth prawf, cymorth cyfreithiol ac ati, yn eu hatal rhag ymwneud â chyfiawnder cymdeithasol i raddau helaeth. Felly, ai prif nod yr ymchwiliad presennol yw ystyried sut y gall polisïau cyfiawnder cymdeithasol yng Nghymru fod yn fwy cyson â sefydliadau nodweddiadol cyfiawnder cyfreithiol (llysoedd, triwlynlysoedd, barnwyr, yr heddlu ac ati), neu, yn wir, sut y gall y sefydliadau hyn fod yn fwy cyson â pholisïau cyfiawnder cymdeithasol Cymru? Mae'r deunydd darllen a'r gwaith mapio yn awgrymu y gallai rhywfaint o eglurhad o ran y derminoleg rhwng cyfiawnder cymdeithasol a chyfreithiol fod yn ddefnyddiol.
33. Mae'r rhyngwyneb rhwng cyfiawnder cymdeithasol a chyfiawnder cyfreithiol yn bwnc eang, a thema'r adroddiad hwn yw bod pryderon, heriau a chyfleoedd amlwg yn ymwneud â chyfiawnder troseddol, gweinyddol, teuluol a sifil yng Nghymru. Er bod materion trawsbynciol (mae rhai wedi'u nodi a'u trafod yn yr adroddiad hwn), mae'n

bosibl na fydd bob amser yn ddefnyddiol cyfeirio at gyfiawnder yng Nghymru yn ddiwahân.

34. Daeth y Comisiwn ar Gyfiawnder i'r casgliad bod pobl Cymru yn cael eu siomi gan y systemau cyfiawnder presennol (yn ôl pob golwg ar draws cyfiawnder troseddol, gweinyddol, teuluol a sifil), ond â hynny'n digwydd am resymau gwahanol mewn perthynas â phob un. Argymhellodd ddatganoli cyfrifoldeb deddfwriaethol a gweithredol llawn am gyfiawnder, a throsglwyddo adnoddau ariannol yn llawn. Fodd bynnag, bu rhywfaint o ddatganoli pwerau cyfiawnder cyfreithiol i Gymru eisoes, a llawer mwy o ddatganoli pwerau cyfiawnder cymdeithasol sy'n effeithio ar y modd y darperir cyfiawnder cyfreithiol.
35. Nid yw Llywodraeth y DU yn bwriadu ymateb i adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder, ond mae wedi nodi y bydd yn parhau i drafod â Llywodraeth Cymru, ac yn anrhydeddu ymrwymadau a wnaed wrth i Ddeddf Cymru 2017 gael ei phasio i gynnal adolygiadau rheolaidd o gyfiawnder yng Nghymru.
36. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Is-bwyllgor Cabinet ar Gyfiawnder, gan gynnwys y Prif Weinidog, y Dirprwy Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol (gyda Gweinidogion eraill yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol pan fo budd polisi penodol). Cyfarfu'r Is-bwyllgor hwn ar 20 Ionawr 2020, gyda chofnodion y [cyfarfod wedi'u cyhoeddi ar 8 Ebrill](#). Gellir ystyried bod sefydlu'r Is-bwyllgor yn ymateb i bryderon y Comisiwn ar Gyfiawnder ynghylch diffyg arweinyddiaeth gydlynol mewn materion cyfiawnder ar draws Llywodraeth Cymru. Nododd y Comisiwn ar Gyfiawnder yn benodol, o dan y pennawd 'camau gweithredu i'w cymryd ar unwaith', bod yn 'rhaid i arweinyddiaeth glir ac atebol ar gyfiawnder yn Llywodraeth Cymru gael ei sefydlu o dan y drefn ddatganoli bresennol'. Trafodwyd tri phapur yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor: cylch gorchwyl a ffyrdd arfaethedig o weithio; dadansoddiad cychwynnol Llywodraeth Cymru o argymhellion y Comisiwn ar Gyfiawnder gan ddod i'r casgliad y byddai Rhaglen Trawsnewid Cyfiawnder arfaethedig yn brosiect aml-flwyddyn (darparwyd dau fodel enghreifftiol ar gyfer y Rhaglen, ar sail a fyddai Llywodraeth y DU yn agored i rywfaint o ddatganoli deddfwriaethol yn ystod y Senedd bresennol). Gofynnodd y trydydd papur i'r Is-bwyllgor gytuno ar ei flaenraglen waith ac roedd yn cynnwys tabl o bynciau i'w trafod, yn ogystal ag arweinwyr Gweinidogol posibl.
37. Hefyd, argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder y canlynol: Dylai Llywodraeth Cymru ddechrau'r broses o ddiwygio drwy restru'r argymhellion y bydd yn ceisio eu rhoi ar waith tra bydd y drefn ddatganoli bresennol yn parhau.
38. Yn gyffredinol, mae Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn gwneud eu cyfraniadau mwyaf i gyfiawnder cyfreithiol drwy swyddogaethau cyfiawnder cymdeithasol datganoledig, mewn meysydd megis iechyd, addysg, lles cymdeithasol a thai. Mae materion cyffredinol sy'n unigryw i gyd-destun cyfiawnder cymdeithasol Cymru yn cynnwys [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) a gweithgareddau i hyrwyddo, cryfhau a gwella cydraddoldeb a hawliau dynol. Mae llesiant ac atal yn ganolog i ddull gweithredu Llywodraeth Cymru a'r Senedd o ran cyfiawnder cymdeithasol, ac mae dealltwriaeth dda yng Nghymru o'r effaith y mae profiadau niweidiol yn ystod

plentyndod yn ei chael ar unigolion, gyda chydabyddiaeth o sut i roi cyfrif am yr effeithiau hyn ac ymdrin â hwy, drwy sefydliadau cyfiawnder cymdeithasol a chyfreithiol. Yn olaf, ar y lefel sefydliadol, mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ganolog i gyflawni'r agenda cyfiawnder cymdeithasol hon, ochr yn ochr â llawer o fyrddau, pwyllgorau, rhwydweithiau a grwpiau gorchwyl maes pwnc eraill (gormod ym marn y Comisiwn ar Gyfiawnder yn ôl pob tebyg).

Pennod dau: Cyfiawnder troseddol

2.1 Cyfiawnder troseddol ar 'ffin amrwd' datganoli

39. Mae rhan fwyaf o adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yn ymwneud â chyfiawnder troseddol, gan gynnwys 16 o argymhellion. Cyn hyn, roedd [Rhan II Adroddiad Comisiwn Silk \(yn 2014\)](#) wedi argymhell datganoli plismona a chyfiawnder ieuentid; mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn argymhell datganoli cyfiawnder troseddol, carchardai, plismona a'r gwasanaeth prawf yn llawn.
40. Defnyddiodd y Comisiwn ar Gyfiawnder ymchwil gan Dr Rob Jones a'r Athro Richard Wyn-Jones, a ddatgelodd fod cyfrifoldebau polisi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar gyfiawnder troseddol yn gorgyffwrdd yn yr un lleoedd polisi, ond nid mewn modd clir, yn hytrach mae 'ffin amrwd' cymwyseddau a chyfrifoldebau croestoriadol. Ers hynny, mae'r trosiad 'ffin amrwd' wedi bod yn ddefnyddiol wrth ddisgrifio'r croestoriad rhwng polisiâu cyfiawnder cymdeithasol a chyfiawnder cyfreithiol datganoledig a'r rhai a gedwir yn ôl mewn meysydd eraill, gan gynnwys cyfiawnder gweinyddol a theuluol.
41. Mae adroddiad Jones a Wyn-Jones, sef (['Justice at the Jagged Edge in Wales'](#)) yn pwysleisio sut y mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau cyflenwol mewn perthynas â'r amgylchedd cyfiawnder troseddol a phlismona, gan ddod i'r casgliad bod 'llu o sefydliadau Cymreig wedi datblygu er mwyn bodloni'r heriau gweithredu penodol yng nghyd-destun Cymru'. Mae'r awduron yn dadlau bod y sefydliadau hyn, gyda'i gilydd, yn cynrychioli 'system de facto o ddatganoli gweinyddol'. Mae lefel uchel o gymhlethdod, gyda phwyllgorau a byrddau amrywiol wedi'u creu sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol a chymdeithasol, a pholisiau cymdeithasol integredig/sy'n gorgyffwrdd yng Nghymru. Ceisiodd y Comisiwn ar Gyfiawnder fapio'r holl gyrff hyn, ond mae'n annhebygol y bydd ei waith yn gwbl gynhwysfawr ac mae rhai agweddau bellach wedi dyddio. Mae hyn yn anhawster cydnabyddedig gydag unrhyw ymarfer 'mapio'.
42. Mae Swyddfa Gartref Llywodraeth y DU a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cadw'r prif gyfrifoldeb polisi dros gyfiawnder troseddol yng Nghymru. Mae'r ddwy'n gweithio gydag ystod eang o asiantaethau a chyrrff ag atebolrwydd a chyfansoddiad gwahanol i gyflawni ymrwymadau polisi. Yn amodol ar gymeradwyaeth seneddol, mae gan Weinidogion y DU yr awdurdod i gyflwyno newidiadau deddfwriaethol i bolisi plismona, troseddu a chyffuriau yng Nghymru. Mae deddfwriaeth a pholisi'r Swyddfa Gartref sy'n effeithio ar Gymru yn ddarostyngedig i waith craffu seneddol gan Bwyllgor Materion

Cartref Tŷ'r Cyffredin, ond mae'r adroddiad 'Justice at the Jagged Edge in Wales' yn datgelu beirniadaeth sylweddol o effeithiolrwydd y gwaith craffu hwn. Mae Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin yn craffu ar bolisi, gwariant a threfniadau gweinyddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Unwaith eto, mae'r adroddiad 'Justice at the Jagged Edge in Wales' yn codi pryderon ynghylch effeithiolrwydd gwaith craffu San Steffan o safbwynt Cymru.

43. Mae'r ymarfer mapio (yn atodiad un i'r adroddiad hwn) yn dangos bod Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn ymwneud, ar draws y 'ffin amrwd', ag ystod eang o faterion sy'n ymwneud â chyfiawnder troseddol, gan gynnwys; atal canfod trosedd ac ymchwilio iddi; trais yn erbyn menywod, trais domestig a cham-drin rhywiol; plismona; diogelwch cymunedol; cymorth i ddioddefwyr; caethwasiaeth fodern; camddefnyddio cyffuriau neu sylweddau seicoweithredol a'u delio; carchardai; rheoli personau a gyhuddir o droseddau neu a geir yn euog o droseddau; a'r gwasanaeth prawf. Dyma rai enghreifftiau:

a. [Trais yn erbyn Menywod, Trais Domestig a Cham-drin Rhywiol](#)

Mae deddfwriaeth trais domestig yn gyffredin i Gymru a Lloegr i raddau helaeth ac mae rhwymedïau mewn perthynas â thrais domestig, cam-drin domestig ac anffurfio organau rhywiol menywod wedi'u cadw yn ôl. Yn 2010, lansiodd Llywodraeth Cymru strategaeth chwe blynedd, sef 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod yng Nghymru. Yn dilyn hyn, ym mis Tachwedd 2016 lansiwyd '[Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(2016-2021\)](#)'. Mae rhagair y strategaeth hon yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn 'parhau i gydweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref ac asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru i sicrhau bod yr holl bartïon yn cydweithio, ar draws cyfrifoldebau sydd wedi'u datganoli a sydd heb eu datganoli, i gyrraedd ein nodau'. Mae'r Senedd wedi deddfu [Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\) 2015](#), i geisio gwella ymateb y sector cyhoeddus i gam-drin a thrais yng Nghymru.

b. [Plismona](#)

Mae plismona yn fater a gedwir yn ôl ond mae'n faes gweithgaredd sylweddol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn sylweddol oherwydd y cyd-destun cyllido, lle y mae Llywodraeth Cymru yn darparu elfen o Setliad yr Heddlu drwy'r Grant Cynnal Refeniw a dosbarthu Ardrethi Annomestig Cenedlaethol (treth gwbl ddatganoledig). Enghraifft proffil uchel o weithgaredd yw cymorth Llywodraeth Cymru (£16.7 miliwn yng Nghyllideb Derfynol 2019/20) ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) ychwanegol. Fodd bynnag, mae meysydd eraill o gyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a'r Senedd sy'n rhyngweithio â phlismona, gan gynnwys addysg, iechyd meddwl a diogelwch cymunedol. Er enghraifft, yn 2019, cynhaliodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd ymchwiliad, sef '[Iechyd meddwl yng nghyd-destun plismona a dalfa'r heddlu](#)', yn canolbwyntio ar waith partneriaeth rhwng yr heddlu, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac eraill i ystyried pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'n gweithio

gyda'i gilydd yng Nghymru i atal pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl rhag cael eu cymryd i mewn i ddalfa'r heddlu, ac er mwyn helpu i sicrhau y caiff pobl sy'n agored i niwed mewn argyfwng iechyd meddwl y gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen.

c. Caethwasiaeth Fodern

Er bod caethwasiaeth fodern yn fater a gedwir yn ôl, creodd Llywodraeth Cymru swydd Cydgysylltydd Atal Caethwasiaeth yn 2011 i weithio tuag at roi terfyn ar gaethwasiaeth yng Nghymru ac i gydgysylltu help a chymorth i orosywyr. Ariennir y Cydgysylltydd gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n atebol iddi. Mae'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gefnogi'r Cydgysylltydd. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd i'r afael â chaethwasiaeth drwy'r gadwyn gyflenwi a'r polisi caffael, gan gynnwys drwy greu '[pecyn cymorth Cod Ymarfer: Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi \(Mai 2017\)](#)'.

d. Carchardai

Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn asiantaeth weithredol a sefydlwyd ym mis Ebrill 2017. Mae Cyfarwyddiaeth Cymru Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn rheoli gweithrediad carchardai y sector cyhoeddus o ddydd i ddydd yng Nghymru. Wrth eu darparu, ceir cyrff hyd braich hefyd a ariennir ar wahân gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (gan gynnwys Arolygiaeth Carchardai EM, Arolygiaeth Prawf EM, yr Ombwdsmon Carchardai a Phrofiannaeth, Byrddau Monitro Annibynnol a Bwrdd Parôl). Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb am y gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag achosion troseddoldeb ac yn cefnogi adsefydlu yn fater datganoledig ac mae hyn yn cynnwys cymorth i garcharorion ac atal aildroseddau. Mae gofal iechyd carcharorion yn fater datganoledig ac mae Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd yn cynnal ymchwiliad o'r enw '[Darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion](#)'. Mae'n canolbwyntio ar brofiadau carcharorion Cymru o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflwyno ac yn ariannu'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau mewn carchardai i oedolion yng Nghymru drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth ar y cyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM.

e. Rheoli troseddwy

Mae llawer o weithgareddau sy'n ymwneud â rheoli troseddwy ac aildroseddau yn faterion a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, fel y mae adroddiad 'Justice at the Jagged Edge in Wales' yn nodi, mae'r weithgareddau hyn yn creu galw ar wasanaethau cyhoeddus. Mae Llywodraeth Cymru yn ceisio mynd ar drywydd ei pholisïau ei hun yn canolbwyntio ar droseddwy benywaidd, a throseddwy ifanc (yn ogystal â chyfiawnder ieuenctid yn ehangach).

44. Mae'r ymarfer mapio a'r adolygiad deunydd darllen yn datgelu materion penodol ar gyfer gwneud i gyfiawnder troseddol weithio yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys; y problemau a achosir yn benodol gan y 'ffin amrwd'; rheoli cymhlethdod a'r angen am

arweinyddiaeth; yr angen am werthusiad gwell o fentrau polisi ar sail tystiolaeth; yr angen am fwy o ddata dadgyfunol Cymru yn unig yn gyffredinol; a phryderon ynghylch craffu ac atebolrwydd.

2.2 Problemau 'ffin amrwd' penodol

45. Nodir y rhain yn fanylach yn yr ymarfer mapio a'r adolygiad deunydd darllen (atodiadau un a dau), ond maent yn cynnwys y gall trefniadau cyfansoddiadol atal Llywodraeth Cymru rhag mynd ar drywydd dulliau amgen mewn meysydd y mae ganddi gyfrifoldeb polisi amdanynt, ac maent hefyd yn atal Llywodraeth Cymru rhag dilyn 'dull gweithredu system gyfan', gan gynnwys o ran mynd i'r afael ag achosion gwreiddiol trosedd.
46. Fel cyrff a gedwir yn ôl, nid yw heddluoedd yng Nghymru yn aelodau swyddogol o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus. Mae hyn yn golygu nad yw'n ofynnol iddynt gymryd rhan mewn cyfarfodydd (er y cânt eu gwahodd iddynt, ynghyd â gwasanaethau prawf), ac ni chaiff Llywodraeth Cymru na'r Senedd osod dyletswyddau arnynt, gan gynnwys mewn perthynas â gweithrediad byrddau gwasanaethau cyhoeddus.
47. Enghraifft arall yw Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, sy'n gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus Cymru o ran atal, amddiffyn a chefnogi, ond ni chaiff osod dyletswyddau ar yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron na'r llysoedd fel sefydliadau a gedwir yn ôl.
48. Mae diogelwch cymunedol yn faes sy'n gorgyffwrdd yn sylweddol ag amrywiaeth o faterion cyfiawnder troseddol, gan gynnwys plismona. Rhan o'r cefndir i ddiogelwch cymunedol yng Nghymru yw [Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998](#) a ddarparodd ar gyfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, sy'n gyfrifoldeb i awdurdodau lleol a'r heddlu. Mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn nodi mewn perthynas â'r cyrff hyn bod hanner y partneriaid gofynnol bellach wedi'u datganoli ac yr adlewyrchir hyn mewn diwygiadau i'r Ddeddf, gan roi pwerau i Weinidogion Cymru osod gofynion penodol, naill ai'n annibynnol neu ar y cyd â'r Ysgrifennydd Gwladol. Ond, dywed y Comisiwn ar Gyfiawnder ymhellach, er gwaethaf y diwygiadau hyn, nad yw Deddf 1998 yn ateb y gofyn o hyd yng Nghymru ddatganoledig. Mewn adroddiad yn 2016, canfu Swyddfa Archwilio Cymru fod 'cyfrifoldebau cymhleth yn ei gwneud hi'n anodd i gyrff cyhoeddus gydgyssylltu ffordd strategol o fynd ati i gyflawni diogelwch cymunedol, sy'n gwanhau arweinyddiaeth ac atebolrwydd ar y cyd ac yn tanseilio'r potensial i helpu pobl i aros yn ddiogel' ([Swyddfa Archwilio Cymru](#): [9]). Argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder y dylai Partneriaethau Diogelwch Cymunedol gael eu cynnwys ym Mwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan diwygiedig arfaethedig.
49. Mae [Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015](#) yn gosod dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y GIG a Trafndiaeth Cymru. Mae'r Ddeddf hon yn rhyngweithio â mentrau heddlu Cymru. Mae Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru (dan gadeiryddiaeth Pennaeth Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru) yn darparu arweinyddiaeth strategol, gan gydgyssylltu cydweithrediad rhwng partneriaid datganoledig a rhai nad ydynt wedi'u datganoli a'r trydydd sector. Mae aelodau eraill o'r grŵp yn cynnwys Comisiynwyr Heddlu a

Throseddu, swyddogion Swyddfa Gartref y DU, Gwasanaeth Erlyn y Goron, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, y gwasanaeth prawf a sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder wedi awgrymu mai un rheswm posibl y mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu grwpiau megis y Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth, a grwpiau cenedlaethol a rhanbarthol eraill i fynd i'r afael â cham-drin domestig, yw oherwydd nad oedd yn rheoli agendâu grwpiau eraill, megis Byrddau Cyfiawnder Troseddol, sy'n eiddo i adrannau Whitehall.

50. Mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn adrodd bod Arolygiaeth Carchardai Ei Mawrhydi wedi tynnu sylw at broblemau'r 'ffin amrwd' pan fo'r gwasanaethau iechyd wedi'u datganoli a'r gwasanaethau carchardai dan reolaeth Llywodraeth y DU. Cynhaliodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd [ymgyngoriad ar brofiadau carcharorion yng Nghymru o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol](#). Mae [tystiolaeth gan Dr Rob Jones](#) o Ganolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd yn nodi bod adolygiad Arolygiaeth Carchardai EM 2015 i gamddefnyddio sylweddau mewn carchardai i oedolion yng Nghymru a Lloegr wedi pwysleisio bod y dull gweithredu gwahanol yng Nghymru yn arwain at 'ganlyniadau gwaeth i rai carcharorion' ac 'anghysondeb mewn triniaeth camddefnyddio sylweddau rhwng carchardai yng Nghymru a Lloegr'. Mae Dr Jones hefyd yn cyfeirio at adroddiad Arolygiaeth Carchardai EM wedi'i ddiweddarau (Gorffennaf 2018) sy'n dod i'r casgliad bod gwasanaethau yng Nghymru yn parhau i fod yn 'llawer llai diogel', gan arwain yn barhaus at 'ganlyniadau gwaeth' i garcharorion. Fodd bynnag, mae tystiolaeth [Prif Arolygydd Carchardai EM](#) i'r un ymgyngoriad gan y Senedd yn dangos bod materion 'ffin amrwd' yn berthnasol i'r ddwy ochr. Canfu'r Prif Arolygydd fod trefniadau llywodraethu a gwaith partneriaeth lleol yn gyffredinol dda mewn carchardai i ddynion yng Nghymru, er bod angen datblygu dulliau goruchwyllo. Roedd o'r farn bod rhwystrau presennol sylweddol mewn perthynas â darpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, yn ymwneud â materion sy'n gyfrifoldeb i Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM, yn enwedig adeiladau nad ydynt yn addas at y diben, prinder staff gofal iechyd a chyfundrefnau carchardai (megis dosbarthu meddyginiaethau) nad ydynt yn cyd-fynd â'r angen clinigol.
51. Yn 2019, [trafododd Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin drefniadau llywodraethu carchardai a darpariaeth gwasanaethau mewn carchardai](#) yng Nghymru, gan ddod i'r casgliad y dylai Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gydweithio'n agosach yn y meysydd cyfiawnder troseddol sy'n croestorri, megis iechyd, tai ac addysg. Dylai'r gwaith agosach hwn gynnwys creu fframwaith newydd ar gyfer cydweithredu ac integreiddio wrth ddarparu gwasanaethau carchar, gyda chysylltiadau clir. Mae'n anodd penderfynu pa mor llwyddiannus y mae'r gwaith agosach hwn wedi bod hyd yn hyn, o gofio bod y Comisiwn ar Gyfiawnder wedi adrodd am bryderon sylweddol yn ei adroddiad terfynol (a gyhoeddwyd bum mis ar ôl adroddiad Pwyllgor Materion Cymreig).

2.3 Rheoli cymhlethdod a'r angen am arweinyddiaeth

52. Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno nifer o gyfarwyddiaethau Cymreig sydd ag uwchrolau arwain i helpu i adlewyrchu'r dimensiwn Cymreig i'w gweithgareddau plismona a

chyfiawnder troseddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu llawer o'i phwyllgorau, byrddau, cymdeithasau, unedau, fforymau a phaneli cynghori ei hun (y rhan fwyaf mewn cysylltiad, i raddau amrywiol, â'r heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, awdurdodau lleol, byrddau gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau'r trydydd sector).

53. Mae'r newid i ddatganoli sefydliadol, yn benodol sefydlu datganoli gweinyddol cyfiawnder troseddol yng Nghymru, yn adlewyrchu'r angen i addasu i'r cyd-destun Cymreig ond mae hefyd wedi'i seilio ar werth dulliau gweithio cydgysylltiedig ac amlasiantaethol. Gall dulliau o'r fath helpu i nodi problemau, gan arwain at atebion mwy effeithiol, ac yn gallu osgoi dyblygu. Nid gwaith amlasiantaethol, fel y cyfryw, yw'r broblem, ond gormod o gyrff.
54. Daeth y Comisiwn ar Gyfiawnder i'r casgliad bod y drefniadaeth genedlaethol a rhanbarthol bresennol ar gyfer cyfiawnder troseddol yng Nghymru yn ddrud ac yn wastraffus. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd cydgysylltu dull gweithredu strategol ac yn arwain at sefyllfa o atebolrwydd gwasgaredig a darniog, gyda gwir atebolrwydd ar y cyd ar goll.
55. Mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder o'r farn y dylai byrddau gwasanaethau cyhoeddus gynnwys Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a bod y brif ffordd o ddatblygu dulliau cydgysylltu a darparu lleol ar draws yr holl wasanaethau. Ar hyn o bryd, mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan, sydd ag 21 o aelodau, a Bwrdd Plismona Cymru (a sefydlwyd yn 2018) ag aelodaeth debyg. Nid oes gan y Swyddfa Gartref na'r farnwriaeth gynrychioliaeth ar y byrddau hyn.
56. Mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn nodi nad oes gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan awdurdod gweithredol, gan ddibynnu ar aelodau'r Bwrdd i arfer awdurdod o'r fath yn eu rolau arwain unigol yn eu sefydliadau eu hunain. Ni chaiff y Bwrdd ddwyn neb i gyfrif. Nid yw'n gyfrifol am osod strategaeth gyffredinol ar gyfer Cymru. Yn yr ystyr hwn, mae'n ymddangos na chaiff y Bwrdd ei ddal yn benodol atebol yn ei gyfanrwydd. Unwaith eto, mae'r atebolrwydd drwy'r aelodau yn eu huwch-rolau arwain yn eu sefydliadau eu hunain. Mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn argymhell y canlynol: Dylid creu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan newydd. Dylai osod strategaeth cyfiawnder troseddol gyffredinol ar gyfer Cymru a darparu'r modd ar gyfer atebolrwydd yng Nghymru ar gyfer darparu'r dull gweithredu strategol cyffredinol hwnnw.

Dylai'r Bwrdd hwn gynnwys yr aelodau a ganlyn:

Un Comisiynydd Heddlu a Throseddu

Un Prif Gwnstabl

Prif Erlynydd y Goron ar gyfer Cymru

Cyfarwyddwr Carchardai a Phrofiannaeth i Gymru

Cadeirydd Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru

Cyfarwyddwr Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru

Cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar lefel cyfarwyddwr

Dylai'r Bwrdd hefyd gynnwys Bwrdd Plismona Cymru a'i rolau sy'n gorgyffwrdd, a dylai fod gan uwch-gynrychiolwyr y Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Chymorth i Ddiodeffwyr yr hawl i fod yn bresennol, gyda sefydliadau eraill yn cael gwahoddiad yn ôl yr angen. Dylai Bwrdd Cyfiawnder Troseddol newydd Cymru weithredu'n agored ac yn dryloyw, gyda gwefan yn nodi'n glir ei aelodaeth, yr agendâu ar gyfer cyfarfodydd a dogfennau polisi, a dylid adrodd yn rheolaidd i'r Senedd.

2.4 Yr angen am werthusiad gwell o fentrau polisi ar sail tystiolaeth; yr angen am fwy o ddata dadgyfunol Cymru yn unig

57. Mae'r mater hwn yn codi pryderon ar draws yr holl feysydd cyfiawnder yng Nghymru. Mae'r deunydd darllen a archwiliwyd ar gyfer yr adroddiad hwn mewn perthynas â chyfiawnder troseddol, gweinyddol, sifil a theuluol oll yn pwysleisio'r diffyg data mewn perthynas â chyfiawnder sydd ar gael ar sail ddadgyfunol Cymru yn unig. Mae'n beth cyffredin i ymchwilyr ddefnyddio deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth i gael mynediad at ddata am Gymru a gaiff eu cyhoeddi fel mater o drefn mewn perthynas â Lloegr yn unig, neu ar sail Cymru a Lloegr. Yn ei waith yn ymwneud â charcharu a dedfrydu, daeth [Dr Rob Jones](#) i'r casgliad mai dim ond drwy ddefnyddio deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth y gellir cael llawer o ffynonellau data Cymru yn unig, a bod y problemau a ddatgelwyd yn codi cwestiynau dybryd am atebolrwydd gwleidyddol ar gyfer carcharu. Mae gwaith Dr Jones yn datgelu bod gan Gymru gyfradd carcharu uchel iawn fesul pen o'r boblogaeth. Er ei fod yn pwysleisio bod y canfyddiadau, ynddynt eu hunain yn frawychus, mae Dr Jones yn nodi eu bod yn fwy brawychus oherwydd nad oedd y tueddiadau wedi'u canfod o'r blaen. Mae'n dod i'r casgliad bod hyn heb os, yn dwyn amheuaeth ar rôl asiantaethau cyfiawnder y DU yng Nghymru, yn ogystal â sefydliadau cymdeithas sifil ac ymchwilyr academiaidd. Mae [Dr Daniel Newman](#) hefyd yn nodi diffyg ymchwil Cymru yn unig i effaith toriadau cymorth cyfreithiol ar fynediad at gyfiawnder sifil a throseddol, ac i faterion mynediad at gyfiawnder yn fwy cyffredinol yng Nghymru.
58. Yng nghyd-destun aildroseddu, lluniwyd '[Strategaeth Lleihau Aildroseddu gyntaf Cymru](#)' yn 2014 mewn partneriaeth rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Archwiliodd y strategaeth ddull Cymru o reoli troseddwyr mewn modd integredig, ac ar gyfer pob strategaeth aildroseddu gosododd amcanion gyda dangosyddion perfformiad. Mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder wedi bod yn feirniadol o'r diffyg dull trylwyr o reoli perfformiad dan y strategaeth hon a [Fframwaith 2018](#) (a gyhoeddwyd ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder) a oedd yn olynu'r strategaeth. Mynegodd y Comisiwn ar Gyfiawnder ei bryder am strategaeth 2014 na chynhyrchwyd canlyniadau penodol o ran data ac ni allai'r Comisiwn gael tystiolaeth o gynnydd yn cael ei wneud o ganlyniad i bolisiau lleihau aildroseddu Cymru. Nododd y Comisiwn ar Gyfiawnder fod Fframwaith 2018 wedi'i anelu at hyrwyddo cydweithrediad rhwng sefydliadau datganoledig a sefydliadau nad ydynt wedi'u datganoli ond, unwaith eto, roedd y Comisiwn yn poeni am y dull cyfyngedig o ran monitro perfformiad a diffyg atebolrwydd clir. Yn sgil hyn, mae'n ymddangos bod pryder arall ynghylch monitro perfformiad yn erbyn strategaethau a mentrau newydd ar gyfer troseddwyr sy'n fenywod a throseddwyr ifanc. Mynegwyd

pryderon tebyg mewn perthynas â mentrau cyfiawnder teuluol (a drafodir ym mhennod pedwar isod).

2.5 Craffu ac atebolrwydd

59. Mae pryderon ynghylch arweinyddiaeth, argaeledd data a faint o waith gwerthuso a wneir yn amlwg yn effeithio ar atebolrwydd, ond mae Adroddiad 'Jagged Edge', fel y'i gelwir, hefyd yn canolbwyntio ar natur gymhleth cysylltiadau rhynglywodraethol a therfynau gwaith cydgysylltiedig i lunio polisiâu. Drwy amrywiaeth o gyfweiliadau lefel uchel, ochr yn ochr â ffynonellau ymchwil sylfaenol ac eilaidd eraill, daw'r awduron i'r casgliad bod Cymru'n aml yn cael ei hanwybyddu gan swyddogion cyfiawnder y DU yn Llundain a bod dogfennau polisi'r DU, er eu bod efallai yn cydnabod cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, yn aml yn methu ag adlewyrchu sut y bydd y polisi'n gweithio'n ymarferol. Mae pryder penodol nad yw datganoli gwaith gweinyddu sefydliadau cyfiawnder troseddol (fel Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Mawrhydi a Rheoli Integredig Troseddwr Cymru), yn ddigon i sicrhau bod cyd-destun Cymru yn cael ei ystyried yn llawn. Tra bod cyfrifoldeb polisi ar lefel Weinidogol yn cael ei gadw yn San Steffan a Whitehall, gall Cymru ymddangos fel ôl-ystyriaeth, gan arwain at sefyllfa lle mae cyrff datganoledig yn ymateb, gan orfod addasu i benderfyniadau polisi a wneir er budd canfyddedig Lloegr. Mae'r angen hwn i ddal i fyny yn rhwystro arloesedd a gall arwain at gyrrff datganoledig yn mabwysiadu atebion torri a gludo.
60. Ceir tystiolaeth hefyd o ddiffyg ymgynghori, sy'n tanseilio cydweithio a chydweithredu rhynglywodraethol, ond nid oes gan Lywodraeth Cymru ei hun ddigon o gapasiti ychwaith i roi ystyriaeth lawn i blismona a chyfiawnder troseddol yng Nghymru. Dywedir hefyd bod diffyg cydweithio rhwng adrannau Llywodraeth Cymru a newidiadau i bortffolios Gweinidogol wedi cyfrannu at drefniadau dryslyd ar gyfer plismona a chyfiawnder troseddol.
61. Fel y nodwyd uchod, nid oes gan Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan unrhyw atebolrwydd sefydliadol y tu hwnt i atebolrwydd ei aelodau unigol. Yn gyffredinol, mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn nodi mai 'prin yw'r ysgogiadau deddfwriaethol sy'n galluogi cyrff datganoledig i gael eu dwyn i gyfrif am ostwng aildroseddu a gwella canlyniadau oran adsefydlu'.
62. Edrychodd Adroddiad 'Jagged Edge' yn fanwl ar oruchwyliaeth y Senedd o faterion cyfiawnder troseddol (a gallai llawer o'r pryderon a godwyd fod yn berthnasol i feysydd cyfiawnder eraill yng Nghymru).
- 62.1 Y pryder cyntaf yw'r math o broblemau y mae pwyllgorau'r Senedd yn ymateb iddynt. Datgelodd yr ymchwil y gall Pwyllgorau ymateb i broblemau newydd neu broblemau sy'n dod i'r amlwg, ond yn fwyaf aml maent yn ymateb i feysydd lle mae Aelodau'n teimlo y gallai fod rhywfaint o botensial i gael effaith fwy uniongyrchol. Canfu'r ymchwil hefyd fod materion yn tueddu i fod yn destun craffu pan fydd Aelodau'n teimlo na ellir eu hanwybyddu mwyach oherwydd yr effaith amlwg ar etholwyr (mae cysgu ar y stryd, sylweddau seicoweithredol ac iechyd meddwl yn enghreifftiau

penodol). Awgrymodd y rhai a gafodd gyfweiliad fel rhan o'r ymchwil fod hyn yn arwain at waith craffu 'ymatebol yn hytrach na rhagweithiol' ar y Senedd. Oherwydd cymhlethdod y setliad datganoli, wrth graffu ar draws materion datganoledig a materion nad ydynt wedi'u datganoli, gall Pwyllgorau hefyd fod yn ansicr sut y bydd eu gwaith yn cyfrannu at bolisiâu yn y dyfodol. Gall Pwyllgorau fod yn ansicr ynghylch cwmpas eu hargymhellion a all arwain at argymhellion y dylai Llywodraeth Cymru 'gael trafodaethau' gyda'r Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, er enghraifft, neu y dylent gael eu 'hannog i weithio ochr yn ochr ag adrannau' Llywodraeth y DU. Un enghraifft a roddwyd oedd peidio â chynnal ymchwiliad posibl i adeiladu CEM Berwyn yng ngogledd Cymru oherwydd pryderon am lefel yr effaith y gallai Aelodau o'r Senedd ei chael ar garchardai fel mater a gadwyd yn ôl.

62.2 Yn ail, er nad yw llenwi bylchau yn y gwaith craffu ar faterion sydd heb eu datganoli i raddau helaeth yn un o amcanion ymwybodol Pwyllgorau'r Senedd, awgrymodd ymatebwyr ymchwil fod hyn yn rhan o'r cefndir i'r 'sefyllfa sydd ohoni', yn enwedig oherwydd pryderon am lefel y craffu y bydd y cyd-destun Cymreig i fater yn ei gael mewn pwyllgor dethol yn Nhŷ'r Cyffredin.

62.3 Yn drydydd, nododd yr Adroddiad 'Jagged Edge' broblemau ymarferol i Bwyllgorau'r Senedd sy'n craffu ar feysydd lle mae gorgyffwrdd â chyfrifoldebau Llywodraeth y DU. Nododd cyfranogwyr ymchwil y gall fod yn anodd cael Gweinidogion neu swyddogion y DU i ymgysylltu â gwaith y Senedd, gan gynnwys materion cyfathrebu sylfaenol ynghylch ymchwiliadau parhaus neu sesiynau tystiolaeth sydd ar y gweill. Mae gohebiaeth wedi mynd heb ei hateb neu gydag oedi hir, ac weithiau bu angen 'negodi' cyn i un o Weinidogion y DU gytuno i roi tystiolaeth lafar, ac mewn rhai achosion mae'r Gweinidogion wedi ymddangos ar y funud olaf yn bennaf oherwydd awgrym gan y Pwyllgor y gallai 'wthio'n fwy cyhoeddus' i gael yr ymgysylltu a geisiwyd; mae'r broses yn ei chyfanrwydd wedi cael ei disgrifio fel un 'eithriadol o rwystredig'. Yn gyfreithiol, ni all y Senedd 'orfodi' galwad i roi tystiolaeth ar un o Weinidogion y Goron neu swyddog sy'n gweithio i Lywodraeth y DU ([Deddf Llywodraeth Cymru 2006, adran 37\(3\)](#)). Fodd bynnag, mae swyddogion yn ystyried eu bod yn fwy atebol yn naturiol i Bwyllgorau Tŷ'r Cyffredin ac mae'r Senedd yn isel ar eu rhestr o bryderon. Fel y nododd Jones a Wyn Jones: Er y gellid rhoi atebion ysgrifenedig i gwestiynau fel dewis arall, bydd gwrthod ymddangos wyneb yn wyneb yn atal pwyllgorau rhag elwa ar y manteision sy'n gysylltiedig â sesiynau tystiolaeth lafar. Gall y rhain gynnwys dull 'mwy gwybodus' o graffu.

62.4 Yn bedwerydd yw'r broblem o ddiffyg data ar gyfer Cymru yn unig. Bu'n rhaid i swyddogion y Senedd hefyd ddibynnu ar geisiadau o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth i gael gafael ar ddata a fyddai, ar y cyfan, ar gael yn glir ac yn gyhoeddus mewn perthynas â Lloegr, neu ar gyfer Cymru a Lloegr

gyda'i gilydd. Roedd ymatebwyr i'r Adroddiad 'Jagged Edge', fel y'i gelwir, o'r farn bod hyn yn 'brif her' a bod cael mynediad at ddata weithiau'n ymddangos fel pe bai'n gysylltiedig â chanfyddiadau ynghylch pwy fyddai'n ei ddefnyddio a sut. Yn benodol, mae'n haws cael gafael ar ddata polisiau, ond mae'n anoddach cael gafael ar ystadegau penodol, gyda'r awgrym bod cais am ystadegau'n fwy tebygol mewn cysylltiad â chraffu ar arferion cyfredol, yn hytrach nag fel cefndir i ddatblygu mentrau polisi yn y dyfodol.

62.5 Yn bumed, awgrymodd ymatebwyr i'r astudiaeth 'Jagged Edge', fel y'i gelwir, fod adroddiadau ymchwil academaidd weithiau wedi bod yn gatalydd rhannol neu hyd yn oed sylweddol ar gyfer ymgysylltu â materion cyfiawnder yn y Senedd, fodd bynnag, roedd barn gyffredinol bod sefydliadau cymdeithas sifil yng Nghymru wedi dangos diffyg diddordeb mewn materion cyfiawnder. Gallai'r rhesymau dros hyn gynnwys; cymhlethdod y setliad datganoli, ochr yn ochr â'r farn gyffredinol nad oes gan y Senedd a Llywodraeth Cymru unrhyw gymwyseddau sylweddol gan nad yw cyfiawnder cyfreithiol wedi'i ddatganoli, i raddau helaeth, a bod sefydliadau cymdeithas sifil yn well eu byd yn cyfeirio eu sylw at Weinidogion ac Aelodau Seneddol y DU os ydynt am gael effaith. Daeth Jones a Wyn Jones i'r casgliad: Yn absenoldeb cymdeithas sifil gref a gweithgar yng Nghymru, galwodd cyfranogwyr yr ymchwil ar Lywodraeth Cymru i fod yn llawer cliriach ynglŷn â'i rôl ym maes plismona a chyfiawnder troseddol. Nodwyd hefyd, heb weithgarwch gan grwpiau buddiant, nad yw Cadeiryddion Pwyllgorau ac Aelodau'n debygol o gael 'briffiau' am faterion a phroblemau sy'n dod i'r amlwg, a mater sy'n gysylltiedig â hynny yw dealltwriaeth yr Aelodau eu hunain o faterion cyfiawnder.

62.6 Yn chweched, mae'n fater o gapasiti Aelodau. Yn benodol, a oes ganddynt ddigon o wybodaeth, a dealltwriaeth, i graffu'n briodol ar ystod eang o faterion cyfiawnder. Roedd rhai ymatebwyr i'r ymchwil 'Jagged Edge' yn cofio dadleuon yn y Cyfarfod Llawn lle roeddent o'r farn bod dealltwriaeth ymhlith Aelodau yn amrywio, gyda rhywfaint o wybodaeth ar 'lefel arwynebol' yn unig, mae hyn yn gysylltiedig â'r diffyg cymharol o waith briffio gan sefydliadau cymdeithas sifil. Fodd bynnag, mae hefyd yn cael ei gymhlethu gan y ffaith bod Aelodau'n cael eu hymestyn ar draws nifer o Bwyllgorau. Fel y cynigiodd y [Llywydd mewn tystiolaeth i'r Comisiwn ar Gyfiawnder](#) 'y prif gyfyngiad' ar allu'r Senedd i graffu'n fanwl ar faterion cyfiawnder yw nad oes digon o Aelodau i wneud y gwaith.

62.7 Seithfed, yw mater arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru a chymhlethdod cyfiawnder ar draws cymwyseddau'r Llywodraeth a'r Senedd. Un o'r 'ffactorau allweddol' wrth bennu effeithiolrwydd craffu seneddol yw pa mor agored yw'r Llywodraeth. Awgrymodd ymatebwyr i'r ymchwil 'Jagged Edge', fel y'i gelwir, fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru hyrwyddo'n well yr hyn y mae'n ei wneud ym maes cyfiawnder. Awgrymodd un cyfwelai fod methiant Llywodraeth Cymru i gyfleu'n glir yr hyn y mae'n ei wneud o fewn y maes polisi plismona a chyfiawnder troseddol yn rhwystr i graffu

effeithiol. Yn fyr, nid oes modd craffu ar yr hyn nad ydych yn ymwybodol ei fod yn digwydd. Mynegwyd barn nad yw Gweinidogion yn debygol o dynnu sylw at bethau nad ydynt yn benodol o fewn eu 'briff'. Nododd un cyfwelai fod yr holl sôn am blismona yng Nghymru yn dod o San Steffan a'r Swyddfa Gartref ac oherwydd nad oes gan yr un o Weinidogion Llywodraeth Cymru blismona yn benodol yn ei briff, efallai y bydd Gweinidogion eraill (fel y rhai sydd â briffiau sy'n ymwneud ag iechyd ac addysg sy'n gorgyffwrdd â phlismona) yn llai tebygol o gyfleu cwmpas eu gweithgarwch. Dywedwyd hefyd bod newidiadau rheolaidd gan Lywodraeth Cymru i bortffolios Gweinidogol ac adrannol yn gwaethygu ansicrwydd ac yn arwain at ddiffyg craffu gan y Senedd gan nad yw'n glir pa Weinidog neu adran sy'n gyfrifol am faes polisi penodol. Dywedodd un cyfwelai, os nad oes unrhyw un sydd â chyfrifoldeb uniongyrchol, neu os nad yw'r system yn gwybod ble mae'r person, bod hyn yn golygu nad ydych yn teimlo eich bod yn gallu esbonio beth sy'n digwydd, ac felly bod y Cynulliad ar ei cholled oherwydd nad yw'r sefydliad yn gwybod beth sy'n digwydd. Un enghraifft benodol a roddwyd oedd hunaniaeth y gweinidog sy'n gyfrifol am gamddefnyddio sylweddau yng Nghymru, a dywedodd un ymatebydd nad oedd yn gwybod pwy oedd y gweinidog. Mae'n debyg bod y lefel hon o ansicrwydd hefyd wedi achosi dryswch pan fydd Aelodau'n ceisio codi cwestiynau yn y Siambr. Gall rhannu cyfrifoldebau achosi anawsterau, oherwydd er enghraifft, mae addysg carcharorion o dan addysg, ac iechyd carcharorion o dan iechyd. Gallai'r penderfyniad o ran lle i gyfeirio cwestiwn am ddigwyddiad penodol mewn carchar yng Nghymru ddibynnu ar natur y cwestiynau dilynol y mae'r Aelod yn dymuno eu dilyn. Awgrymwyd yn yr ymchwil 'Jagged Edge', fel y'i gelwir, y gall y lefel hon o gymhlethdod ac ansicrwydd weithiau olygu bod Aelodau unigol yn teimlo y gallant gael gwell gwybodaeth o ffynonellau amgen y tu allan i faes penodol craffu ac atebolrwydd cyhoeddus. Mae problemau o ran cymhlethdod yn ehangach na phryderon am arweinyddiaeth y Llywodraeth. Mae natur portffolios Pwyllgorau'r Senedd yn golygu bod plismona a chyfiawnder wedi pontio gwahanol Bwyllgorau, gyda phob un yn gyfrifol am graffu ar bortffolios nifer o Weinidogion weithiau. Mae'r 'ffocws' ar faterion cyfiawnder yn cael ei wanhau gan yr ystod o faterion eraill y mae'n rhaid i'r Pwyllgorau hynny eu hystyried (yn aml materion lle gall Aelodau gael effaith fwy uniongyrchol). Yn y pen draw, efallai fod rhai meysydd y dylid eu goruchwylio yn cael eu hosgoi'n fwiadol hyd yn oed, oherwydd eu cymhlethdod, pryderon am gymhwysedd ac effaith, a'r syniad y bydd pynciau datganoledig eraill mwy amlwg yn cael mwy o sylw syn golygu bod materion 'ffin amrwd' yn symud ymhellach i lawr yr agenda nes iddynt ddiflannu'n raddol.

63. Roedd y rhan fwyaf o'r awgrymiadau i'r Adroddiad 'Jagged Edge' ynghylch sut y gellid gwella'r gwaith craffu yn canolbwyntio ar yr angen am eglurder ynghylch y cymwyseddau cyfiawnder penodol sy'n cael eu harfer o fewn Llywodraeth Cymru, pa dimau sy'n arfer pa gymwyseddau, a phwy yw'r Gweinidogion atebol perthnasol. Nid oes gwybodaeth benodol ar gael, er enghraifft, am nifer y staff yn Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â materion cyfiawnder. Awgrymwyd y byddai creu arweinydd mwy

gweladwy ar gyfer polisiâu cyfiawnder yng Nghymru yn gwella craffu yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth. Y Prif Weinidog sy'n gyfrifol, ond yn ôl pob golwg nid yw hyn yn hysbys yn eang.

Pennod Tri: Cyfiawnder Gweinyddol

64. Mae cyfiawnder gweinyddol yn codi ystyriaethau gwahanol i gyfiawnder troseddol. Yn gyntaf, ar draws y DU, mae cyfiawnder gweinyddol yn tueddu i gael ei ystyried yn system 'Sinderela', gyda dealltwriaeth gymharol gyfyngedig o'r syniad bod y gweithdrefnau ar gyfer gwneud penderfyniadau gweinyddol, cyfraith weinyddol gyhoeddus, a mecanweithiau ar gyfer datrys anghydfodau yn ffurfio system gyfiawnder. Yn ail, mae sawl agwedd ar bolisiau cyfiawnder gweinyddol a chyfrifoldeb deddfwriaethol eisoes wedi'u datganoli i Gymru. Er enghraifft; datblygu cyfraith weinyddol gydlynol a chyson, yn enwedig y rhannau sy'n gosod dyletswyddau ar benderfyniadau cyrff cyhoeddus; datblygu dulliau cydlynol ac egwyddorol o wneud iawn yn erbyn penderfyniadau cyrff cyhoeddus, a gweithredu rhai mecanweithiau ar gyfer gwneud iawn gan gynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a thriwlynlysoedd datganoledig Cymru. I bob pwrpas, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisiau cyfiawnder gweinyddol mewn perthynas â phob maes gweinyddiaeth gyhoeddus ddatganoledig (ac eithrio rôl y llysoedd, triwlynlysoedd a gedwir yn ôl a chymorth cyfreithiol). Mae'n werth nodi bod hyn wedi bod yn wir, yn rhannol o leiaf, ers sefydlu'r Senedd, ond dim ond yn 2014 y sefydlwyd swyddogaeth polisiâu cyfiawnder penodol. Mae'n werth nodi hefyd nad yw Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi polisi cyfiawnder gweinyddol hyd yma, ac mae'r Uned Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd flaenorol yn Llywodraeth Cymru wedi'i hailenwi'n Uned Triwlynlysoedd Cymru. Gallai hyn awgrymu cyfrif culach o gyfiawnder gweinyddol, gan esgeuluso dull mwy cydgyssylltiedig a chynhwysol efallai (sydd wedi'i argymhell gan ymchwil, fel yr ymchwil sy'n cael ei harwain gan [Brifysgol Bangor](#)) ac yn fwy diweddar y Comisiwn ar Gyfiawnder). Fodd bynnag, efallai fod y newid enw hwn yn fwriadol er mwyn pwysleisio cymeriad penodol triwlynlysoedd datganoledig Cymru fel cyrff *barnwrol* (pan mae'r hanes o driwlynlysoedd fel rhan o adrannau *gweinyddol*, ac felly heb annibyniaeth, yn dal i fod yn amlwg).
65. Y corff cyntaf gyda rôl ffurfiol i oruchwylio'r system gyfiawnder weinyddol yng Nghymru oedd Pwyllgor Cymru'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd Mae ei [Adolygiad o Driwlynlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru](#) a gyhoeddwyd yn 2010, ac sydd wedi'i ategu gan adolygiadau mewnol Llywodraeth Cymru, wedi bod yn sail i raglen Llywodraeth Cymru o ddiwygio triwlynlysoedd datganoledig yng Nghymru, gan gynnwys gwelliannau a ddaeth i rym yn [Neddf Cymru 2017](#).
66. Cafodd Pwyllgor Cymru'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd ei olynu yn 2013 gan y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd yng Nghymru (a ariannwyd yn bennaf gan Weinyddiaeth Gyfiawnder y DU). Cyhoeddiad allweddol y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd yng Nghymru yw ei 'Adroddiad Gwaddol', [Cyfiawnder Gweinyddol: Sylfaen Cyfiawnder Cymdeithasol yng Nghymru; Diwygio blaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad](#), a gyhoeddwyd yn 2016. Yna cafodd y Pwyllgor ei ddiddymu gan Lywodraeth Cymru. Fel gyda chyfiawnder troseddol, mae

pryderon ynghylch y posibilrwydd o ddiffyg cydgysylltu, arweinyddiaeth a goruchwyliaeth mewn perthynas â chyfiawnder gweinyddol.

67. Daeth y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd yng Nghymru i'r casgliad fod cyfiawnder gweinyddol yn llawer mwy arwyddocaol nag a sylweddolir yn aml. Edrychodd ei Adroddiad Gwaddol ar draws y dirwedd cyfiawnder gweinyddol, gan lunio 35 o argymhellion yn pwysleisio nad yw cyfiawnder gweinyddol yn ymwneud â gwneud iawn i ddinasyddion yn unig ond mae hefyd yn ymwneud â dysgu gwersi o'r hyn sy'n mynd o'i le a'u hymgorffori mewn gweledigaeth o weinyddiaeth gyhoeddus dda. Pwysleisiodd yr Adroddiad Gwaddol hefyd fod cyfraith dda a gwaith craffu effeithiol yn elfennau allweddol o gyfiawnder gweinyddol, a bod gwasanaethau cynghori yn hanfodol i alluogi pobl i lywio systemau gwneud iawn a deall eu hawliau. Roedd argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru yn ymwneud â gweithrediad triwlynlysoedd penodol, a goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth y system driwlynlysoedd yng Nghymru; pryderon ynghylch datblygu gwahanol fecanweithiau gwneud iawn 'ad hoc' nad ydynt yn cael eu llywio gan egwyddorion clir a thryloyw, ac sy'n gallu bod yn anghyson, a heb oruchwyliaeth ddigonol (neu unrhyw oruchwyliaeth mewn rhai achosion). Gwnaeth y Pwyllgor ystod o argymhellion i'w cyfleu i'r Senedd. Yn benodol, o ran hyfforddiant i Gadeiryddion Pwyllgorau'r Senedd, ac i Aelodau a staff Comisiwn y Senedd, ynghylch cymeriad a chyd-destun penodol cyfiawnder gweinyddol, a phwysigrwydd goruchwyliaeth wleidyddol wrth ei ddatblygu a'i weithredu.
68. Mae Ymchwil i gyfiawnder gweinyddol yng Nghymru (fel [Cyfiawnder Gweinyddol: Gwnaeth System Gyfiawnder Ddatganoledig Gyntaf Cymru: Gwerthusiad ac Argymhellion](#)) argymhellion pellach yn ymwneud â chyfraith weinyddol gyhoeddus a hawliau dynol (yn enwedig yng nghyd-destun cydgrynhoi a chodeiddio), rolau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiynwyr Cymru, adolygu mecanweithiau gwneud iawn 'ad hoc' (neu'r hyn y mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn cyfeirio ato fel 'lled-farnwrol'), argymhellion yn ymwneud â diwygio a goruchwyllo triwlynlysoedd, ac argymhellion yn ymwneud â thriwlynlysoedd datganoledig penodol yng Nghymru. I bob pwrpas, cafodd y rhan fwyaf o'r argymhellion hyn eu cymeradwyo gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yn ei delerau ei hun, mewn chwe argymhelliad craidd ar gyfiawnder gweinyddol, ac mewn argymhellion atodol (ac ategol).

69. Mae ymchwil bellach a gwblhawyd yn ddiweddar, [prosiect 18 mis a ariannwyd gan Sefydliad Nuffield](#) sy'n cynnwys academyddion o Brifysgol Bangor, Canolfan Llywodraethiant Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd, yn gwneud 36 o argymhellion eraill mewn perthynas â chyfiawnder gweinyddol yn gyffredinol; 19 yng nghyd-destun cyfiawnder gweinyddol mewn tai cymdeithasol a digartrefedd; a 12 sy'n ymwneud â chyfiawnder gweinyddol mewn addysg gynradd ac uwchradd a gynhelir.

3.1 Cyfraith weinyddol gyhoeddus

70. Dywedodd y Comisiwn ar Gyfiawnder mai cyfraith weinyddol sylweddol yw'r maes lle mae cyfraith Cymru wedi ymwahanu fwyaf oddi wrth gyfraith Lloegr, a lle mae'r potensial mwyaf ar gyfer ymwahanu pellach. Mae llawer o waith Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn perthyn i'r categori hwn: deddfwriaeth sy'n ymwneud ag iechyd y

cyhoedd, gofal cymdeithasol a lles; deddfwriaeth sy'n ymwneud ag addysg; tai cymdeithasol a digartrefedd; deddfwriaeth sy'n ymwneud â chynllunio, yr amgylchedd; a'r Gymraeg.

71. Rhai o swyddogaethau allweddol y Senedd yw sicrhau bod cyfraith weinyddol yn datblygu mewn modd clir, cyson a chydlynol; craffu i sicrhau y bydd modd i gyrff cyhoeddus gyflawni'r rhwymedigaethau a bennir; ac adolygiad ôl-ddeddfwriaethol parhaus o effeithiau dyletswyddau newydd ar gyrff cyhoeddus, cyfraddau cydymffurfio a chanlyniadau.
72. Yn 2014, argymhellodd [Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus](#) y dylai Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn adolygu cyfraith weinyddol gyffredinol bresennol er mwyn sicrhau ei bod yn symleiddio'r broses o wneud penderfyniadau yn y sector cyhoeddus yn hytrach na gosod cyfyngiadau gormodol arni neu greu cymhlethdod; a naill ai diddymu darpariaethau o'r fath neu egluro eu hystyr a sut maent yn rhyngweithio. Ers i Gomisiwn Williams gyhoeddi ei adroddiad, ymddengys nad oes adolygiad wedi'i gynnal o'r ddeddfwriaeth bresennol, ac mae deddfwriaeth bellach wedi'i hychwanegu sy'n 'haenu' dyletswyddau newydd ar gyrff cyhoeddus. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod rhai Biliau newydd posibl, er enghraifft Bil Hawliau Pobl Hŷn, wedi'u crybwyll, ond nad ydynt wedi'u datblygu gan Lywodraeth Cymru am y rheswm y gallai hyn ychwanegu haen ychwanegol o gymhlethdod heb eglurder ynghylch yr hyn y byddai dyletswydd sylw dyledus newydd yn ei ychwanegu, yn ymarferol, at ddyletswyddau sy'n bodoli eisoes. Byddai gwaith pellach i ymgorffori normau hawliau dynol rhyngwladol yn elwa o roi ystyriaeth fwy penodol i'r cyd-destun cyfiawnder gweinyddol.
73. Mae cyfraith weinyddol gyffredinol Cymru, y tu hwnt i feysydd pwnc penodol tai, addysg, cynllunio ac ati, yn gosod dyletswyddau gweithdrefnol sy'n seiliedig yn bennaf ar hawliau, cydraddoldeb a chynaliadwyedd naill ai ar y rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, neu ar gyrff penodol sydd fel arfer mewn sectorau penodol. I raddau, mae cyrhaeddiad cyfraith weinyddol Cymru yn ei chyfanrwydd wedi'i egluro gan adran 4 o Ddeddf Cymru 2017 sy'n diffinio 'awdurdod datganoledig yng Nghymru' (gallai hyn hefyd fod o gymorth o ran diffinio a chryfhau rôl y Llys Gweinyddol yng Nghymru ymhellach drwy newidiadau i'r Rheolau Trefniadaeth Sifil, a drafodir ymhellach isod).
74. I raddau, mae'r syniad o resymoli o leiaf rai meysydd o gyfraith weinyddol gyhoeddus yng Nghymru wedi cael ei ystyried gan Weithgor a sefydlwyd o dan 'Adolygiad Cydraddoldeb Rhwng y Rhywiau' Llywodraeth Cymru. Yn benodol, cynhaliwyd asesiad gan Grŵp, dan arweiniad Dr Alison Parken o Brifysgol Caerdydd, ynghylch sut i gryfhau'r broses o integreiddio deddfwriaeth a llunio polisiau ym meysydd llesiant, cydraddoldeb, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a gofal cymdeithasol, gyda'r nod o wella gweithrediad a chanlyniadau ([Aligning and Improving Outcomes for Well-being and Equality](#) (2019)). Mae'r diwygiadau a awgrymwyd gan y Grŵp yn cynnwys; adroddiadau cyfunol gan gyrff cyhoeddus unigol ar fwy nag un ddyletswydd, neu gyrff cyhoeddus sy'n gweithio mewn partneriaeth i adrodd gyda'i gilydd mewn perthynas â dyletswyddau penodol; y gallai amserlenni ar gyfer adrodd gael eu 'halinio' yn well; y dylid adolygu'r ddarpariaeth honno er mwyn estyn cwmpas dyletswyddau

deddfwriaethol penodol a gwella cysondeb; y gellid cryfhau dyletswyddau penodol (naill ai drwy ddiwygio neu drwy ganllawiau pellach) er mwyn ceisio sicrhau eu bod yn fwy nag ymarferion proses ticio blychau, a bod mwy o atebolrwydd (gan gynnwys atebolrwydd cyfreithiol) am ganlyniadau.

75. Daeth y Comisiwn ar Gyfiawnder i'r casgliad a ganlyn: 'Mae gan Gymru bolisiau clir a phellgyrhaeddol ynghylch cenedlaethau'r dyfodol, cynaliadwyedd a safonau rhyngwladol ar hawliau dynol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi'u hintegreiddio â'r system gyfiawnder. Nid yw'r fframwaith cyfreithiol nodedig a ddatblygir i ategu'r polisiau hyn, gan gynnwys creu swyddogion cyhoeddus annibynnol sy'n gyfrifol am hyrwyddo a diogelu hawliau, yn gyson â'r system gyfiawnder'. Gall ei ddefnydd o'r geiriau 'integreiddio' a 'chyson' wrth sôn am y berthynas â'r system gyfiawnder fod braidd yn amwys yn fwriadol. Gellid eu dehongli mewn nifer o ffyrdd:

75.1 Nad yw'r ddadl am hawliau, cynaliadwyedd a chydaddoldeb yn Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn cael ei deall fel mater o 'gyfiawnder', y tu hwnt i'r syniad y gallai hawliau dynol ac ati feithrin cyfiawnder cymdeithasol ar y cyd. Nid yw'r Grŵp Rhanddeiliaid Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a ffurfiwyd gan Lywodraeth Cymru wedi ystyried cyfiawnder gweinyddol yn benodol, ac nid yw'r Grŵp Trawsbleidiol ar Hawliau Dynol yn y Senedd wedi gwneud hynny ychwaith.

75.2 Nid yw deddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau presennol yng Nghymru sy'n ceisio diogelu hawliau, cydraddoldeb a chynaliadwyedd yn rhoi sail gyfreithiol benodol i unigolion (neu grwpiau) ddwyn achos mewn llys neu driwlynlys i ddiogelu hawliau neu orfodi dyletswyddau. Yn ôl pob golwg, nid yw deddfwriaeth o'r fath wedi cael fawr o effaith ar y system cyfiawnder cyfreithiol yng Nghymru.

75.3 Fel y noda'r Comisiwn ar Gyfiawnder, crëwyd 'swyddogion cyhoeddus annibynnol' i hyrwyddo hawliau a chynaliadwyedd ac i ddarparu rhywfaint o orfodaeth ac atebolrwydd. Mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn cyfeirio i bob pwrpas at bedwar Comisiynydd Cymru a gallai ystyried bod gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru rôl yma hefyd. Mae gan bob corff berthynas ychydig yn wahanol â sefydliadau cyfiawnder cyfreithiol, llysoedd a thriwlynlysoedd.

76. Bu rhywfaint o ddadlau ynghylch y gallu i orfodi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf flaenllaw Cymru ar gyfer cyfraith weinyddol, yn dilyn dwy ymgais aflwyddiannus i 'orfodi' dyletswyddau o dan y Ddeddf drwy adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol. Trafodwyd hyn yng Nghyfarfod Llawn y Senedd, ac yn ystod gwaith [craffu ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol drwy'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau](#). Mae'n ymddangos bod Llywodraeth Cymru a'r Comisiynydd yn parhau i anghytuno ynghylch statws cyfreithiol rhai dyletswyddau o dan y Ddeddf. Mae'n werth nodi er mwyn bod yn gyflawn bod Llywodraeth y DU heb gefnogi [Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol y DU](#) arfaethedig am yr union reswm ei bod wedi'i drafftio i greu seiliau penodol ar gyfer dwyn achosion cyfreithiol i geisio rhwymediau yn y llysoedd (darpariaethau nad ydynt wedi'u cynnwys yn y Ddeddf). Fel arall, mae cefnogaeth drawsbleidiol i'r Bil.

77. Ceir canllawiau defnyddiol gan yr Arglwydd Thomas yn ei [Ddarlith Renton i Statute Law Society ym mis Tachwedd 2019](#). Yma roedd yn feirniadol o ddeddfwriaeth 'uchelgeisiol' ar ôl ei dymor fel Cadeirydd y Comisiwn ar Gyfiawnder. Mae'r Arglwydd Thomas yn dadlau bod rhywfaint o gyfraith weinyddol yng Nghymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn arwain at obaith gwag ac yn tanseilio rheolaeth y gyfraith. Ei gasgliadau cydberthynol canolog yw: yn gyntaf, bod yn rhaid drafftio deddfwriaeth sy'n ceisio gwella penderfyniadau gweinyddol gyda digon o gywirdeb i alluogi llys, tribiwnlys neu gorff gorfodi arall priodol i benderfynu a yw dyletswyddau perthnasol wedi'u cyflawni ar sail tystiolaeth wrthrychol; yn ail, y dylid archwilio'r defnydd o wahanol fecanweithiau gorfodi a allai gynnwys llys neu dribiwnlys, ond a allai hefyd fod yn ombwdsmon â rôl ddyfarnol, neu gomisiynydd â phwerau gorfodi. Mae'n deg dweud, yn gyffredinol, fodd bynnag, fod yr achos dros roi pwerau gorfodi ychwanegol i unrhyw un o Gomisiynwyr Cymru yn amrywio'n fawr yn seiliedig ar eu rolau unigol, ac y byddai mabwysiadu un ymagwedd ar gyfer pob un yn debygol o fod yn amhriodol.
78. Y prif ddull ar gyfer gorfodi cyfraith weinyddol gyhoeddus Cymru yw drwy adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol. Defnyddir adolygiad barnwrol i bob pwrpas fel ôl-stop cyfraith gyffredin yn absenoldeb mecanweithiau gorfodi statudol, gyda llawer o enghreifftiau lle gallai gynnig yr unig ddull cyfreithiol i unigolion gael iawn (er enghraifft, o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, i orfodi dyletswyddau penodol o dan [Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#), ac o dan [Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc \(Cymru\) 2011](#)). Mae adolygiad barnwrol yn darparu math cymharol wan o atebolrwydd o ran gwneud iawn am gamweddau unigol, yn ymarferol mae'n rhwyd ddiogelwch mewn achosion lle na cheir mesurau gwneud iawn eraill, neu rai sy'n annigonol. Mae parch tuag at y broses a sensitifrwydd i arbenigedd a sefyllfa gyfansoddiadol barnwyr a gweinyddwyr yn rhan o'r weithdrefn, nid yw wedi'i gynllunio'n dda fel modd o ddiogelu hawliau cyfreithiol unigol, hyd yn oed os mai dyma sut y caiff ei ddefnyddio amlaf yn ymarferol yng Nghymru a Lloegr. Mae sefydliadau, gan gynnwys y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, yn nodi bod y diffyg ymwybyddiaeth o adolygiadau barnwrol yng Nghymru yn golygu y gall fod yn anodd nodi ac felly ariannu achosion lle byddai cyfraith Cymru yn elwa o ddehongliad barnwrol sy'n dryloyw ac yn annibynnol, ac a fyddai'n pasio trothwy'r adolygiad barnwrol angenrheidiol o ran bod yn agored i'w drafod ar sail ffeithiau unigol (cyflwyniad a thrafodaeth yn ystod digwyddiad Cyfraith Gyhoeddus Cymru, Disability and Justice in Wales, Ionawr 2020).
79. Er hynny, mae adolygiad barnwrol yn amddiffyniad hanfodol i reolaeth y gyfraith, a dylai'r Senedd a Llywodraeth Cymru fod yn ymwybodol bod ymrwymadau maniffesto Llywodraeth bresennol y DU yn cynnwys adolygiad o gyfraith weinyddol ac adolygiad barnwrol penodol, a dylid ei wyllo'n ofalus am ei effeithiau posibl yng Nghymru.

3.2 Sefydliadau cyfiawnder gweinyddol:

Y Llys Gweinyddol yng Nghymru

80. Sefydlwyd Llys Gweinyddol yng Nghaerdydd yn 2009 fel rhan o gynigion y Gweithgor Barnwrol dros Gyfiawnder y tu allan i Lundain i ddatganoli adolygiad barnwrol yng Nghymru a Lloegr, gan olygu bod modd i achosion gael eu cychwyn a'u penderfynu'n lleol gyda'r nod o leihau costau ac anghyfleustra i gyfreithwyr 'rhanbarthol' a'u cyfreithwyr. Er bod rhesymau cyfansoddiadol ac ieithyddol dros ddatganoli'n benodol i Gymru, dim ond rhan o'r achos dros ddiwygio oedd hyn. Mae hyn yn cyd-fynd â phrofiadau ym maes cyfiawnder troseddol lle mae 'rhanbartholi' wedi bod yn fenter bolisi ehangach i Gymru a Lloegr, ond lle mae'r cyd-destun datganoli yn arwain at broblemau a chyfleoedd penodol, yng Nghymru.
81. Mae'r mwyafrif helaeth o'r hawliadau yn erbyn diffynyddion cyrff cyhoeddus yng Nghymru bellach yn cael eu cyflwyno yng Nghaerdydd a'u clywed yng Nghymru, ond mae'n parhau'n gyffredin i achosion gael eu cychwyn mewn manau eraill (yn Llundain fel arfer) a'u trosglwyddo wedyn i Gaerdydd o dan y Cyfarwyddyd Ymarfer perthnasol. Yn empiraidd, mae Cymru'n parhau i gynhyrchu llai o hawliadau adolygiad barnwrol sifil (nad ydynt yn rhai mewnfudo) fesul pen o'r boblogaeth na rhanbarthau yn Lloegr, ac mae cyfran yr hawliadau a gyhoeddir gan ymgyfreithwyr heb gynrychiolaeth yn cynyddu (yng Nghaerdydd ac ar draws y Llys Gweinyddol yn gyffredinol). Mae diwygiadau cymorth cyfreithiol yn debygol o fod wedi cael effaith anghymesur ar fynediad i adolygiad barnwrol y tu allan i Lundain, gan gynnwys yng Nghymru, yn rhannol o leiaf oherwydd bod y diwygiadau hyn wedi arwain at gau cwmnïau cyfraith sy'n cynnig cyngor perthnasol ar gyfraith weinyddol gyhoeddus. Mae cyfran yr hawliadau adolygiad barnwrol ledled Cymru a Lloegr a ariennir gan gymorth cyfreithiol wedi gostwng o 36.7 y cant yn 2001 i 4.4 y cant yn 2015.
82. Un mater penodol o ran 'rhanbartholi' cyfraith gyhoeddus, a hawliadau Llys Gweinyddol eraill, i Gymru yw mai dim ond i ryw raddau y datblygwyd gwasanaethau cyfreithiol cyfraith weinyddol gyhoeddus. Er enghraifft, dim ond mewn cyfran fach o gyfanswm yr hawliadau y mae'r Llys Gweinyddol yng Nghaerdydd yn ymdrin â hwy y mae bargyfreithwyr mewn siambrau yng Nghymru yn cael eu cyfarwyddo. Mae bargyfreithwyr yng Nghymru yn ymdrin â chyfran fwy o waith cyn ymgyfreitha, ond mae'n ymddangos bod llai o hyder i'w cyfarwyddo i ymddangos gerbron y Llys. Yn 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru ['adolygiad cyflym'](#) o'i phroses o gaffael gwasanaethau cyfreithiol ac mae wedi cynnig mesurau i gynyddu nifer yr eiriolwyr yng Nghymru sy'n cael eu cyfarwyddo.
83. Argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder y dylai fod yn orfodol o dan y Rheolau Trefniadaeth Sifil i hawliadau yn erbyn cyrff cyhoeddus yng Nghymru (awdurdodau datganoledig fel y'u diffinnir yn Neddf Cymru 2017) sy'n herio cyfreithlondeb eu penderfyniadau gael eu cychwyn a'u gwrandao yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae'r Rheolau Trefniadaeth Sifil a'r datganiadau barnwrol yn creu rhagdybiaeth gref mai hon yw'r sefyllfa, ond nid yw'n rheol gadarn. Gellir gwneud diwygiadau gweithdrefnol i adolygiad barnwrol drwy Gyfarwyddiadau Ymarfer Rheolau Trefniadaeth Sifil, a defnyddiwyd newidiadau o'r fath i reolau hefyd i greu apeliadau statudol yng Nghymru yn unig yn y Llys Gweinyddol yng Nghaerdydd, ac mae'n rhaid eu cyflwyno a phenderfynu arnynt yng Nghymru. Mae'n amlwg bod rhesymau cyfansoddiadol a mynediad at gyfiawnder cadarn am y cynnig hwn, ond mae rhai pryderon o hyd

ynghylch gofyniad bod yn rhaid i hawliadau yn erbyn cyrff cyhoeddus yng Nghymru gael eu cyflwyno yng Nghymru, os yw mynediad at gyngor cyfraith gyhoeddus a ariennir gan gymorth cyfreithiol yn parhau i fod yn broblem (ac efallai'n fwy o broblem yng Nghymru nag ydyw yn Lloegr).

Comisiynwyr Cymru

84. Mae Comisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yn rhan o system gyfiawnder gweinyddol Cymru. Gan eu bod wedi'u sefydlu ar wahanol gamau yn y broses ddatganoli, mae pwerau a swyddogaethau pob un wedi'u cynnwys mewn gwahanol fathau o ddeddfwriaeth a chafwyd rhywfaint o drafodaeth ar ddiwygio tuag at fodel cyffredin i Gymru (a archwiliwyd i raddau mewn Adroddiad gan Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd yn 2015). Fodd bynnag, mae gwahaniaethau sylweddol yn eu rolau, ac mae deddfwriaeth eisoes yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiynwyr (ac Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru) ymgysylltu, a hyd yn oed gydweithio, lle y bo'n briodol, a chefnogir hyn gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth. Mae rhai materion allweddol a godwyd yng nghyd-destun cyfiawnder yn ymwneud yn fwy penodol â'r syniad bod pwerau presennol Comisiynydd Plant Cymru yn cyd-fynd â'r setliad datganoli ac nid â phob mater (boed wedi'i ddatganoli neu wedi'i gadw yn ôl (gan gynnwys materion cyfiawnder a gadwyd yn ôl) sy'n effeithio ar les plant a phobl ifanc sydd fel arfer yn byw yng Nghymru). Mae atebolrwydd Comisiynwyr i Lywodraeth Cymru (yn hytrach nag i'r Senedd) hefyd yn parhau i fod yn ddadleuol.

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

85. Enw cynllun corfforaethol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2019/20 yw '[Cyflawni Cyfiawnder](#)', ac mae'n nodi mai cenhadaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw: 'I gadarnhau cyfiawnder a gwella gwasanaethau cyhoeddus.' Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi adrodd ar enghreifftiau o gyfraith a nodwyd yn anghywir neu a gamddeallwyd, sy'n gyfystyr â chamweinyddu (mae hyn yn cynnwys cyfraith anghywir yn Lloegr yn cael ei defnyddio gan gyrff cyhoeddus Cymru). Gall Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru argymhell bod cyrff cyhoeddus yn cymhwyso'r gyfraith gywir ac yn gwella hyfforddiant a'r darpariaeth gwybodaeth, ond nid yw'n gallu gwneud dyfarniadau ynghylch penderfynu ar hawliau cyfreithiol. Cymeradwyodd y Comisiwn ar Gyfiawnder amryw argymhellion gan Gomisiwn y Gyfraith i wella rhyngweithredu rhwng y Llys Gweinyddol a'r ombwdsmon (a luniwyd i ddechrau ar gyfer Cymru a Lloegr, ac ombwdsmon y DU). Y rhesymeg yw gwneud y defnydd gorau o arbenigedd pob sefydliad, a sicrhau bod unigolion yn gallu cael gafael ar rwymedi priodol tra'n sicrhau hefyd yr eir i'r afael â phroblemau systemig (gweinyddu a dehongli cyfreithiol) ar gyfer y dyfodol. Roedd Pwyllgor Cyllid y Senedd eisoes wedi gwrthod rhai o'r argymhellion hyn oherwydd pryderon ynghylch newid y berthynas rhwng ombwdsmon a llys mewn achosion sy'n berthnasol i Gymru yn unig. Fel y trafodwyd yn 'Mapio', Atodiad Un i'r Adroddiad hwn, efallai y bydd pryderon ynghylch cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â rhai o argymhellion Comisiwn y Gyfraith (a'r Comisiwn ar Gyfiawnder), ond nid pob un ohonynt. Efallai fod hon yn enghraifft arall o'r cyd-destun datganoli a allai rhwystro

arloesedd mewn perthynas â mynediad at gyfiawnder. Fodd bynnag, o ran cymwyseddau datganoledig craidd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mae'r Senedd wedi pasio deddfwriaeth arloesol, sef [Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus \(Cymru\) 2019](#), sy'n rhoi pwerau newydd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys pwerau cynnal ymchwiliadau ar ei fenter ei hun a derbyn cwynion yn fwy hyblyg, ac mae'n galluogi sefydlu Awdurdod Safonau Cwynion.

Tribiwnlysoedd

86. Mae tribiwnlysoedd datganoledig wedi bod wrth wraidd diwygio cyfiawnder cyfreithiol yng Nghymru, yn rhannol oherwydd mai hwy yw'r unig gyrff barnwrol a weinyddir gan Lywodraeth Cymru, ond hefyd am fod hwn yn faes cyfiawnder lle mae rhywfaint o gonsensws rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan arwain at gynnwys darpariaethau ynghylch tribiwnlysoedd yng Nghymru yn Neddf Cymru 2017.

87. Mae Deddf Cymru 2017 yn rhoi cydnabyddiaeth statudol i saith o dribiwnlysoedd Cymru:

Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru

Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru

Pwyllgor asesu rhenti a gafodd ei gyfansoddi yn unol ag awdurdodaethau Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru yn Atodlen 10 i Ddeddf Rhenti 1977 (gan gynnwys tribiwnlys prisio lesdaliadau a thribiwnlys eiddo preswyl).

Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (a gaiff ei ailenwi Tribiwnlys Addysg Cymru).

Apeliadau am gofrestru arolygwyr ysgolion

Panel Dyfarnu Cymru

Tribiwnlys y Gymraeg

88. Mae Deddf 2017 hefyd yn creu rôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru. Gofynnir i'r Llywydd sicrhau bod tribiwnlysoedd Cymru yn hygyrch, yn deg, yn effeithlon, bod gan eu haelodau arbenigedd digonol, ac i ystyried yr angen i ddatblygu dulliau arloesol o ddatrys anghydfodau. Mae Deddf 2017 hefyd yn darparu ar gyfer 'traws-leoli' barnwyr rhwng gwahanol dribiwnlysoedd Cymru (gyda chydysniad y Llywydd) a thraws-leoli barnwyr tribiwnlysoedd Cymru i dribiwnlysoedd haen gyntaf Cymru a Lloegr. Yr arwyddion cynnar yw bod hyn wedi bod yn llwyddiannus o ran lefel diddordeb barnwrol ac ansawdd ymgeiswyr, gall hefyd leihau costau recriwtio.

89. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ariannu'r tribiwnlysoedd statudol (a ddiffinnir yn Neddf Cymru 2017) a weinyddir gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru, strwythur rheoli yw hwn o fewn Llywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth gweinyddol.

90. Mae diogelu annibyniaeth farnwrol yn rhan o gylch gwaith adolygiad presennol Comisiwn y Gyfraith o dribiwnlysoedd Cymru. Mae hyn hefyd yn bwysig i Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac fe'i hamlygwyd gan y Comisiwn ar Gyfiawnder. Mae diffyg

statws annibynnol Uned Tribiwnlysoedd Cymru o Lywodraeth Cymru yn fater y mae'r Llywydd yn awyddus i fynd i'r afael ag ef 'cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol'.

91. Er mai Llywodraeth Cymru sydd â'r cyfrifoldeb gweinyddol mwyaf dros dribiwnlysoedd Cymru, mae rheolau gweithdrefnol yn deillio o amrywiaeth o ffynonellau cyfreithiol. Er enghraifft, caiff rheolau a rheoliadau Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru eu pennu'n ffurfiol gan yr Arglwydd Ganghellor, er mai Uned Tribiwnlysoedd Cymru sy'n gyfrifol am ariannu a gweinyddu'r tribiwnlys. Mae materion gwaddol hefyd, lle trosglwyddwyd rhai awdurdodaethau pwnc yn Lloegr (er enghraifft Tribiwnlysoedd Eiddo Preswyl) i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf o dan [Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodi 2007](#), tra bod awdurdodaeth Cymru (Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru) yn parhau i gael ei llywodraethu'n bennaf gan adrannau o ddeddfwriaeth Cymru a Lloegr (Deddf Tai 2004) nad ydynt bellach yn gymwys i Loegr. Mae hyn yn gadael hen reolau a rheoliadau a gynlluniwyd ar gyfer tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr sy'n gweithredu mewn cydestun gweinyddu cyfansoddiadol a chyhoeddus gwahanol, yng Nghymru yn unig.
92. Mater arall i'w wneud yn gliriach a'i ddiwygio yw'r llwybrau apelio anghydlynol o Dribiwnlysoedd Cymru. Er enghraifft, mae rhai apelïadau yn mynd i'r Llys Gweinyddol ac eraill i wahanol Siambrau Uwch Dribiwnlys Cymru a Lloegr. Yr unig gysondeb mewn gwirionedd yw nad oes cyrff barnwrol datganoledig yng Nghymru gyda'r awdurdod i osod cyseiliau cyfreithiol rhwymol.
93. O ran penodiadau tribiwnlysoedd, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu sawl mesur gweinyddol gyda'r nod o gyflawni safonau sy'n debyg i dribiwnlysoedd nad ydynt wedi'u datganoli. Nodir cyfrifoldebau penodol ar gyfer penodiadau yn Atodiad Tri i'r Adroddiad hwn. Mae Cytundeb Fframwaith rhwng y Comisiwn Penodiadau Barnwrol a Llywodraeth Cymru ar gyfer prosesau recriwtio a phenodi. Yn ymarferol, mae'r broses ar gyfer penodi barnwyr tribiwnlysoedd yr un fath p'un ai'r Arglwydd Ganghellor neu Weinidogion Cymru yw'r corff penodi, ond nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu mewn fframweithiau statudol sy'n dal i fod yn anghydlynol.
94. Nododd y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yng Nghymru yn 2016, er bod y farnwriaeth Gymreig mewn gwirionedd wedi'i 'chlymu i mewn' i sefydliadau Cymru a Lloegr (Swyddfa Farnwrol, Comisiwn Penodiadau Barnwrol, Coleg Barnwrol, Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol), fod y berthynas rhyngddynt wedi bod yn aneglur. Yn benodol, roedd maint bach tribiwnlysoedd Cymru a chymhlethdod eu sefyllfa gyfansoddiadol yn rhwystro datblygiad trefniadau mwy ffurfiol.
95. Mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru, ar y cyd â Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac arweinwyr tribiwnlysoedd, yn dechrau datblygu arbenigedd mewnol a sefydlu rolau cyfatebol i'r rhai o fewn Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, y Swyddfa Ymchwiliadau Ymddygiad Barnwrol a'r Swyddfa Farnwrol. Un o ganlyniadau naturiol gweinyddu tribiwnlysoedd yw'r angen i gynyddu arbenigedd mewn meysydd nad oedd gynt yn destun pryder i Lywodraeth Cymru megis cyflogau barnwrol, pensiynau a chwynion. Mae hyn yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad i'r hyn y bydd ei angen yn y pen draw i weinyddu set lawer mwy o gyrff barnwrol yn achos datganoli pellach.

96. Daeth y Comisiwn ar Gyfiawnder i'r casgliad y bu tuedd yn y ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Senedd iddi nodi y dylai ddatrys anghydfodau ddigwydd yn y Llys Sirol neu yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd nad ydynt wedi'u datganoli. Roedd y Comisiwn ar Gyfiawnder yn ystyried hyn yn anghyson o ystyried bod tribiwnlysoedd arbenigol yn bodoli yng Nghymru sydd â'r cymhwysedd a'r gallu i benderfynu ar anghydfodau. Argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder y dylid defnyddio tribiwnlysoedd Cymru i ddatrys anghydfodau sy'n ymwneud â deddfwriaeth Cymru yn y dyfodol.

3.3 'Ffiniau amrwd' a goruchwyliaeth

97. Mewn cyfiawnder gweinyddol, mae llai o 'ffiniau amrwd' amlwg gyda chymwyseddau a gedwir yn ôl. Mewn ardaloedd penodol, mae polisïau nawdd cymdeithasol a gedwir yn ôl (yn enwedig cyflwyno'r credyd cynhwysol, a'r cymhorthdal ystafell sbâr, y 'dreth ystafell wely' fel y'i gelwir) yn debygol o gael effaith ar p'un a ddefnyddir y system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru. Bydd diwygiadau cymorth cyfreithiol a chau llysoedd sirol hefyd wedi cael effaith ar fynediad at gyfiawnder gweinyddol yn ogystal â chyfiawnder sifil. Yn aml, ceir gorgyffwrdd rhwng cyfiawnder troseddol a gweinyddol, lle gall gwendidau a methiannau yn y naill system arwain at ryngweithio â'r llall. Er enghraifft, gall plant nad yw eu hanghenion dysgu ychwanegol yn cael eu diwallu oherwydd penderfyniadau gweinyddol anghywir neu wael fod y tu allan i'r ysgol ac o bosibl yn cymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol. Gallai datblygiadau arloesol (sydd wedi bod yn anodd i'w sefydlu yng Nghymru) gan gynnwys Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol Teuluol hefyd arwain at arbedion i'r system cyfiawnder gweinyddol.

98. Efallai y bydd diwygiadau arfaethedig i gyfiawnder gweinyddol yn Lloegr yn golygu bod angen ystyried y sefyllfa ymhellach yng Nghymru. Er enghraifft, mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn nodi nad yw Llywodraeth Cymru na'r Senedd wedi adolygu'r broses o ddatrys anghydfodau ar gyfer materion tai, er bod cyfraith tai wedi'i datganoli i Gymru. Mae Llywodraeth y DU wedi ymgynghori'n ddiweddar ar '[Un Llys Tai](#)' (gallai un amrywiad o'r syniad ei gwneud yn ofynnol i 'wrthdroi datganoli' ar gyfer anghydfodau y mae Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru eisoes yn ymdrin â hwy). Mae Llywodraeth y DU wedi cynnwys Llywodraeth Cymru yn y broses o ystyried diwygiadau, ond mae [ymchwilwyr](#) wedi awgrymu yn lle hynny y dylai Llywodraeth Cymru gynnal ei hadolygiad ei hun o'r dulliau gorau o ddatrys anghydfodau tai o dan gyfraith Cymru.

99. O ran arweinyddiaeth, yn wahanol i gyfiawnder troseddol a theuluol, nid oes bwrdd cyfiawnder gweinyddol na rhwydwaith penodol ar gyfer Cymru. Yn sgil cyhoeddi adroddiad Gwaddol y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yng Nghymru ym mis Mawrth 2016, cafwyd datganiad llafar (yn ystod toriad y Senedd) lle nododd y Prif Weinidog fod yr Adroddiad, ac ymateb Llywodraeth Cymru iddo, wedi'i gyhoeddi. Fodd bynnag, ni chafwyd unrhyw waith dilynol yn y Senedd na thrafodaeth bellach ar yr Adroddiad. Ni chafwyd unrhyw sôn am Uned Tribiwnlysoedd Cymru yng nghofnod trafodion y Senedd (ar adeg paratoi'r Adroddiad hwn).

100. Rhaid i [Adroddiad Blynyddol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru](#) gael ei gyflwyno i Lywydd y Senedd. Ni chyfeiriwyd at Adroddiad Blynyddol Cyntaf Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru yn y Senedd, naill ai yn y Cyfarfod Llawn nac mewn unrhyw Bwyllgor (ar adeg

ysgrifennu'r adroddiad hwn). Mae Llywyddion tribiwnlysoedd datganoledig eraill Cymru wedi nodi nad ydynt wedi cael eu galw i drafod eu Hadroddiadau Blynyddol gyda Phwyllgorau perthnasol y Senedd. Mae'n ymddangos bod trafodaethau ar waith tribiwnlysoedd Cymru yn cael eu cynnal ar sail 'ad hoc', hyd yn oed lle mae'n ofynnol i arweinwyr barnwrol gyflwyno eu Hadroddiadau Blynyddol i'r Senedd.

Pennod Tri: Cyfiawnder Teuluol

4.1 Cyfiawnder teuluol: Cyflwyniad, materion allweddol a goruchwyliaeth

101. Mae cyfiawnder teuluol yn ymdrin ag ystod eang o faterion gan gynnwys pryderon am blant, perthnasau sy'n chwalu a'r canlyniadau ariannol pan fydd perthnasau'n chwalu. Mae gwahaniaeth rhwng materion cyfraith gyhoeddus (fel arfer yn ymwneud ag ymyrraeth awdurdod lleol i ddiogelu plant) a materion cyfraith breifat (ymdrin â pherthnasau a pherthnasau sy'n chwalu, gan gynnwys pan na fydd rhieni, gwarcheidwaid neu ofalwyr eraill yn gallu cytuno ar y trefniadau ar gyfer eu plant). Mae cyfraith a chyfiawnder teuluol preifat ac wedi'u cadw yn ôl, a'r Llys Teulu a chyfryngwyr sy'n bennaf gyfrifol am ddatrys anghydfodau, o dan arweiniad Llywydd yr Is-adran Teuluoedd. Er bod gostyngiadau mewn cymorth cyfreithiol yn dilyn [Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012](#) wedi cael effaith sylweddol ar anghydfodau cyfraith teulu preifat yng Nghymru, mae'r Adroddiad hwn yn canolbwyntio ar gyfraith teulu cyhoeddus, ac yn enwedig (gan gymryd yr awenau o'r Comisiwn ar Gyfiawnder) achosion sy'n ymwneud â phlant.
102. Ymddengys mai cyfiawnder teuluol yw'r maes cyfiawnder yng Nghymru lle bu'r lleiaf o ymchwil â ffocws penodol. Mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn nodi bod cyfiawnder teuluol yn gymhleth yng Nghymru oherwydd bod y gyfraith, ac arferion a gweithdrefnau llysoedd sy'n ymwneud â phlant, yn pontio'r 'ffin amrwd' rhwng materion datganoledig a materion nad ydynt wedi'u datganoli.
103. Roedd tystiolaeth Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn pwysleisio bod y cynllun datganoli presennol wedi arwain at rannu cyfrifoldebau a materion cysylltiedig o fewn y system cyfiawnder teuluol, a all achosi cymhlethdod a gwrthdaro. [Yn ei thystiolaeth i'r Comisiwn, nododd Ruth Henke QC](#) fod iechyd, addysg a gofal cymdeithasol, er eu bod y tu allan i'r diffiniad o gyfraith teulu, yn berthnasol iddi gan mai hwy yw'r union feysydd cyfreithiol sy'n rhoi cyd-destun bywyd teuluol o ddydd i ddydd. Nododd eu bod yn pennu'r cymorth a'r gwasanaethau y mae gan bob teulu yng Nghymru hawl iddynt ac yn llywio'r hyn y gallant ei ddisgwyl.
104. Yn dilyn adolygiad ar y cyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Adran Addysg y DU, a Llywodraeth Cymru yn 2011 ([Adolygiad Norgrove](#)), sefydlwyd Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i bennu cyfeiriad a goruchwyllo gwelliannau ar draws y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Mae'n cael ei gadeirio gan Weinidogion o Weinyddiaeth Gyfiawnder y DU a'r Adran Addysg, ac mae Llywydd yr Is-adran Teuluoedd yn mynd i'r cyfarfodydd fel sylwedydd. Mae cynrychiolwyr o Gymru yn cynnwys Prif Weithredwr Cafcass Cymru, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Nid

oes cynrychiolwyr o blith Gweinidogion Cymru ac mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder o'r farn mai 'prif ffocws y Bwrdd a'r prif ddylanwad arno yw materion sy'n codi yn Lloegr'.

105. Bwriad Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol Cymru, a sefydlwyd yn 2012, yw rhoi arweiniad yng Nghymru a bod yn gyswllt â'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol. Caiff ei gydlynw gan Lywodraeth Cymru ac mae'n dwyn ynghyd sefydliadau allweddol yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru. Mae'n rhoi cyngor ac yn monitro perfformiad y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru. Mae'r Rhwydwaith yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn. Mae'n cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae'r farnwriaeth yn mynd i gyfarfodydd (fel sylwedyddion).
106. Mae'r ddogfen 'mapio' yn Atodiad Un i'r Adroddiad hwn yn dangos rhai o'r agweddau allweddol datganoledig a rhai heb eu datganoli ar gyfraith teulu. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, er enghraifft:
 - 106.1 Mae trefniadau plant a mabwysiadu yn faterion a gedwir yn ôl, ond mae eithriadau ar gyfer gwasanaethau a chyfleusterau sy'n ymwneud â mabwysiadu ac asiantaethau mabwysiadu.
 - 106.2 Mae bod yn rhiant a chyfrifoldeb rhiant yn faterion a gedwir yn ôl, fodd bynnag, mae disgyblu plant gan rieni yn eithriad ac felly wedi'i ddatganoli, ac mae hynny'n cynnwys yr hawl i roi cosb resymol i blentyn, ac mae'r Senedd wedi mynd i'r afael â hyn yn [Neddf Plant \(Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol\) \(Cymru\) 2020](#) (sy'n pontio cyfiawnder teuluol a throseddol).
 - 106.3 Mae'r brif ddarpariaeth ar gyfer Gwarcheidiaeth Arbennig wedi'i chynnwys mewn deddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru a Lloegr o hyd, ond mae'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a chymorth o dan orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig wedi'i ddatganoli a'i gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, canllawiau statudol a chodau sy'n berthnasol i Gymru.
 - 106.4 Mae deddfwriaeth trais domestig yn gyffredin i Gymru a Lloegr i raddau helaeth ac mae rhwymedïau mewn perthynas â thrais domestig, cam-drin domestig ac anffurfio organau rhywiol menywod wedi'u cadw yn ôl. Fodd bynnag, nod [Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol \(Cymru\) 2015](#) yw gwella ymateb y sector cyhoeddus i gam-drin a thrais yng Nghymru.
 - 106.5 Er nad yw Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru a Thribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (y Tribiwnlys Addysg cyn bo hir) yn gwneud penderfyniadau ynghylch cyfraith teulu, maent yn dribiwnlysoedd datganoledig y mae eu rolau'n rhyngweithio'n sylweddol â chyfraith teulu a datrys anghydfodau.

107. Mewn sawl maes cyfraith teulu, Deddf Cymru a Lloegr yw'r statud sylfaenol o hyd, tra bod cyfraith benodol Cymru wedi'i chynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, canllawiau statudol a chodau. Mae llyfr Lexis Nexis, 'Family Court Practice' (y cyfeirir ato hefyd fel y Llyfr Coch) yn cynnwys atodiad ar gyfraith Cymru sy'n esbonio'r gwahaniaethau rhwng cyfraith teulu yng Nghymru a Lloegr. Cyhoeddir gwahaniaethau hefyd yn Butterworths Family Law Service. Fodd bynnag, awgrymodd tystiolaeth i'r Comisiwn ar Gyfiawnder fod methiant nodedig o hyd ymhlith cynghorwyr cyfreithiol a phobl leyg i werthfawrogi bod cyfraith Cymru yn wahanol, ac nad yw hyn oherwydd bod prinder deunyddiau cyfreithiol, ond yn hytrach diffyg ymwybyddiaeth bod cyfraith benodol yng Nghymru i'w hymchwilio a'i chymhwyso.

4.2 Cafcass Cymru

108. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am y Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) i Lywodraeth Cymru yn 2004. Mae Cafcass Cymru yn rhoi cyngor a chymorth arbenigol sy'n canolbwyntio ar y plentyn, i ddiogelu plant a sicrhau bod ganddynt lais mewn llysoedd teulu ledled Cymru, fel bod penderfyniadau'n cael eu gwneud er eu lles. Rhaid i Cafcass Cymru fabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau gan fod Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn gymwys wrth arfer ei swyddogaethau. Pan drosglwyddwyd y cyfrifoldeb am Cafcass yn Lloegr i'r Adran Addysg am resymau Llywodraeth y DU, penderfynwyd datganoli'r cyfrifoldeb dros Cafcass yng Nghymru, oherwydd ystyriwyd ei fod yn rhan o 'addysg', sy'n adran ddatganoledig. Er bod Cafcass yn Lloegr wedyn yn cael ei reoli gan gorff cyhoeddus anadrannol, roedd Cafcass Cymru yn cael ei weinyddu gan Lywodraeth Cymru, ac mae'n dal i gael ei weinyddu ganddi, felly nid yw'n sefydliadol annibynnol ar y Llywodraeth. Yn 2014 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am Cafcass Lloegr yn ôl i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, mae Cafcass Lloegr yn cael ei reoli fel corff cyhoeddus anadrannol a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

4.3 Cymryd plant i mewn i'r system ofal

109. Mae [Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant \(Cymru\) 2014](#) yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n ymdrin â phwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya. Nododd Ruth Henke QC fod y Llys Teulu yn fwyaf tebygol o nodi'r gwahaniaeth yn y gyfraith mewn perthynas â phlant yng Nghymru a Lloegr wrth ystyried cynllunio gofal ar gyfer plentyn mewn achosion cyfraith gyhoeddus. Roedd hefyd o'r farn bod y rhan fwyaf o achosion a gofnodwyd hyd yn hyn wedi ymwneud â'r gofynion y mae'n rhaid i awdurdod lleol yng Nghymru eu bodloni cyn cadw plentyn mewn llety diogel.

110. Roedd y Comisiwn ar Gyfiawnder o'r farn mai'r defnydd o achosion gofal oedd y mater pwysicaf iddo ei archwilio mewn perthynas â chyfiawnder plant a theuluoedd. Roedd yn amlwg yn pryderu am ddata sy'n dangos cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, gan fod y ffigur yn sylweddol uwch na'r cyfraddau yn Lloegr (yn ei chyfanrwydd) a Gogledd Iwerddon. Ystyriodd y Comisiwn ar Gyfiawnder rai ymdrechion i esbonio'r cyfraddau uchel o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru a'r amrywiadau ar draws awdurdodau lleol. Roedd hyn yn cynnwys y syniad y gallai

awdurdodau lleol fod yn fwy tadol yng Nghymru, a dylanwad dull sy'n seiliedig ar hawliau o dan y Mesur Hawliau Plant. Archwiliodd y Comisiwn ymchwil o [Ganolfan Astudiaethau Polisi Cyhoeddus Cymru](#) a oedd yn awgrymu mai'r pedwar prif ffactor cyfrannol yw: amddifadedd, amrywiadau mewn polisiau ac arferion o ran sut mae awdurdodau lleol a'r farnwriaeth yn ymdrin ag achosion, ffactorau rhieni (sy'n ymwneud â thrais domestig, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl, a'r boblogaeth). Er bod y Comisiwn ar Gyfiawnder yn nodi bod rhai dadansoddiadau da, mae diffyg gwybodaeth o hyd am y rhesymau y tu ôl i'r cynnydd mewn gorchmynion gofal a phlant sy'n dod i ofal.

111. Mae gofyniad cyfreithiol i awdurdodau lleol sefydlu Timau Gwasanaethau Cymorth Integredig sy'n darparu cymorth i deuluoedd yr effeithir arnynt gan gamddefnyddio sylweddau neu broblemau iechyd meddwl neu drais domestig, ac y mae eu plant ar fin cael eu cymryd i ofal. Mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn nodi bod rhywfaint o dystiolaeth o fanteision tymor byr yn deillio o waith y timau hyn ond na fu unrhyw ymchwil bellach i weld a ellir cynnal y manteision hyn ar gyfer y tymor hwy. Gan barhau â'r thema diffyg ymchwil, data a dadansoddi, mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder hefyd yn nodi nad oes unrhyw dystiolaeth na dadansoddiad wedi'i gyhoeddi o weithrediad Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru sy'n nodi dyletswyddau awdurdodau lleol i blant sy'n derbyn gofal o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
112. Croesawodd y Comisiwn ar Gyfiawnder ddatganiad un o Ddirprwy Weinidogion Llywodraeth Cymru (2 Gorffennaf 2019) a nododd fod cymryd camau ataliol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal yn flaenoriaeth, ond a oedd yn ystyried y dylid cael cynllun tymor hwy yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gofyn am gamau gweithredu i sicrhau bod data sydd gan awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru ar gael i'w defnyddio ar ffurf ddienw.
113. Roedd y Comisiwn ar Gyfiawnder o'r farn bod y strwythur arweinyddiaeth presennol ar gyfer cyfiawnder teuluol yng Nghymru yn annigonol i fynd i'r afael â phryderon am blant sy'n derbyn gofal ac argymhellodd y dylid sefydlu corff cyflawni bach i Gymru gyfan fel is-grŵp o Rwydwaith Cyfiawnder Teuluol Cymru, o dan arweiniad swyddog uwch er mwyn sicrhau arweinyddiaeth. Nododd y dylid ystyried hyn fel cam tuag at sicrhau bod Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol Cymru yn dechrau datblygu'n gorff sy'n rhoi arweiniad ac yn sicrhau atebolrwydd ochr yn ochr â Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol.
114. Ar y cyfan, mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn argymhell y 'dylai fod cefnogaeth fawr i raglen ymchwil sy'n ategu'r gwaith o ddiwygio cyfiawnder teuluol a gwasanaethau ataliol cysylltiedig yng Nghymru'.

4.4 Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd

115. Un o themâu'r Adroddiad hwn yw bod y rhai sy'n ymwneud â chyfiawnder yng Nghymru, ac yn enwedig Llywodraeth Cymru, yn ôl pob golwg wedi wynebu rhwystrau i ddatblygu neu fabwysiadu atebion arloesol. Un enghraifft yw'r diffyg Llysoedd

Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd yng Nghymru. Mae'r Llysoedd hyn yn mynd ati i ddatrys problemau mewn achosion cyfraith gyhoeddus Llysoedd Teulu lle mae gan rieni broblemau difrifol o ran camddefnyddio cyffuriau ac alcohol neu ddibyniaeth a lle mae perygl y bydd eu plant yn cael eu cymryd i ofal. Partneriaeth rhwng y Llysoedd Teulu a thimau o arbenigwyr camddefnyddio sylweddau a gweithwyr cymdeithasol yw'r Llysoedd. Yn Lloegr, mae 18 o ardaloedd awdurdodau lleol yn cael eu gwasanaethu gan y Llysoedd, ond nid oes unrhyw Lysoedd o'r fath yng Nghymru (ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn), er bod Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol Cymru wedi trafod hyn. Mae'r rhesymau dros beidio â'u sefydlu yn ymddangos yn arwydd o'r pryderon a nodwyd mewn cysylltiad â 'ffiniau amrwd' cyfiawnder teuluol.

116. Y rheswm cyntaf a nodwyd gan Lywodraeth Cymru oedd bod dull polisi eisoes i osgoi ymyrraeth llysoedd drwy'r gwasanaethau cymorth a gynigir gan y Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd yng Nghymru. Roedd y Comisiwn ar Gyfiawnder o'r farn bod y ddadl hon yn anodd ei dilyn gan nad yw'n ystyried y dystiolaeth lethol bod nifer y ceisiadau i'r Llys a nifer y gorchmynion gofal a wneir yn cynyddu. Bwriad y Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd yw ceisio gweld a ellir dod o hyd i atebion gwell unwaith y bydd mater eisoes wedi cyrraedd y llys.
117. Yn ail, dadleuodd y Llywodraeth nad oedd digon o achosion yng Nghymru i gyfiawnhau sefydlu Llys o'r fath. Daeth y Comisiwn ar Gyfiawnder i'r casgliad nad yw'r ddadl hon yn seiliedig ar archwilio data ac nad yw'n ystyried y ffaith y gall y Llysoedd weithredu'n rhan-amser.
118. Yn drydydd, dywedodd y Llywodraeth wrth y Comisiwn ar Gyfiawnder ei bod yn awyddus i archwilio sefydlu Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd yng Nghymru, ond dim ond os oedd cyllid ar gael gan Lywodraeth y DU. Nododd y Comisiwn ar Gyfiawnder y cafwyd hyd i gyllid yn Lloegr drwy ffynonellau ar wahân i gyllideb y llysoedd (er enghraifft, drwy awdurdodau lleol a byrddau iechyd). Nododd y Comisiwn fod arbedion i amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus a allai ddilyn yn y pen draw o sefydlu Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd yn ei gwneud yn anodd gweld pam nad yw Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i neilltuo cyllid i'w sefydlu.

Pennod Pump: Cyfiawnder Sifil

119. Mae cyfiawnder sifil yn disgrifio'r gyfraith ac eithrio mewn perthynas â pherthnasoedd teuluol, troseddau a gwneud penderfyniadau gweinyddol. Y meysydd allweddol yn ymarferol yw cyfraith camweddau sifil a chyfraith contractau, sef materion lle na fu fawr ddim gweithgarwch datganoledig, a lle mae llawer o'r gyfraith yn parhau fel cyfraith gyffredin Cymru a Lloegr.
120. Y Ddeddf gyntaf gan y Senedd y bwriedir iddi wneud newidiadau i gyfraith sifil sylwedd fydd [Deddf Rhentu \(Cartrefi\) Cymru 2016](#) pan ddaw i rym. Mae wedi cymryd peth amser i'w gweithredu, yn rhannol oherwydd y nifer fawr o is-ddeddfwriaeth y mae'n rhaid ei phasio. Mae deddfu i roi mwy o ddiogelwch i denantiaid hefyd yn golygu y bydd agweddau ar Rentu Cartrefi yn cael eu diwygio cyn i'r Ddeddf gyfan ddod i rym. Mae'r angen i Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM ddatblygu'r prosesau a

ffurflenni angenrheidiol, gan gynnwys mewn perthynas â hawliadau meddiant ar-lein, hefyd wedi cynyddu'r amser a gymerir i gychwyn y Ddeddf. Yn ôl y Comisiwn ar Gyfiawnder bu problemau tebyg o ran cychwyn [Deddf Cyllido Gofal Plant \(Cymru\) 2019](#) (nad yw eto mewn grym ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn), ac yn yr achos hwn mae'n ymddangos ei fod yn ymwneud â rôl y Tribiwnlys haen gyntaf a gadwyd yn ôl o ran adolygu penderfyniadau ac ymdrin ag apeliadau.

121. Nid yw'n bosibl o fewn cwmpas yr Adroddiad hwn archwilio'n fanwl i bob mater cyfiawnder sifil a gadwyd yn ôl sy'n effeithio'n wahanol ar Gymru, ond dyma rai materion allweddol:

121.1 Effaith gwaith i gynyddu digideiddio yng Ngwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM, o gyfleoedd pellach i gyflwyno achosion yn electronig, defnyddio dogfennau electronig a chyfathrebu, rheoli achosion ar-lein, gan gynnwys gwrandawliadau ar-lein, a rheoli achosion ar-lein yn barhaus. Mae'r diwygiadau hyn yn debygol o gael effaith wahanol yng Nghymru, yn seiliedig ar wahaniaethau mewn materion fel llythrennedd digidol, mynediad at fand eang, daearyddiaeth a demograffeg (o gymharu â Lloegr). Dylai'r broses ddiwygio gael ei monitro a'i gwerthuso'n ofalus am ei heffeithiau ar Gymru. Rhaid cymryd gofal nad yw digideiddio'n arwain at sefyllfa lle byddai'r anghydraddoldeb presennol yn cael ei wneud yn barhaol drwy wahanol brosesau.

121.2 Yr effaith y mae cau llysoedd ffisegol wedi'i chael ledled Cymru, a digonolrwydd dewisiadau amgen.

121.3 Toriadau cymorth cyfreithiol (a drafodir ymhellach ym Mhenodau Chwech a Saith isod).

122. Roedd materion eraill a nodwyd gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yn cyd-fynd â rhai themâu yn yr Adroddiad hwn. Un ohonynt yw pa mor anodd yw arloesi ym maes datrys anghydfodau. Er enghraifft, canfu'r Comisiwn ar Gyfiawnder fod diffyg cysylltiad priodol rhwng prosesau llysoedd ac argaeledd gwasanaethau cyfryngu lleol yng Nghymru yn arwain at ddiffyg ymwybyddiaeth a defnydd o'r gwasanaethau hyn. Mynegodd y Comisiwn bryder hefyd am y diffyg cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyfryngu a diffyg esboniad cyhoeddus ynghylch pam na weithredwyd mewn perthynas ag argymhellion i sefydlu canolfan ragoriaeth cyfryngu i Gymru. Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth am y rôl y gall dulliau amgen o ddatrys anghydfod (gan gynnwys cyfryngu ond hefyd ddulliau eraill fel cymodi a chymrodeddu) ei chwarae yng Nghymru.

123. O ran thema cyfathrebu, ac arweinyddiaeth hefyd efallai, mae'n werth nodi bod Barnwr Cyflogaeth Rhanbarthol Cymru wedi dweud wrth y Comisiwn ar Gyfiawnder bod deddfwriaeth sy'n effeithio ar waith y Tribiwnlys Cyflogaeth wedi'i phasio heb gyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Tribiwnlys. Mae'n ymddangos bod hyn wedi digwydd oherwydd diffyg system gyfathrebu briodol. Mae'r Tribiwnlys Cyflogaeth yn gorff a gadwyd yn ôl ond sy'n penderfynu ar anghydfodau yr effeithir arnynt gan

gyfraith Cymru ar gyflogau amaethyddol, undebau llafur, a hawliau gwell i'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal cartref.

Pennod Chwech: Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, gan gynnwys Cymorth Cyfreithiol

124. Mae angen gwybodaeth, cyngor a chymorth i alluogi pobl i gael mynediad at gyfiawnder. Llywodraeth y DU, drwy'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, sy'n gyfrifol am bolisi cymorth cyfreithiol. Gweinyddir cymorth cyfreithiol gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (asiantaeth weithredol a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder). Erbyn hyn mae llawer wedi nodi'r gostyngiad difrifol mewn gwariant cymorth cyfreithiol yn dilyn Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012. Nodwyd hefyd yr effaith anghymesur o negyddol yng Nghymru lle mae gwariant ar gymorth cyfreithiol mewn cyfiawnder sifil a throseddol wedi dioddef gostyngiad uwch mewn termau real nag yn Lloegr.
125. Y 'ffin amrwd' ganolog o ran darparu cyngor, gwybodaeth a chymorth yw i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu gwasanaethau cynghori yn effeithiol er bod y mater wedi'i gadw'n ôl yn ffurfiol (ac eithrio cyllid cyngor dyledion a ddatganolwyd yn 2019). Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu'r ddarpariaeth barhaus o wasanaethau cynghori gan Gyngor ar Bopeth a Shelter Cymru (dau ddarparwr cyngor mwyaf Cymru) a fyddai wedi dod i ben oherwydd Deddf 2012. Tystiolaeth y Prif Weinidog i'r Comisiwn ar Gyfiawnder oedd bod toriadau i gymorth cyfreithiol wedi rhoi galw ychwanegol ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy ddarparu adnoddau ychwanegol, gan gynnwys (o fis Ionawr 2020) £8.1 miliwn i Gyngor ar Bopeth i ddarparu un gwasanaeth cyngor newydd ar draws pob rhanbarth yng Nghymru, yn ogystal â gwasanaeth cyngor o bell, am 12 mis.
126. Roedd y Comisiwn ar Gyfiawnder o'r farn ei bod yn 'eithriadol o anodd' cadarnhau faint o arian cyhoeddus sy'n mynd i'r trydydd sector yng Nghymru ar gyfer darparu cyngor ac eiriolaeth. Ei amcangyfrif oedd bod cyllid gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, cyfleustodau, elusennau, ymddiriedolaethau, a sefydliadau sy'n rhoi grantiau sy'n debygol o fod dros £20 miliwn y flwyddyn (ond daw'r cyllid hwn o ystod eang o ffynonellau, sydd hefyd yn effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau o safbwynt darparwyr cyngor). Ym mis Ionawr 2019, canfu Swyddfa Archwilio Cymru nad oes gan awdurdodau lleol dull strategol effeithiol o weithio gyda'r trydydd sector a bod anghysondebau mewn trefniadau ariannu yn ei gwneud yn anodd dangos gwerth am arian. Daeth y Comisiwn ar Gyfiawnder i'r casgliad 'nad yw'r ddarpariaeth bresennol yn ystyried beth sy'n gweithio'n dda ar lefel leol, nad yw'n canolbwyntio ar y buddiolwyr ac nad oes dull gweithredu systematig na strategol'.
127. Sefydlwyd Rhwydwaith Cyngor Cenedlaethol Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2015 ac mae'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys cyllidwyr, darparwyr cyngor, sefydliadau cynrychioliadol, a phartneriaid eraill. Y dasg yw darparu cyngor, arweiniad a chymorth arbenigol i Weinidogion Cymru ar sut i ddatblygu'n strategol ddarpariaeth gwasanaethau gwybodaeth a chyngor lles cymdeithasol ledled

Cymru. Mae chwe Rhwydwaith Cyngor Rhanbarthol hefyd wedi'u sefydlu ledled Cymru, gyda chadeiryddion annibynnol a grwpiau llywio a rhanddeiliaid lleol a rhanbarthol fel aelodau. Yn ystod 2020, mae'r Rhwydweithiau'n gyfrifol am: fapio'r angen am gyngor a'r ddarpariaeth a nodi bylchau; adeiladu rhwydweithiau atgyfeirio rhwng yr holl wasanaethau cynghori; cyfuno profiadau i nodi achosion sylfaenol problemau cyffredin; rhannu arferion gorau a chefnogi ei gilydd i ddarparu cyngor o safon.

128. Yn y tymor hwy, argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder y dylid datblygu strategaeth yn dwyn ynghyd ffrydiau cyllid ar gyfer cymorth cyfreithiol a darpariaeth cyngor y trydydd sector, ac y dylai'r strategaeth hon gael ei gyrru gan gorff annibynnol a fyddai'n sicrhau nad oes bwlch yn y ddarpariaeth a bod y cyllid yn gynaliadwy. Nid oedd yn ystyried '[Cynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol](#)' y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn sgil y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr yn ddigon i fynd i'r afael â maint y broblem yng Nghymru yn effeithiol.

129. Yn ei [dystiolaeth i'r Comisiwn ar Gyfiawnder pwysleisiodd Dr Newman \(Prifysgol Caerdydd\)](#) ei bod yn dal i fod yn wir nad oes llawer o waith empeiraidd wedi'i wneud ar fynediad at gyfiawnder yng Nghymru, gyda'r rhan fwyaf wedi'i gynnwys yng ngwaith ymchwil generig Cymru a Lloegr a allai fod â diffyg cyfranogiad Cymreig digonol i fod yn gynrychioliadol iawn; yn aml gall y gwaith ymchwil presennol fod wedi'i adrodd gyda'r rhagdybiaeth bod Cymru yr un peth â Lloegr. Ar ôl cynnal gwaith ymchwil yng Nghymru, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig, mae Dr Newman yn nodi y gallai toriadau cymorth cyfreithiol fod wedi arwain at effeithiau mwy niweidiol yng Nghymru yn sgil cyfraddau uwch o dlodi incwm. Mae hefyd yn canfod mai'r bobl sy'n llai abl i dalu am wasanaethau cyfreithiol yng Nghymru sydd fwyaf tebygol o'u hangen, gan ddod i'r casgliad bod disgwyl i daliad sicrhau triniaeth deg yn dreth de facto ar y tlawd. Mae'n ystyried y dylai Llywodraeth Cymru ariannu mwy o waith ymchwil i fynediad at gyfiawnder yng Nghymru er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o anghenion pobl mewn gwahanol rannau o'r wlad. Yn bwysig, mae'n nodi bod yn rhaid i bobl deimlo'n rhan o unrhyw ymchwil pellach ac y dylai cyfiawnder yng Nghymru fod yn rhywbeth y mae pobl ledled Cymru yn ei ddeall ac yn gallu ymgysylltu ag ef, ac mai dyna sut y dylid sicrhau ei fod yn gweithio iddynt.

Pennod Saith: Cyllid ar gyfer Cyfiawnder yng Nghymru

130. Er bod cyfiawnder wedi'i gadw yn ôl i bob pwrpas, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ariannu rhai meysydd o'r system gyfiawnder yng Nghymru (er enghraifft, ariannu system yr heddlu yn rhannol) ac mae cyllidebau datganoledig yn cynnwys gwariant sy'n rhyngweithio â swyddogaethau cyfiawnder. Mae Canolfan Llywodraethiant Cymru wedi cynnal ymchwil ynghylch gwariant ar y system gyfiawnder yng Nghymru a goblygiadau cyllidol datganoli cyfiawnder. Ar gyfer y prosiect hwn, canfu'r prif awdur Guto Ifan fod bron i £1.2 biliwn wedi'i wario ar system gyfiawnder Cymru yn 2017-18. Mae hyn yn cyfateb i £370 y pen ac mae'n cyfrif am tua 3.6 y cant o gyfanswm y gwariant adnabyddadwy ar gyfer Cymru. Un casgliad allweddol yw bod tua £442 miliwn (38 y cant o gyfanswm y gwariant) yn dod o gyllid datganoledig neu lywodraeth leol, ac mae'r

elfen ddatganoledig a lleol hon o wariant wedi tyfu mewn termau real ers 2009-2010; mewn cyferbyniaeth â gwariant gan Lywodraeth y DU mewn meysydd a gadwyd yn ôl sydd wedi gostwng draean mewn termau real dros yr un cyfnod.

131. Mae ymchwil Ifan yn nodi bod cyllid ar gyfer y rhan fwyaf o asiantaethau sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaethau cyfiawnder yng Nghymru yn dod yn bennaf o gyllidebau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref, nad ydynt wedi'u diogelu yng nghydestun llymder, ac mae'r ddwy adran wedi profi toriadau sylweddol.
132. Mae pedwar heddlu Cymru yn cael arian gan grant heddlu'r Swyddfa Gartref; Llywodraeth Cymru drwy grantiau cynnal refeniw ac ardrethi annomestig wedi'u hailddosbarthu; a thrwy braesept treth gyngor. Er bod cyfran cyllid yr heddlu sy'n deillio o braesept y dreth gyngor wedi cynyddu o 17 y cant yn 1999-2000 i 42 y cant yn 2018-2019, mae cyllid grant y Swyddfa Gartref wedi gostwng i 30 y cant dros yr un cyfnod. Ers 2010-2011, mae lefelau praesept wedi codi'n gyflymach yn ardaloedd heddlu Cymru (4 y cant y flwyddyn ar gyfartaledd) o gymharu â Lloegr (ar 2.4 y cant y flwyddyn). Yn ôl ymchwil Ifan, mae'r cynnydd cyflymach hwn mewn praeseptau yn golygu bod cyllid heddlu Cymru £34 miliwn yn uwch yn 2017-2018 nag y byddai wedi bod pe bai praeseptau wedi codi yn unol â Lloegr. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu grantiau penodol i heddluoedd Cymru, yn enwedig cyllid ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol a Rhaglen Ysgolion Cymru Gyfan. Gall yr ystod o wahanol ffrydiau ariannu greu cymhlethdod ac ansicrwydd.
133. Cyfanswm y gwariant a gofnodwyd ar garchardai a gwasanaethau prawf i Gymru oedd £205 miliwn yn 2017-2018. Fel yr esbonia adroddiad Ifan, yn wahanol i'r sefyllfa yn Lloegr, mae gwariant ar garchardai yng Nghymru wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf ochr yn ochr â chynnydd mawr ym mhoblogaeth carchardai yng Nghymru. Amcangyfrifwyd mai'r gwariant cyffredinol ar garcharorion o Gymru (yn seiliedig ar eu cyfeiriad cyn y ddalfa) yn 2017-2018 oedd tua £189 miliwn, fodd bynnag, gwariwyd bron i 40 y cant o hyn ar garcharorion o Gymru y tu allan i Gymru.
134. Ar gyfer llysoedd a thribiwnlysoedd a gadwyd yn ôl, gwariant net Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM Cymru yn 2017-2018 oedd £67.6 miliwn. Canfu ymchwil Ifan, fod gwariant net amcangyfrifedig gan y Gwasanaeth ar gyfer Cymru, ac eithrio dibrisiant a gwariant arall nad yw'n arian parod, yn cyfateb i ychydig o dan 4 y cant o wariant y Gwasanaeth yn 2017-2018 (o'i gymharu â chyfran Cymru o boblogaeth Cymru a Lloegr (5.3 y cant) a Phrydain Fawr (4.9 y cant)).
135. Roedd gwariant cymorth cyfreithiol i Gymru yn £76.9 miliwn yn 2017-2018, sef gostyngiad mewn termau real o dros 38 y cant ers 2010-2011. Nid yw'r amcangyfrif o gyfanswm y gwariant ar gyfiawnder yng Nghymru a nodwyd yn ymchwil Ifan yn cynnwys gwariant gan Lywodraeth Cymru, llywodraeth leol, y trydydd sector, ac amryw gyfrif eraill ar wasanaethau cyngor ac eiriolaeth, o ystyried pa mor anodd yw dod o hyd i'r ffigur cywir ar gyfer hyn. Mae Ifan yn datblygu amcangyfrif o £9.51 miliwn ar gyfer 2016-2017 ond mae o'r farn bod hyn yn sylweddol is na'r ffigur go iawn.

136. Ychydig dros £3 miliwn oedd y gwariant o Gyllideb Llywodraeth Cymru 2017-2018 ar dribiwnlysoedd y mae'r Llywodraeth yn gyfrifol amdanynt, gyda'r gyfran fwyaf (tua £2.5 miliwn) yn mynd i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru. Gwariodd Llywodraeth leol yng Nghymru tua £5.4 miliwn hefyd ar wasanaethau Crwneriaid a llysoedd eraill yn 2017-2018. Fel y trafodwyd ym Mhennod Tri, byddai diffiniad eang o gyfiawnder gweinyddol hefyd yn cynnwys gwariant ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynwyr Cymru a gwahanol fecanweithiau gwneud iawn 'ad hoc' eraill nad ydynt wedi'u cynnwys yn ymchwil Ifan.
137. Pryder nodedig (a godwyd yn Adroddiad 'Jagged Edge', fel y'i gelwir, ac yn ymchwil Ifan) yw bod rhai manteision ariannol o bolisiau gwario i arbed fel y'u gelwir gan Lywodraeth Cymru i leihau costau yn y system gyfiawnder wedi'u cipio gan Lywodraeth y DU o dan y system bresennol. Mae ymchwil Ifan ar oblygiadau ariannol datganoli cyfiawnder yn nodi ffyrdd amrywiol y gallai datganoli cyfiawnder troseddol ganiatáu i Lywodraeth Cymru ddilyn polisiau sy'n arwain at fwy o effeithlonrwydd a gostyngiad mewn gwariant cyffredinol (er enghraifft drwy leihau poblogaeth y carchardai). Mae'n werth nodi y gall gwelliannau mewn cyfiawnder gweinyddol (y mae llawer ohono eisoes wedi'i ddatganoli) hefyd arwain at arbedion. Er enghraifft, ar lefel y DU mae Adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol yn 2005 ar [wneud iawn i ddinasyddion ym maes gweinyddu](#) a ddaeth i'r casgliad y gallai lleihau niferoedd cychwynnol cwynion neu apeliadau, datrys mwy o gwynion ac apeliadau yn gyflymach ac yn rhagweithiol, a gwella effeithlonrwydd cost y trefniadau gwneud iawn presennol, oll wneud arbedion sylweddol mewn arian cyhoeddus, ac y gallai'r arbedion hynny wedyn gronni bob blwyddyn.

Pennod Wyth: Themâu a Chasgliadau Allweddol

138. Mae'r ymarfer mapio a'r adolygiad o lenyddiaeth yn datgelu rhai themâu allweddol a allai pontio cyfiawnder troseddol, gweinyddol, teuluol ac, i raddau llai, cyfiawnder sifil yng Nghymru.

8.1 Arweinyddiaeth a goruchwyliaeth

139. Mae'n ymddangos bod amrywiaeth o bryderon ynghylch arweinyddiaeth, gan gynnwys arweinyddiaeth o fewn Llywodraeth Cymru ar faterion cyfiawnder, pwy yn union sy'n gyfrifol, phwy sy'n atebol felly. Yn sgil cyflwyno Is-bwyllgor y Cabinet mae hyn yn debygol o fod wedi gwella, ond mae diffyg ymwybyddiaeth o hyd ac efallai rhywfaint o ddiffyg tryloywder hyd yn oed, o ran faint o bobl yn Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar faterion cyfiawnder, beth yw eu rolau, a sut maent yn rhyngweithio.
140. Ymddengys hefyd bod pryderon ynghylch a yw Byrddau, Pwyllgorau a Rhwydweithiau presennol a ffurfiwyd mewn amryw ffyrdd i adrodd ar berfformiad systemau cyfiawnder yng Nghymru (yn enwedig cyfiawnder troseddol a theuluol) ac i sicrhau cydgysylltiad rhwng rhanddeiliaid, yn gweithio'n effeithiol ac yn effeithlon. Mae atebolrwydd cyfunol y cyrff hyn hefyd wedi'i gwestiynu. Ym maes cyfiawnder gweinyddol nid oes corff penodol bellach sy'n gyfrifol am fonitro ac adrodd ar y system yng Nghymru.

141. Efallai y gall cwestiynau am arweinyddiaeth hefyd ymestyn i'r lefelau uwch o ran perthnasoedd rhynglywodraethol. Gwnaed cynnydd ar wella'r trefniadau ar gyfer ymgynghori a chydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn benodol drwy 'Goncordat rhwng Llywodraeth Cymru a Gweinyddiaeth Gyfiawnder y DU' y cytunwyd arno ar 21 Mawrth 2018. Mae dyfodiad Asesiadau o'r Effaith ar Gyfiawnder ar ddeddfwriaeth arfaethedig, sy'n orfodol ers mis Ebrill 2018 o ganlyniad i a.110A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, wedi helpu i gryfhau perthnasoedd ymgysylltu o fewn a thu allan i Lywodraeth Cymru, yn ogystal â chynnig mecanwaith ffurfiol lle gall y Weinyddiaeth Gyfiawnder fynegi barn ar gynigion ar gyfer gwneud iawn sy'n effeithio ar y llysoedd. Bellach mae 'Grŵp Strategaeth Cyfiawnder yng Nghymru' sy'n dwyn ynghyd swyddogion gweithredol a pholisi o Lywodraeth Cymru, y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac amrywiol gyrrff cyfiawnder. Mae'n rhoi fforwm ar gyfer trafod a chydweithredu ar faterion polisi, ac efallai na fydd yn rhaid i ymchwilwyr droi at geisiadau Rhyddid Gwybodaeth mwyach (fel y gwnaeth Dr Rob Jones yn 2017) i gael gwybodaeth am weithgareddau grwpiau strategaeth a phwyllgorau fel y [Pwyllgor Cyngtori Arbenigol Annibynnol](#) gyfer adolygiad parhaus o weithrediad cyfiawnder yng Nghymru. Yn ei Adroddiad yn 2019, roedd y Pwyllgor hwn o'r farn bod angen gwneud rhagor o waith o hyd i wella cydweithio a gweithio strategol rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, cynigiwyd ymgysylltu ar lefel uwch hefyd. Er enghraifft, yn 2017 argymhellodd y Gweithgor Cyfiawnder yng Nghymru y gallai'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder ystyried a fyddai budd o roi cyfrifoldeb penodol i Weinidog y Weinyddiaeth Gyfiawnder dros ystyried sut y caiff gwasanaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder eu darparu yng Nghymru. O'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am bortffolios Gweinidogol, ymddengys nad yw'r argymhelliad hwn wedi'i roi ar waith. Mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn nodi nad oes cynrychiolaeth Weinidogol o Gymru ar Fwrdd Cyfiawnder Teuluol Cymru a Lloegr. Yn 2016, argymhellodd Dr Huw Pritchard y dylai cynrychiolydd Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd barnwrol o Gymru gael seddi ar Fwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thriwilysoedd EM (eto, o'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd ymddengys nad yw hyn wedi digwydd).

142. Mae'r llenyddiaeth a'r mapio yn awgrymu bod y rhaniad rhwng datblygu a gweithredu polisi yn broblem, a bod sefydliadau a gwasanaethau sy'n ddatganoledig eu natur i raddau helaeth o safbwynt cyflawni yn ymateb i fentrau polisi'r Llywodraeth ganolog, ac yn gorfod 'dal i fyny' o ran sut y gallai'r rhain weithio'n benodol yng Nghymru. Mae hyn weithiau'n arwain at gopïo'r union ddull a ddefnyddir yn Lloegr oherwydd y diffyg amser, lle ac arweinyddiaeth sydd eu hangen ar gyfer arloesi.

8.2 Arloesi a gwerthuso

143. Thema drawsbynciol arall yn ôl pob golwg yw'r anallu go iawn neu ganfyddedig i ddatblygu atebion arloesol i ystod eang o faterion cyfiawnder yng Nghymru, gan gynnwys mewn perthynas â datrys anghydfodau. Mewn rhai achosion, mae'n amlwg mai cyfyngiadau'r setliad datganoli sy'n atal Cymru rhag datblygu atebion unigryw, a daeth y Comisiwn ar Gyfiawnder i'r casgliad clir mai dim ond datganoli deddfwriaethol ac ariannol llawn a allai unioni'r pryder hwn yn briodol.

144. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod rhesymau eraill yn achosi diffyg arloesi. Er enghraifft, o ran rhyngweithio rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Llys Gweinyddol, gallai'r pryder ymwneud yn fwy â chanfyddiadau o gymhwysedd datganoledig yn hytrach nag unrhyw ddadansoddiad manwl, a phryderon ynghylch cael eu gweld yn 'siglo'r cwch' mewn perthynas â rôl y llysoedd yn gyffredinol. Mewn perthynas â Llysoedd Cyffuriau ac Alcohol i Deuluoedd yng Nghymru, gwrthododd y Comisiwn ar Gyfiawnder farn Llywodraeth Cymru fod sefydlu llysoedd o'r fath yn cael ei lesteirio gan y setliad datganoli. Fel y trafodwyd yn Adran 3.3 uchod (ynghylch goruchwyliaeth y Senedd), efallai nad yw'r Senedd yn debygol o nodi'r diffyg arloesi, o ganlyniad i'r cyfyngiadau ar ei gallu i graffu ar faterion cyfiawnder.

145. Ar wahân i ganfyddiadau o gymhwysedd mae ffactorau eraill sy'n effeithio ar y gallu i arloesi. Mae'r rhain yn cynnwys ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gyffredinol o faterion cyfiawnder, ar draws y gangen wleidyddol, a chymdeithas sifil (ac mae ymchwilwyr wedi nodi mai dim ond rhywfaint o ymgysylltu y mae sefydliadau cymdeithas sifil, gan gynnwys y trydydd sector yng Nghymru, wedi'i gael hyd yma). Mae adnoddau hefyd yn bryder pwysig. Un rheswm allweddol pam na ystyriwyd dulliau amgen o ddatrys anghydfodau cyfraith weinyddol (gan gynnwys drwy wneud mwy o ddefnydd o dribiwnlysoedd datganoledig Cymru) yw'r ffaith y byddai angen cyllid sylweddol ar unrhyw fentrau newydd (yn enwedig ar y dechrau), tra ystyrir bod y gost o ddargyfeirio gwneud iawn i adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol, neu lys neu dribiwnlys nad yw wedi'i ddatganoli, yn fach iawn (fel y nodir yn yr Asesiadau o'r Effaith ar Gyfiawnder). Mae'n debygol y bydd enghreifftiau tebyg ym maes cyfiawnder troseddol. Efallai y bydd atebion arloesol tymor hwy y gellid eu halinio'n well ag anghenion Cymru, a gallai hynny hefyd arbed arian, ond yn absenoldeb ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a gyda phryderon ynghylch arweinyddiaeth, mae'n ddealladwy pam nad yw dulliau o'r fath bob amser wedi'u harchwilio a'u dilyn. Wedi dweud hyn i gyd, mae ymchwil i gyfiawnder troseddol a gweinyddol wedi dod o hyd i lawer o enghreifftiau cadarnhaol o fwy o arloesi ar lawr gwlad ac yn lleol ledled Cymru sydd wedi cael effeithiau buddiol, a bu newidiadau deddfwriaethol allweddol megis ehangu awdurdodaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

146. Ymddengys bod rhywfaint o bryder hefyd nad yw effeithiau gwahanol fentrau polisi, strategaethau, a hyd yn oed rhai newidiadau cyfreithiol penodol, gan gynnwys codau statudol, yn destun monitro a gwerthuso tymor hwy yn seiliedig ar dystiolaeth.

8.3 Ymchwil a data

147. Hyd yma, dim ond rhywfaint o ymchwil sydd ar gael o hyd o ran sut y mae agweddau penodol ar gyfiawnder yn gweithredu yng Nghymru ac yn effeithio arno. Mae'r dystiolaeth helaeth a gyflwynwyd i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn ffynhonnell hynod werthfawr o wybodaeth ar gyfer ymchwil yn y dyfodol, ac argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru ariannu ymchwil ychwanegol mewn perthynas â chyfiawnder teuluol, a materion sy'n effeithio ar fynediad at gyfiawnder yng Nghymru. Mae gwerth i'r ymchwil hon gael ei seilio'n sylweddol ar farn 'defnyddwyr' y system gyfiawnder yng Nghymru, a phobl sy'n gweithio o ddydd i ddydd oddi mewn iddi.

148. Er bod ymchwil i drefn gyfansoddiadol Cymru wedi bod yn bwysig iawn, ac yn parhau i fod felly, gallai gwneud i gyfiawnder weithio yng Nghymru hefyd (ac efallai i raddau mwy helaeth) ganolbwyntio ar ddeall rhai o'r mentrau mwy ymarferol, gan gynnwys ar lawr gwlad, sy'n effeithio ar sut y caiff cyfiawnder ei ddarparu yng Nghymru. Gallai rhwydweithiau ymchwil cryfach gyfrannu at hyn.

149. Mae mynediad at ddata wedi'u dad-gyfuno ar gyfer Cymru yn unig ynghylch amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â chyfiawnder yn parhau i fod yn broblem i lunwyr polisïau, Aelodau o'r Senedd a swyddogion, ac ymchwilwyr annibynnol. Yn 2017 argymhellodd Gweithgor Cyfiawnder yng Nghymru y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gynnal adolygiad o sut mae ei harferion casglu a chyhoeddi data yn adlewyrchu natur unigryw Cymru, a lle bo hynny'n bosibl yn dad-gyfuno data i roi darlun clir o sut mae cyfiawnder yng Nghymru yn gweithredu. Byddai'n ddiddorol gwybod canlyniadau'r adolygiad hwn a pha wybodaeth yn union sydd ar gael nawr. Gallai Llywodraeth Cymru ei hun hefyd gyflwyno trefniadau gwell ar gyfer casglu data ynghylch gweithredu mecanweithiau cyfiawnder sy'n dod o fewn ei chymhwysedd; fel y nododd y Comisiwn ar Gyfiawnder, mae diffyg cofnodi data (gan gynnwys gan Lywodraeth Cymru) wedi llesteirio'r gwaith o werthuso mentrau penodol.

8.4 Atal

150. Mae Llywodraeth Cymru (ac eraill) wedi mynegi rhwystredigaeth y gall polisïau cyfiawnder canolog danseilio dull ataliol Cymru, a bod arbedion o ganlyniad i'r dull hwn yn cael eu defnyddio i sybsideiddio sefydliadau a gadwyd yn ôl (gan gynnwys mecanweithiau datrys anghydfodau). Mae llenyddiaeth a mapio yn awgrymu bod pwyslais Cymru ar atal, ar draws cyfiawnder troseddol, gweinyddol a theuluol, yn ased sylweddol ac y dylai barhau i gael ei hyrwyddo. Fodd bynnag, mae rhywfaint o bryder (a ddangosir mewn enghreifftiau o gyfiawnder teuluol a gweinyddol), na ddylid ystyried mesurau ataliol fel rhywbeth i gymryd lle, neu i ddileu'r angen am, fynediad at benderfyniad barnwrol annibynnol ar hawliau cyfreithiol. Mae hyn yn wir hefyd ym maes cyfiawnder sifil, gyda Dr Daniel Newman yn nodi na ellir cael cyfiawnder cymdeithasol heb fynediad at gyfiawnder sifil. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod hyn yn glir o ystyried ei phryderon amlwg ynghylch effaith toriadau i gymorth cyfreithiol a chau llysoedd yng Nghymru.

8.5 Myfyrdodau i gloi

151. Yn ei Adroddiad mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn cyfeirio llawer at yr angen am newid diwylliannol ac arweinyddiaeth o ran cyfiawnder yng Nghymru. Yn ôl pob golwg bu cynnydd pwysig yn hyn o beth, o ran sefydlu Is-bwyllgor Cabinet, ac o ran cylch gwaith newydd a gwaith presennol y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad yn y Senedd. Er bod yr adolygiad o lenyddiaeth a mapio yn dangos pryderon parhaus ynghylch ymwybyddiaeth o gyfraith Cymru a mynediad ati, eto mae hyn yn amlwg yn rhywbeth y mae Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn mynd i'r afael ag ef; er bod rhai pryderon parhaus ynghylch cyfathrebu ynghylch gwahaniaethau, argaeledd hyfforddiant priodol i weithwyr proffesiynol, ac effeithiau ar lefel weithredol.

Mae'r hyn sydd bwysicaf yn ôl pob golwg ar gyfer y dyfodol wedi'i grynhoi yn myfyrdod [Dr Daniel Newman](#), bod yn rhaid cymryd Cymru o ddifrif fel safle lle mae cyfiawnder yn cael ei wneud, a bod yn rhaid i bobl deimlo eu bod yn gallu chwarae rhan barhaus mewn gwaith ymchwil ac ymgysylltu ynghylch yr hyn sy'n gweithio iddynt.

Atodiad Un: Mapio Cyfiawnder yng Nghymru

CYNNWYS:

1. Cyflwyniad, Cwmpas a Dulliau.....	2
2. Cyfiawnder Troseddol.....	3
2.1 Atal, Canfod ac Ymchwilio i Drosedd.....	4
2.2 Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.....	4
2.3 Plismona.....	5
2.4 Diogelwch Cymunedol.....	6
2.5 Comisiynwyr Heddlu a Throseddu.....	6
2.6 Cymorth i Ddiodefswyr.....	6
2.7 Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.....	7
2.8 Caethwasiaeth Fodern.....	7
2.9 Puteindra.....	8
2.10 Eitemau Peryglus (Deddf Arfau Tanio 1968 i 1997, Deddf Gwenwynau 1972, Cyllyll).....	8
2.11 Camddefnyddio Cyffuriau neu Sylweddau Seicoweithredol a'u Delio.....	8
2.12 Pwnc Deddf Galluedd Meddyliol 2005.....	9
2.13 Carchardai a Sefydliadau Eraill ar gyfer Cadw Pobl sydd wedi'u Cyhuddo neu eu Heuogfarnu o Droseddau	10
2.14 Rheoli Pobl sydd wedi'u Cyhuddo neu eu Heuogfarnu o Droseddau	12
2.15 Troseddau gan Fenywod.....	13
2.16 Gwasanaeth Prawf.....	13
3. Cyfiawnder Ieuencid.....	14
4. Cyfiawnder Gweinyddol.....	15
4.1 Polisi Cyfiawnder Gweinyddol.....	15
4.2 Cyfraith Weinyddol Gyhoeddus.....	16
4.3 Egluro, Cydgrynhoi a Chodeiddio Cyfraith Cymru, ac Ymwybyddiaeth Ohoni a Mynediad ati.....	17
4.4 Cyfraith Weinyddol Gyffredinol Cymru.....	18
4.5 Sefydliadau Cyfiawnder Gweinyddol: Y Llys Gweinyddol yng Nghymru a'r Adolygiad Barnwrol.....	18
4.6 Comisiynwyr Cymru.....	20
4.7 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.....	23
4.8 Tribiwnlysoedd.....	24
4.9 Mekanweithiau Gwneud lawn 'ad hoc'.....	25
4.10 Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol y DU.....	25
5. Cyfiawnder Teuluol.....	26
5.1 Sefydliadau arweinyddiaeth ym maes Cyfiawnder Teuluol.....	26
5.2 Materion a Gedwir yn ôl yn Gyffredinol.....	27
5.3 Mabwysiadu.....	27
5.4 Magu Plant a Disgyblaeth gan Rieni.....	27
5.5 Gwarcheiddiaeth Arbennig.....	27
5.6 Trais Domestig.....	28

5.7 Iechyd Meddwl.....	28
5.8 Iechyd.....	28
5.9 Addysg.....	28
5.10 Lles Cymdeithasol a Llesiant.....	29
5.11 Cymryd Plant i mewn i'r System Ofal.....	29
5.12 Achosion Cyfraith Deuluol.....	29
5.13 Cafcass Cymru a Swyddogion Achosion Teuluol.....	30
6. Cyfiawnder Sifil.....	30
6.1 Materion Cyfraith Cyflogaeth.....	30
6.2 Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru.....	31
6.3 Datrys Anghydfod ym Maes Cyfiawnder Sifil (a Gweinyddol).....	31
7. Cymorth Cyfreithiol (Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth).....	31
7.1 Y Rhwydwaith Cyngori Cenedlaethol a'r Gronfa Gyngori Sengl.....	32

1. Cyflwyniad, Cwmpas a Dulliau

O dan bob un o'r gwahanol setliadau datganoli, mae'r Senedd a Llywodraeth Cymru wedi arfer pwerau a swyddogaethau sy'n annatod er mwyn i gyfiawnder weithredu'n gywir yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r rhestr o faterion a gedwir yn ôl yn Neddf Cymru 2017 yn helaeth, ac mae'n cynnwys:

gwylidwriaeth yn y llysoedd gan bobl sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus; atal, canfod ac ymchwilio i drosedd; cynnal trefn gyhoeddus; plismona a chomisiynwyr heddlu a throsedd; cŵn peryglus; ymddygiad gwrthgymdeithasol; caethwasiaeth fodern a phuteindra; adsefydlu troseddwy; cofnodion troseddol; gwenwynau a chyllyll; diogelwch preifat; lluniaeth gyda'r hwyr; gwerthu a chyflenwi alcohol; elusennau; llysoedd, barnwyr, achosion sifil a throseddol; y proffesiwn cyfreithiol, gwasanaethau cyfreithiol a rheoli hawliadau; cymorth cyfreithiol; crwneriaid; cyflafareddu; galluedd meddyliol; cofnodion cyhoeddus; iawndal i'r rhai y mae trosedd a chamweinyddiad cyfiawnder yn effeithio arnynt; carchardai a rheoli troseddwy; perthnasoedd teuluol a phlant; cydnabod rhywedd; a chofrestru genedigaethau, marwolaethau ac addoldai.

Mae Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn gwneud eu cyfraniadau mwyaf at gyfiawnder drwy swyddogaethau datganoledig mewn meysydd fel iechyd, addysg, lles cymdeithasol a thai. Cyn ceisio 'mapio' yn erbyn 'ffin amrwd' datganoli, rhwng y pwerau a gedwir yn ôl sydd wedi'u nodi uchod, a gweithgareddau Llywodraeth Cymru a'r Senedd, mae'n werth nodi materion trosfwaol sy'n unigryw i gyd-destun cyfiawnder Cymru. Caiff y rhain eu trafod yn y prif adroddiad, ac maent yn cynnwys: dulliau ataliol a llesiant sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; ceisio cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru; a dealltwriaeth dda o effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynodod (ACEs) a sut y mae modd lliniaru'r effeithiau hyn er budd cyfiawnder cymdeithasol, yn enwedig i bobl sy'n dod i gysylltiad â'r systemau cyfiawnder troseddol, gweinyddol a theuluol yng Nghymru.

Mae 'mapio' sefydliadau, swyddogaethau ac atebolrwydd yn ymarfer cymhleth ac nid yw hwn yn gyfrif gynhwysfawr; ei nod yw rhoi llinell sylfaen y bydd tystiolaeth a thrafodaeth bellach yn ychwanegu ati. Mae sawl ffordd wahanol o 'fapio' swyddogaethau cyfiawnder. Seiliodd y Comisiwn Cyfiawnder ei adroddiad ar feysydd eang (cyfiawnder troseddol, teuluol, sifil a gweinyddol); mae Nason et al wedi mynd i fwy o fanylder ynghylch y systemau cyfiawnder gweinyddol penodol ym maes tai cymdeithasol a digartrefedd, ac addysg gynradd ac uwchradd yng Nghymru. Yn yr adroddiad o'r enw 'Justice at the Jagged Edge in Wales', mae Jones a Wyn Jones yn seilio eu dadansoddiad ar weithgaredd Llywodraeth Cymru mewn materion sy'n dod o fewn materion plismona a chyfiawnder a gedwir yn ôl yn Neddf Cymru 2017, neu'n eu hategu. Mae'r adroddiad hwn yn mabwysiadu dull gweithredu cymysg, gan drefnu deunydd o dan themâu cyffredinol (troseddol, gweinyddol ac ati) ac fel rhan o hyn, ym maes cyfiawnder troseddol yn bennaf, yn defnyddio'r dull yn 'Justice at the Jagged Edge in Wales' gan Jones a Wyn Jones o fapio gweithgaredd Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn erbyn trefn datganoli Deddf Cymru 2017, gyda rhai categorïau gweithgaredd trosfwaol ychwanegol. Mae'r 'ffin amrwd' yn bodoli o hyd ym maes cyfiawnder gweinyddol, ond mae gan y Senedd a Llywodraeth Cymru lawer mwy o gymwyseddau yn y maes hwn. Mae'r deunydd cyfiawnder teuluol yn seiliedig yn bennaf ar ddadansoddiad y Comisiwn Cyfiawnder a'r dystiolaeth a gyflwynwyd iddo.

Mae'r gwaith mapio hwn hefyd yn tynnu ar 'ddull sbectrw' Pritchard ynghylch datganoli pwerau (a drafodir ymhellach yn Atodiad Dau), gan nodi pa lefel o ddatganoli sydd wedi digwydd ar gyfer rhai cymwyseddau/pynciau allweddol. Mae'r lefelau hyn yn cynnwys: ymwybyddiaeth o ddull gweithredu gwahanol yng Nghymru, cydweithredu (rhwng llywodraeth ddatganoledig a llywodraeth ganolog), rhanbartholi a/neu ddatganoli gweinyddol, a datganoli gweithredol a deddfwriaethol.

2. Cyfiawnder Troseddol

Mae cyfiawnder troseddol yn cynnwys: heddluoedd, Gwasanaeth Eryl y Goron, llysoedd, carchardai a gwasanaethau prawf, ond nid oes yr un o'r meysydd hyn wedi'u datganoli i Gymru. Mae'r prif nodweddion hyn o gyfiawnder troseddol yn rhyngweithio â gwasanaethau y mae rhannau eraill o Lywodraeth ganolog y DU yn gyfrifol amdanynt, ond yn hanfodol hefyd â llywodraeth ddatganoledig a lleol yng Nghymru. Mae hyn yn arwain at lefel uchel o gymhlethdod, gyda gwahanol bwyllgorau a byrddau yn cael eu creu mewn perthynas â chyfiawnder troseddol a chymdeithasol, a pholisïau cymdeithasol sy'n gorgyffwrdd/integredig yng Nghymru. Ceisiodd y Comisiwn Cyfiawnder wneud gwaith 'mapio' o'r prif gyrff cyfiawnder troseddol yn ffigur 14 yn ei adroddiad. Mae'r ffigur hwn yn ddefnyddiol ond gall fod eisoes wedi dyddio ac nid yw'n gynhwysfawr.

Mae Swyddfa Gartref a Gweinyddiaeth Gyfiawnder Llywodraeth y DU yn cadw'r prif gyfrifoldeb polisi dros gyfiawnder troseddol yng Nghymru. Y Swyddfa Gartref sy'n gyfrifol am bolisi plismona, troseddu a chyffuriau, a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n gyfrifol am wasanaethau carchardai a phrawf, llysoedd a thribywnlysoedd, a chymorth cyfreithiol. Mae'r ddwy'n gweithio gydag ystod eang o asiantaethau a chyrrff ag atebolrwydd a chyfansoddiad gwahanol i gyflawni ymrwymïadau polisi. Yn amodol ar gymeradwyaeth seneddol, mae gan Weinidogion y DU yr awdurdod i gyflwyno newidiadau deddfwriaethol i bolisi plismona, troseddu a chyffuriau yng Nghymru. Yn ôl yr adroddiad 'Justice at the Jagged Edge in Wales', mae hefyd

gan swyddogion a Gweinidogion y Swyddfa Gartref gyfrifoldeb unigryw am fentrau polisi yn y meysydd hyn.

Yn amodol ar gymeradwyaeth seneddol, mae Gweinidogion y DU hefyd yn gyfrifol am ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chyfiawnder ieuenctid, a gwasanaethau carchardai a phrawf yng Nghymru, ynghyd â llysoedd, tribiwnlysoedd a chymorth cyfreithiol. Mae Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin yn craffu ar bolisi, gwariant a threfniadau gweinyddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

2.1 Atal, Canfod ac Ymchwilio i Drosedd

Mae Llywodraeth Cymru yn ymwneud â gwaith atal troseddau drwy bolisiau amrywiol, gan gynnwys diogelwch cymunedol, cyfiawnder ieuenctid, a thrais yn erbyn menywod, trais domestig a cham-drin rhywiol. Yn ôl Jones a Wyn Jones, prif ffocws gwaith Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chyfiawnder troseddol yw atal troseddau ieuenctid, sy'n cael ei drafod yng nghyd-destun cyfiawnder ieuenctid isod. Mae Jones a Wyn Jones o'r farn bod cyfraniad Llywodraeth Cymru at waith atal troseddau oedolion yn llai eglur (Justice at the Jagged Edge in Wales: tudalen 27). Fodd bynnag, gall hyn ddangos yn rhannol yr anawsterau o ran mapio 'ffin amrwd' cyfiawnder. Fel y mae'r Comisiwn Cyfiawnder wedi'i nodi, prif ffocws deddfwriaeth a pholisi cymdeithsol Llywodraeth Cymru yw'r penderfyniad i fynd i'r afael â ffactorau sy'n difrodi cymunedau ac yn atal pobl rhag cyrraedd eu potensial, a thrwy hyn yn cyfrannu at ostyngiad mewn troseddu (Y Comisiwn Cyfiawnder: paragraff [4.202]). Fodd bynnag, daw'r Comisiwn i'r casgliad hefyd mai prin yw'r ysgogiadau deddfwriaethol sy'n galluogi cyrff datganoledig i gael eu dwyn i gyfrif am leihau aildroseddu a gwella canlyniadau adsefydlu (Y Comisiwn Cyfiawnder: paragraff [4.14]). Mae'r agenda ataliol yn rhedeg ar draws sawl maes o gyfrifoldeb polisi datganoledig, ac felly mae'n anodd ei mapio fel categori ar wahân.

2.2 Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae hwn yn faes gweithgaredd sylweddol i Lywodraeth Cymru a'r Senedd, sy'n rhan annatod o'r gwaith o atal, canfod ac ymchwilio i drosedd. Yn 2010, lansiodd Llywodraeth Cymru strategaeth chwe blynedd, sef 'Yr Hawl i fod yn Ddiogel' i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod yng Nghymru. Yn dilyn hyn, ym mis Tachwedd 2016 lansiwyd 'Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (2016-2021)'. Mae rhagair y strategaeth hon (gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant ar y pryd) yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn parhau i 'gydweithio'n agos gyda'r Swyddfa Gartref ac asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru i sicrhau bod yr holl bartïon yn cydweithio, ar draws cyfrifoldebau sydd wedi'u datganoli a sydd heb eu datganoli, i gyrraedd ein nodau'. Nid oes Ysgrifennydd Cabinet dros Gymunedau a Phlant yn bodoli mwyach, a chyfrifoldeb y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip yw trais yn erbyn menywod, trais domestig a cham-drin rhywiol.

Mae'r Senedd wedi deddfu Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, gyda'r nod o 'wella trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; gwella trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr cam-drin a thrais o'r fath; gwella'r cymorth sydd ar gael i bobl yr effeithir arnynt gan gamdriniaeth a thrais o'r fath; a'i gwneud yn ofynnol penodi Cyngorydd Cenedlaethol ar drais ar sail rhywedd, cam-

drin domestig a thrais rhywiol'. Ym mis Mawrth 2016, lansiodd Llywodraeth Cymru 'Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol' i helpu i gyflawni Deddf 2015 mewn modd cyson ledled Cymru (portffolio'r Gweinidog oedd yn atebol ar y pryd oedd Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, sef rôl Weinidogol arall nad yw'n bodoli mwyach). Mae'r Fframwaith Hyfforddi a Strategaeth 2016-2021 ill dau'n cydnabod bod y system cyfiawnder troseddol yn chwarae rhan ganolog o ran mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, ond 'mae llawer y gellir ei wneud mewn meysydd eraill, megis iechyd, addysg, tai a gwasanaethau cymdeithasol, i helpu menywod a'u hatal rhag dod yn rhan o'r gyfundrefn cyfiawnder troseddol yn y lle cyntaf' (Strategaeth 2016-2021: tudalen 14). Mae'r Senedd yn craffu ar y cynnydd yn erbyn nodau'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, ac mae grwpiau cenedlaethol a lleol yn ymwneud â'i gweithredu.

Mae'r Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus Cymru o ran atal, amddiffyn a rhoi cymorth, ond ni chaiff osod dyletswyddau ar yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron na'r llysoedd fel sefydliadau a gedwir yn ôl. Yna dylai'r sefydliadau hyn weithio'n weinyddol ochr yn ochr â gwasanaethau cyhoeddus datganoledig, gyda ffocws unigryw ar Gymru, a dangos ymwybyddiaeth o nodau a mentrau polisi datganoledig.

2.3 Plismona

Mae'r prif adroddiad (yn adrannau 2.1-2.3) yn trafod rhai meysydd gweithgaredd allweddol mewn perthynas â phlismona. Mae materion eraill yn cynnwys creu swydd 'Dirprwy Brif Gwnstabl Cymru Gyfan' gyda'r bwriad o feithrin cysylltiadau agosach a mwy effeithiol rhwng Llywodraeth Cymru, yr heddlu a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd, a sicrhau bod gweithredu polisi plismona yn cyd-fynd mor agos â phosibl â meysydd trawsbynciol o gyfrifoldeb datganoledig.

Ym maes addysg, mae Llywodraeth Cymru a phedwar Heddlu Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu 'Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan' i gydnabod y rôl y gall ysgolion ei chwarae o ran mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, camddefnyddio sylweddau a diogelwch personol. Mae hyn yn cynnwys cyfres o fewnbynau atal troseddu, gwersi penodol a mentrau plismona ysgol cefnogol. Slogan y rhaglen yw: 'Heddlu'n diogelu plant Cymru drwy addysg atal troseddu'. Unwaith eto, mae'n anodd 'mapio' y gweithgaredd hwn yn union gan ei fod yn ymwneud ag addysg, llesiant plant, atal troseddu a phlismona. Er ei fod yn cael ei drafod ymhellach mewn perthynas â chyllid, mae'n werth nodi yma fod y Comisiwn Cyfiawnder yn pryderu, er bod cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cyswllt ag ysgolion ac ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn destun cenfigen i heddluoedd Lloegr, fod dyfodol cyllid o'r fath yn ansicr gan ei fod yn ddewisol (Y Comisiwn Cyfiawnder: paragraffau [4.89] a [4.141]).

Mae meysydd polisi eraill sydd wedi'u halinio yn cynnwys iechyd meddwl, yn benodol y Concordat Gofal Argyfwng Iechyd Meddwl sy'n dwyn ynghyd Lywodraeth Cymru, yr Heddlu, GIG Cymru, Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, awdurdodau lleol, sefydliadau'r trydydd sector, y Swyddfa Gartref ac amrywiaeth o gyrff eraill, gan gynnwys Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru. Cafodd y Concordat ei gyd-gynhyrchu â Llywodraeth Cymru a'i nod yw gwella'r gofal a'r cymorth i bobl sydd mewn argyfwng iechyd meddwl neu

mewn perygl o fod mewn argyfwng iechyd meddwl, ac sy'n debygol o gael eu cadw dan adran 135 neu adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Ym mis Gorffennaf 2018, sefydlwyd Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Blismona i ystyried cwestiynau ynghylch sut mae plismona'n gweithredu o fewn yr agweddau datganoledig a heb eu datganoli ar wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, beth yw'r materion presennol sy'n wynebu'r heddlu yng Nghymru a beth yw'r ffordd orau o ymgysylltu â'r Senedd ar heriau plismona, polisi a materion ymarferol sydd o fuddiant cyffredin. Mae'r Grŵp wedi trafod digartrefedd, cysgu ar y stryd, camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.

Yn 2019, cynhaliodd Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd ymchwiliad 'Iechyd meddwl yng nghyd-destun plismona a dalfa'r heddlu', gan ganolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth rhwng yr heddlu, gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac eraill i ystyried pa mor effeithiol y mae gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd yng Nghymru i atal pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl rhag cael eu cymryd i ddalfa'r heddlu, ac er mwyn helpu i sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed mewn argyfwng iechyd meddwl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Roedd hyn hefyd yn canolbwyntio'n benodol ar bobl sy'n cael eu harestio o dan adran 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.

Sefydlwyd Bwrdd Plismona Cymru ym mis Tachwedd 2018, sy'n dwyn ynghyd y Prif Gwnstabiliaid a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau o bob un o'r heddluoedd yng Nghymru, Gweinidogion Llywodraeth Cymru a swyddogion. Mae ei aelodaeth yn debyg iawn i aelodaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan (a sefydlwyd yn 2011), sy'n cael ei drafod ymhellach isod.

2.4 Diogelwch Cymunedol

Mae diogelwch cymunedol yn faes sy'n gorgyffwrdd yn sylweddol ag amrywiaeth o faterion cyfiawnder troseddol, gan gynnwys plismona. Mar paragraff 19 o'r prif adroddiad yn trafod hyn.

Er gwaethaf beirniadaeth, cafodd rhai enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth rhwng heddluoedd a darparwyr gwasanaethau cyhoeddus datganoledig eu canmol mewn adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2016. Yna cynhaliodd Llywodraeth Cymru adolygiad Gweithio gyda'n Gilydd i greu Cymunedau mwy Diogel (gan adrodd yn 2017). Mae Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau Cymru yn rhan o'r Grŵp Trosolwg Gweithio gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel, a sefydlwyd i oruchwylio'r gwaith o weithredu argymhellion. Yn dilyn yr adolygiad: 'Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig sefydlu rhaglen waith hirdymor – mewn partneriaeth gyda'n partneriaid a rhanddeiliaid datganoledig ac annatganoledig – i wireddu gweledigaeth newydd ac uchelgeisiol ar gyfer gweithio gyda'n gilydd i greu cymunedau mwy diogel yng Nghymru a'i rhoi ar waith'. Un elfen o'r rhaglen waith hon oedd sefydlu polisi 'partneriaeth' diogelwch cymunedol, gyda swyddogaethau arwain i gyflawni hyn i'w sefydlu o fewn Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth agos â'r Swyddfa Gartref, y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac arweinwyr 'datganoledig' perthnasol eraill ar gyfer Llywodraeth y DU. Sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel wedyn yn 2018. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru adrodd ar hynt ei gweithgareddau i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd ym mis Mehefin 2019.

2.5 Comisiynwyr Heddlu a Throseddu

Fe wnaeth Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 gyflwyno Comisiynwyr Heddlu a Throseddu i gymryd lle Awdurdodau'r Heddlu, a hynny i gynrychioli cymunedau lleol yn gyffredinol. Mae Comisiynydd Heddlu a Throseddu etholedig ar gyfer pob un o bedwar heddlu Cymru. Mae ganddynt rôl benodol o ran dod â sefydliadau diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol at ei gilydd, er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau lleol yn gydgysylltiedig (Y Comisiwn Cyfiawnder: [4.79.5]). Mae hyn yn golygu eu bod yn rhyngweithio'n rheolaidd â gwasanaethau cyhoeddus datganoledig. Gall Comisiynwyr Heddlu a Throseddu godi arian drwy dreth gyngor ddatganoledig (tua £127.8 miliwn yn 2018/19 ('Justice at the Jagged Edge in Wales': t.29)).

2.6 Cymorth i Ddiodefwyr

Mae'r Comisiwn Cyfiawnder yn nodi'n benodol mai Comisiynwyr Heddlu a Throseddu sy'n darparu'r prif gyllid ar gyfer Cymorth i Ddiodefwyr, sef elusen annibynnol sy'n gweithio tu mewn a thu allan i'r llys i gefnogi diodefwyr troseddau a digwyddiadau trawmatig yng Nghymru a Lloegr. Caiff cyllid pellach ei ddarparu hefyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu Cymorth i Ddiodefwyr i redeg llinell gymorth a gwasanaeth adrodd ar droseddau casineb.

Mae nodau Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015 yn cynnwys cynyddu lefelau adrodd am gamdriniaeth; sicrhau bod ymyriadau cynnar effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gael i ddiodefwyr a goroeswyr; a chynyddu hyder diodefwyr a mynediad at gyfiawnder (Y Comisiwn Cyfiawnder: paragraff [4.39]).

Mae gan Lywodraeth Cymru hefyd fframwaith i atal troseddau casineb yn erbyn cymunedau amrywiol a mynd i'r afael â hwy (Llywodraeth Cymru, 'Mynd i'r afael â Throseddau a Digwyddiadau Casineb: Fframwaith Gweithredu': 2017).

2.7 Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn fater a gedwir yn ôl ond mae ymdrechion i fynd i'r afael â hyn wedi bod yn rhan o bolisi tai datganoledig Cymru. Nid datblygiad unigryw i Gymru yw hwn. Roedd deddfwriaeth San Steffan wedi ehangu'r ddarpariaeth sydd ar gael i landlordiaid cymdeithasol ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac wedi cydnabod yr angen i landlordiaid cymdeithasol weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau allweddol eraill. Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014 yn darparu i awdurdodau lleol (a chymdeithasau tai mewn rhai amgylchiadau) geisio gwaharddebau ar gyfer ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig â thai, ac mae hefyd yn darparu bod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn sail absoliwt ar gyfer ceisio meddiannu. Mae Rheoliadau Tenantiaethau Diogel (Sail Absoliwt ar gyfer Meddiannu am Ymddygiad Gwrthgymdeithasol) (Y Weithdrefn Adolygu) (Cymru) 2015 yn pennu'r broses i'w dilyn ar gyfer adolygiad gweinyddol mewnol gan awdurdod lleol neu ymddiriedolaeth gweithredu tai o'i benderfyniad i geisio meddiannu o dan y sail absoliwt am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dyma un o nifer o enghreifftiau o weithdrefnau adolygu gweinyddol mewnol sy'n fesur penodol i wneud iawn o fewn system

cyfiawnder gweinyddol Cymru. Bydd y sail absoliwt ar gyfer meddiannu am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei diddymu pan ddaw Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 i rym; mae'n ymddangos y gall y Ddeddf Rhentu Cartrefi hefyd roi diffiniad mwy cul o ymddygiad gwrthgymdeithasol nag o dan y gyfraith gymwys gyfredol. Mae'r Ddeddf Rhentu Cartrefi hefyd yn cyflwyno darpariaeth ddadleuol lle gall landlord wahardd deiliad contract o annedd am hyd at 48 awr am fathau penodol o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Nid oes hawl benodol i geisio adolygiad brys nac apêl o benderfyniad i wahardd, ac mae ymatebwyr i'r gwaith ymchwil wedi awgrymu y gallai hyn fod yn groes i Erthygl 6 Siarter Hawliau Dynol Ewrop (yr hawl i dreial teg wrth benderfynu hawliau sifil). Cyfrifoldeb Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Llywodraeth CYmru yw'r materion hyn ar hyn o bryd.

Mae darparwyr tai cymdeithasol hefyd yn gweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddau. Er enghraifft, yn 2018 daeth prosiect peilot yn Ne Cymru â darparwyr tai cymdeithasol ynghyd â swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau i edrych ar ddull perthynol o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

2.8 Caethwasiaeth Fodern

Mae paragraff 20 o'r prif adroddiad yn trafod hyn. Yn ogystal â gweithgarwch Llywodraeth Cymru a drafodir yn y paragraff hwnnw, mae Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 yn gosod dyletswyddau ar ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys y GIG a Trafnidiaeth Cymru. Mae Deddf 2015 yn rhyngweithio â mentrau heddlu Cymru ac yna mae Grŵp Arwain Atal Caethwasiaeth Cymru (sy'n cael ei gadeirio gan Bennaeth Diogelwch Cymunedol Llywodraeth Cymru), yn darparu arweinyddiaeth strategol sy'n cydgysylltu cydweithrediad rhwng partneriaid datganoledig a phartneriaid nad ydynt wedi'u datganoli a'r trydydd sector. Mae aelodau eraill o'r grŵp yn cynnwys Comisiynwyr Heddlu a Throseddau, swyddogion Swyddfa Gartref y DU, Gwasanaeth Eryl y Goron, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol, y gwasanaeth prawf a sefydliadau'r trydydd sector.

Mae strwythur Cymru ar gyfer mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern yn un o bartneriaeth amlhaenog, ac mae gan y Grŵp Arwain is-grwpiau pellach ym meysydd hyfforddiant, bygythiad, adolygu gwaith achos a chymorth i weithwyr rhyw. Ceir Grŵp Cyflawni Gweithredol sy'n cydgysylltu chwe grŵp atal caethwasiaeth rhanbarthol, sydd â'r dasg o weithredu amcanion strategol, a rhannu gwybodaeth, cudd-wybodaeth ac arferion gorau. Cyfrifoldeb y Prif Weinidog yw caethwasiaeth fodern, gyda chymorth y Dirprwy Weinidog.

2.9 Puteindra

Mae deddfu a rheoleiddio gwaith rhyw yn fater a gedwir yn ôl. Yn ei Strategaeth Genedlaethol ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, mae Llywodraeth Cymru yn amlinellu ei hymrwymiad i geisio amddiffyn menywod a gwella mynediad at gymorth i'r rhai sy'n ymwneud â phuteindra yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ariannu sefydliadau'r trydydd sector sy'n darparu cymorth i weithwyr rhyw a dioddefwyr camdriniaeth, ac wedi ariannu ymchwil i'r berthynas rhwng gwaith rhyw a chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru. Unwaith eto, mae'r rhain yn strategaethau i gefnogi gweithwyr rhyw yn hytrach nag arfer pwerau 'cyfiawnder' penodol yn eu ystyr ffurfiol, ac mae Llywodraeth y DU hefyd yn

rheolaidd yn comisiynu gwaith ymchwil sy'n ymestyn i Gymru a Lloegr, weithiau'n gweithio mewn partneriaeth gydag 'ymwybyddiaeth' o'r dimensiwn Cymreig. Mae hyn yn cynnwys gwaith ymchwil a gomisiynwyd ar y cyd gan y Swyddfa Gartref a Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddau De Cymru ('Natur a lefel puteindra a gwaith rhyw yng Nghymru a Lloegr heddiw': Hydref 2019).

2.10 Eitemau Peryglus (Deddf Arfau Tanio 1968 i 1997, Deddf Gwenwynau 1972, Cyllyll)

Mae'r gyfraith sy'n rheoleiddio'r maes hwn yn fater a gedwir yn ôl, ond mae polisi addysg wedi'i ddatganoli. Ar ôl i bwerau newydd i chwilio am arfau gael eu cyflwyno yn Neddf Lleihau Troseddau Treisgar 2006, fe wnaeth Llywodraeth Cymru lunio canllawiau i ysgolion ar sut i chwilio am arfau ym meddiant plant (fersiwn gyfredol: Ymyriad diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau: Mawrth 2013).

2.11 Camddefnyddio Cyffuriau neu Sylweddau Seicoweithredol a'u Delio

Mae camddefnyddio a delio cyffuriau, yn ogystal â'u dosbarth, yn fater a gedwir yn ôl, ond mae Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn arfer pwerau mewn perthynas â mynd i'r afael ag effeithiau camddefnyddio sylweddau. Roedd strategaeth gyntaf Llywodraeth Cymru, 'Mynd i'r Afael â Chamddefnyddio Sylweddau yng Nghymru' (2000) wedi'i seilio'n bennaf ar strategaeth Llywodraeth y DU, sef 'Tackling Drugs to Build a Better Britain Strategy' (y Swyddfa Gartref 1998), ond mae strategaethau mwy diweddar wedi cynnwys elfennau ychwanegol sy'n canolbwyntio mwy ar leihau niwed. Cyhoeddwyd strategaeth 10 mlynedd 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' yn 2018, a chaiff blaenoriaethau Llywodraeth Cymru eu nodi'n rheolaidd mewn cynlluniau cyflawni ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol', yn amlinellu dull gweithredu system gyfan o ran iechyd a gofal cymdeithasol, gan amlinellu system 'iachusrwydd', sy'n ceisio cefnogi a rhagweld anghenion iechyd er mwyn atal salwch a lleihau effaith iechyd gwael ac anghydraddoldeb. Mae'r 'Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2019-2022' yn cyd-fynd â 'Cymru Iachach' ac mae'n cynnwys camau gweithredu yn y meysydd blaenoriaeth a ganlyn: ymateb i broblemau iechyd meddwl, gwella gwaith partneriaeth â gwasanaethau digartrefedd, a gwella mynediad at wasanaethau yn gyffredinol a darparu cymorth i deuluoedd a gofalwyr. Mae'r Cynllun yn nodi y bydd 'yn darparu ffocws ar gyfer sicrhau bod camddefnyddio sylweddau yn cael ei ymwreiddio ar draws meysydd polisi eraill Llywodraeth Cymru, yn enwedig wrth ganolbwyntio mwy ar atal. Er enghraifft, byddwn yn parhau i gydweithio'n agos â meysydd Addysg, Plant a Theuluoedd, Cyflogadwyedd, Tai, Gwasanaethau Cymdeithasol, Trechu Tlodi, a Throsedd a Chyfiawnder, er mwyn cryfhau'r cysylltiadau â'r meysydd hyn' ('Cynllun Cyflawni 2019-2022: tudalen 10). Cyfrifoldeb y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yw ymgysylltu â chamddefnyddio sylweddau yng Nghymru.

Yn 2014/15 cynhaliodd Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd ymchwiliad i sylweddau seicoweithredol newydd. Roedd ei gylch gorchwyl yn cynnwys y canlynol: 'Y dulliau deddfwriaethol posibl o fynd i'r afael â'r mater o sylweddau seicoweithredol newydd, ar lefel Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU' a 'Pa mor effeithiol y caiff y dull partneriaeth i fynd i'r afael â'r mater o sylweddau seicoweithredol newydd yng Nghymru ei gydlynu, o fewn Cymru a rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU'. Mae adroddiad 'Justice at the Jagged Edge

in Wales' yn codi rhai pryderon am yr anawsterau y cafodd swyddogion yr ymchwiliad wrth geisio ymgysylltiad Llywodraeth y DU â'r ymchwiliad. Ysgrifennodd Gweinidog Atal Troseddu'r DU ar y pryd at Gadeirydd y Pwyllgor yn cefnogi'r argymhellion ac yn nodi rôl y Swyddfa Gartref ac adrannau eraill Whitehall o ran cynorthwyo Llywodraeth Cymru i gyflawni'r argymhellion. Nododd Gweinidog y DU fod y Pwyllgor yn argymhell gwaharddiad deddfwriaethol ar sylweddau seicoweithredol newydd a bod y Swyddfa Gartref yn datblygu cynigion ar y pryd, sydd bellach wedi'u deddfu drwy Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol 2016.

2.12 Pwnc Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am weithredu Deddf 2005 lle mae'n rhyngweithio ag iechyd a gofal cymdeithasol. Mae Deddf 2005 yn darparu fframwaith statudol ar gyfer pobl nad oes ganddynt y galluedd i wneud penderfyniadau drostynt eu hunain neu sydd â galluedd ac sydd am wneud paratodau ar gyfer adeg pan na fydd ganddynt alluedd yn y dyfodol. Mae'n nodi pwy sy'n cael gwneud penderfyniadau, ym mha sefyllfaoedd, a sut y dylent fynd ati i wneud hyn. Fe'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007 i ymgorffori trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid. Fel y mae Cynllun Cyflawni Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022 Llywodraeth Cymru yn ei nodi:

Mae'r dirwedd gyfredol o ddeddfwriaeth iechyd meddwl a galluedd meddyliol sydd ar waith yng Nghymru ar hyn o bryd yn adlewyrchu rhai o'r newidiadau cymdeithasol a pholisi sydd wedi digwydd yn y blynyddoedd diwethaf. Mae gan y tri phrif fframwaith cyfreithiol, Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010, Deddf Iechyd Meddwl 1983 a Deddf Galluedd Meddyliol 2005, yn cynnwys y trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, bwyntiau cyswllt â'i gilydd (sydd weithiau'n gymhleth) a phwyntiau sy'n ymgysylltu â hawliau dynol pobl. Mae'r tair Deddf hefyd yn adlewyrchu continwwm o feysydd polisi datganoledig a meysydd polisi a gedwir yn ôl, ond maent yn rhannu nodwedd gyffredin trwy fod pobl yn dod i gysylltiad â'r ddeddfwriaeth yn bennaf trwy ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Yng Nghymru, mae deddfwriaeth iechyd meddwl a galluedd meddyliol hefyd yn gweithredu'n agos gyda Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a deddfwriaeth cydraddoldeb.

Caiff iechyd meddwl ei drafod ymhellach isod yng nghyd-destun carcharorion, a Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru.

2.13 Carchardai a Sefydliadau Eraill ar gyfer Cadw Pobl sydd wedi'u Cyhuddo neu eu Heugfarnu o Droseddau

Fel y trafodwyd ym mharagraff 14 o'r prif adroddiad, Cyfarwyddiaeth Cymru Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi sy'n rheoli gweithrediad y chwe charchar sector cyhoeddus yng Nghymru o ddydd i ddydd. Mae'r Comisiwn Cyfiawnder yn nodi y caiff pob un o wasanaethau carchardai a phrawf Cymru eu harwain a'u rheoli gan gyfarwyddiaeth yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar Gymru gyda llinellau atebolrwydd cliri un uwch-reolwr. Mae'r trefniadau hyn wedi cyflawni mwy o gysondeb yng Nghymru rhwng gwasanaethau prawf a

gwasanaethau carchardai nag yn unrhyw le arall yn y DU. (Y Comisiwn Cyfiawnder: paragraff [4.228]).

Er gwaethaf y dull rhanbarthol hwn o ddarparu gwasanaeth carchardai a gedwir yn ôl, mae'n werth nodi cydnabyddiaeth y Comisiwn Cyfiawnder bod y 'cyfrifoldeb am y gwasanaethau sy'n mynd i'r afael ag *achosion troseddoldeb ac sy'n cefnogi adsefydlu* wedi ei ddatganoli' (Y Comisiwn Cyfiawnder: [4.208]) ac mae hyn yn cynnwys cymorth i garcharorion ac atal aildroseddu. Eithriad i gadw 'Carchardai a rheoli troseddwy' yn ôl yn Neddf Cymru 2017 yr ddarparu gofal iechyd, gofal cymdeithasol, addysg, hyfforddiant neu lyfrgelloedd. Trosglwyddwyd y cyfrifoldebau am addysg, hyfforddiant a gwasanaethau llyfrgell i'r Senedd am y tro cyntaf drwy Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau yn 2009. Trosglwyddwyd swyddogaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn 2003.

Mae'r adroddiad 'Justice at the Jagged Edge in Wales' yn benodol yn nodi bod maes gofal iechyd carcharorion yn cynrychioli set fwyaf sylweddol Llywodraeth Cymru o gyfrifoldebau i garcharorion yng Nghymru ('Justice at the Jagged Edge in Wales: tudalen 34). Ym mis Chwefror 2006, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ofal iechyd yng ngarchardai'r sector cyhoeddus yng Nghymru o Lywodraeth Cymru i Fyrddau Iechyd Lleol. Ceir Cytundeb Partneriaeth ar gyfer iechyd mewn Carchardai yng Nghymru, sy'n amlinellu blaenoriaethau y cytunwyd arnynt rhwng Llywodraeth Cymru, y Byrddau Iechyd Lleol ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r Cynllun Cyflawni Iechyd mewn Carchardai yn sail i'r Cytundeb Partneriaeth; yn ymarferol dim ond mewn partneriaeth â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi y gellir cyflawni hyn.

Mae Rhan 11 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau ar Awdurdodau Lleol sydd â charchar o fewn eu ffiniau fel bod dyletswydd i gynnal asesiad o'r anghenion am ofal a chymorth a chymryd camau i'w diwallu lle bo'n briodol os yw'n ymddangos i Awdurdod Lleol y gallai fod gan oedolyn yn y carchar yn ei ardal anghenion o'r fath.

Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn gosod gofynion ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd meddwl i garcharorion yng Nghymru. Fe wnaeth 'Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niwed Cymru 2015-2020' Llywodraeth Cymru nodi bod carcharorion yn grŵp risg uchel a bod carchardai'n fannau blaenoriaeth lle y dylid cyfeirio gwasanaethau atal hunanladdiad yn benodol.

Mae Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd wedi cynnal ymchwiliad 'Darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol ar yr ystâd carchardai i oedolion', sy'n cael ei drafod ym mharagraff 14 o'r prif adroddiad.

Ym mis Gorffennaf 2019 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi 'Strategaeth Dysgu a Sgiliau ar gyfer Carchardai yng Nghymru' i wella llesiant carcharorion yn ystod eu dedfrydau ac unwaith y cânt eu rhyddhau, a rhoi'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddatgloi eu potensial, ennill cyflogaeth gynaliadwy a'i chadw. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu ac yn ariannu'r ddarpariaeth dysgu a sgiliau mewn carchardai i oedolion yng Nghymru drwy femorandwm cyd-ddealltwriaeth gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi.

Llywodraeth Cymru a'r Senedd sy'n gyfrifol am anghenion carcharorion o ran tai. Yn arbennig, fe wnaeth Gorchymyn Personau Digartref (Angen Blaenoriaethol) (Cymru) 2001 ehangu categori'r rhai yr ystyrir bod ganddynt 'angen blaenoriaethol' at ddibenion cymorth digartrefedd i gynnwys cyn-garcharorion sy'n ddigartref ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Ers hynny, mae Deddf Tai (Cymru) 2014 wedi cael ei beirniadu'n fawr am ddileu'r categori 'angen blaenoriaethol' awtomatig ar gyfer carcharorion. Nid yw'n ymddangos bod hyn yn cyd-fynd â pholisi ehangach Llywodraeth Cymru ynghylch amddiffyn pobl sy'n agored i niwed. Yn 2015, fe wnaeth Llywodraeth Cymru lansio Llwybr Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Digartrefedd i Blant, Pobl Ifanc ac Oedolion mewn Sefydliadau Diogel (a werthuswyd gan Madoc-Jones et al yn 2018). Mae Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru hefyd wedi pwysleisio bod cyn-garcharorion yn grŵp pwysig fel rhan o ymdrechion ehangach i ddarparu cymorth ariannol i bobl sy'n agored i niwed.

2.14 Rheoli Pobl sydd wedi'u Cyhuddo neu eu Heuogfarnu o Droseddau

Mae llawer o weithgareddau sy'n ymwneud â rheoli troseddwr ac aildroseddu yn faterion a gedwir yn ôl. Fodd bynnag, fel y mae adroddiad 'Justice at the Jagged Edge in Wales' yn nodi, mae'r gweithgareddau hyn yn creu galw ar wasanaethau cyhoeddus. Mae'r polisi carchardai cyffredinol wedi'i ddatganoli, ac mae Llywodraeth Cymru yn ceisio dilyn ei pholisiau ei hun sy'n canolbwyntio ar bobl ifanc a menywod (trafodir y ddau fater yn fanylach isod).

Mae amryw strategaethau a fframweithiau aildroseddu wedi cael eu llunio mewn partneriaeth rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Llywodraeth Cymru. Fel mae paragraff 29 o'r prif adroddiad yn trafod, roedd y Comisiwn Cyfiawnder braidd yn feirniadol o'r dulliau monitro perfformiad a sicrhau atebolrwydd o dan y strategaethau hyn.

Mae Rheoli Integredig Troseddwr Cymru yn gorff ymbarél sy'n cefnogi partneriaid i fabwysiadu dull cydgysylltiedig o reoli troseddwr. Mae corff ehangach Rheoli Integredig Troseddwr Cymru a Lloegr wedi canolbwyntio'n draddodiadol ar droseddwr difrifol ac ad-droseddwr, ond mae Rheoli Integredig Troseddwr Cymru bellach yn cael ei ymestyn yng Nghymru i grwpiau blaenoriaeth eraill a nodwyd ar y cyd gan asiantaethau partner. Mae'n nodi bod anghenion cymhleth yr unigolion hyn yn fwyaf tebygol o gael eu diwallu gan asiantaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd ac yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau lleol. Mae Rheoli Integredig Troseddwr Cymru yn atebol i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan ac mae'n cael ei arwain gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru a Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, gyda chynrychiolaeth gan ystod eang o bartneriaid cyfiawnder troseddol a chymdeithasol, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae Rheoli Integredig Troseddwr Cymru yn gyfrifol am gefnogi a hwyluso'r gwaith cydgysylltiedig o ddatblygu a darparu rheolaeth integredig i droseddwr ledled Cymru, gan gynnwys goruchwyllo rhaglen waith Rheoli Integredig Troseddwr Cymru. Mae hyn yn cynnwys 'Grŵp Llwybrau Lleihau Aildroseddu', 'Bwrdd Rheoli'r Rhaglen' a 'Grwpiau Rhanbarthol', sydd wedi'u sefydlu'n unol ag ardaloedd heddluoedd Cymru. Un o gyfrifoldebau allweddol y Grwpiau Rhanbarthol yw datblygu a chytuno ar Gynlluniau Cyflawni Rhanbarthol, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r Fframwaith i Gefnogi Newid Cadarnhaol i'r rhai sydd mewn Perygl o Aildroseddu yng Nghymru 2018-2023 a blaenoriaethau allweddol a nodwyd gan y Partneriaethau Diogelwch Cymunedol lleol.

2.15 Troseddau gan Fenywod

Yn dilyn cynllun peilot rhwng 2014 a 2017 mewn chwe ardal awdurdod lleol a ddargyfeiriodd 1,400 o fenywod o'r system cyfiawnder troseddol, bydd prosiect o'r enw 'Cynllun Braenaru Merched' yn parhau i weithio gyda'r heddlu, Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a Llywodraeth Cymru i gyflwyno model darparu gwasanaethau dull system gyfan ar draws rhagor o ardaloedd yr heddlu.

Yn 2019, fe wnaeth Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gyhoeddi glasbrint ar gyfer Troseddwr Benywaidd.

Mae Rheoliadau'r Dreth Gyngor (Gweinyddu a Gorfodi) (Diwygio) (Cymru) 2019 wedi dileu'r gosb o garchar am beidio â thalu'r dreth gyngor, a oedd yn cael effaith anghymesur ar fenywod. Mae hwn yn gyfle prin i ddylanwadu ar bolisi dedfrydu, sy'n cyd-fynd â chyfrifoldeb datganoledig Llywodraeth Cymru am y dreth gyngor.

2.16 Gwasanaeth Prawf

Rhaid deall y gwasanaeth prawf yng Nghymru yn erbyn diwygiadau Llywodraeth y DU. Yn 2014, rhannwyd y broses o ddarparu gwasanaethau prawf yn ddwy; Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol. Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol oedd i fod yn gyfrifol am droseddwr risg uwch, gyda'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cael eu contractio i weithio gyda throseddwr risg isel neu ganolig. Roedd y contract rhwng Llywodraeth y DU a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn cynnwys elfen o daliad yn ôl canlyniadau.

Yng Nghymru ceir un Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (yn rhan o Wasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi) ac un Cwmni Adsefydlu Cymunedol, sef 'adran Cymru o Gwmni Adsefydlu Cymunedol Caint, Surrey a Sussex'. Yn 2015, rhoddwyd cyfrifoldeb i'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol am ddarparu gwasanaethau ailsefydlu i garcharorion 12 wythnos cyn eu rhyddhau i'w paratoi ar gyfer ailymuno â'r gymuned (gelwir hyn yn gymorth Trwy'r Porth). Mae'r set o ddiwygiadau Trawsnewid Adsefydlu (creu'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol) wedi cael ei beirniadu'n hallt, gyda'r Comisiwn Cyfiawnder yn datgan, yn gryno, ei bod yn deg dweud bod y diwygiadau wedi methu.

Y camau sy'n cael eu cymryd i unioni'r sefyllfa yw, pan ddaw contract presennol Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru i ben (ddiwedd 2020), y bydd y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yng Nghymru yn cymryd cyfrifoldeb am reoli pob troseddwr, a bydd staff perthnasol yn trosglwyddo i'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol. Trafododd y Senedd y mater hwn o ddiwygio'r gwasanaeth prawf ar 23 Hydref 2018 a derbyniodd Gynnig NDM6831 fel y'i diwygiwyd:

Yn nodi cynigion ar gyfer Diwygio Gwasanaethau Prawf yng Nghymru. Yn nodi y bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrofiannaeth EM yng Nghymru yn adeiladu ar y trefniadau unigryw sydd ganddo eisoes yng Nghymru drwy ei gyfarwyddiaeth carchardai a phrofiannaeth sefydledig, i adlewyrchu cyfrifoldebau datganoledig Llywodraeth Cymru yn well ac adeiladu ar bartneriaethau lleol presennol. Yn cytuno â Chymdeithas Genedlaethol y Swyddogion Prawf bod preifateiddio gwasanaethau prawf wedi bod yn

fethiant. Yn galw am ddatganoli cyfiawnder troseddol i Gymru er mwyn creu gwasanaeth prawf a gaiff ei gynnal yn gyhoeddus sy'n gwasanaethu buddiannau ein cymunedau.

Hefyd, mae disgwyl i Loegr ddilyn yr esiampl a throsglwyddo swyddogaethau yn ôl i'r sector cyhoeddus pan fydd y contractau cyfredol yn dod i ben. Hefyd, cyhoeddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder lasbrint gweithredu drafft ar gyfer model arfaethedig y Gwasanaeth Prawf ym mis Mehefin 2019. Ei nod yw ailintegreiddio'r gwaith o reoli troseddwr yn y gymuned fel cyfrifoldeb i un sefydliad. Mae'n pwysleisio pa mor ganolog bwysig yw'r swyddogaeth rheoli troseddwr i effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol o ran adsefydlu troseddwr. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn Cyfiawnder, ac Aelodau o'r Senedd yn y Cyfarfod Llawn, wedi mynegi pryder am y trefniadau newydd, gan gynnwys y swyddogaeth gydgyssylltu ranbarthol a thendro cystadleuol/gosod ymyriadau adsefydlu ar gontract allanol (gweler e.e. y Comisiwn Cyfiawnder: paragraff [4.239.3]).

O gymharu ystadegau aildroseddu ac adroddiadau arolygu amrywiol, fe wnaeth y Comisiwn Cyfiawnder nodi nifer o ddiffygion yng Ngwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru, ac fe wnaeth argymhell diwygiadau, gan gynnwys y dylai canlyniadau gael eu mesur yn fwy llym yn rheolaidd a'u cyhoeddi.

3. Cyfiawnder Ieuentid

Mae'r system cyfiawnder ieuentid yn gorgyffwrdd â chyfrifoldebau datganoledig ym meysydd addysg, hyfforddiant a llywodraeth leol. Fodd bynnag, mae adran 37 i 42 o Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998 sy'n ymwneud â chyfiawnder ieuentid yn cael eu cadw'n ôl yn benodol. Mae'r system cyfiawnder ieuentid yn ymwneud â phobl ifanc rhwng 10 ac 17 oed sy'n cyflawni troseddau neu sydd mewn perygl o droseddu. Ar hyn o bryd, caiff cyfiawnder ieuentid ei oruchwylio gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid, corff cyhoeddus anadrannol gweithredol a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid Aelod o'r Bwrdd ar gyfer Cymru, a hefyd ceir Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid Cymru sy'n hwyluso cydweithredu rhwng gwasanaethau datganoledig a gwasanaethau'r DU. Ceir dau gorff arall: Panel Cynghori ar Gyfiawnder Ieuentid Cymru sy'n adrodd i Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan, a Bwrdd Gwaith Ieuentid Dros Dro Cymru, a fydd yn gweithredu tan oddeutu diwedd 2020 i gefnogi'r gwaith o ddatblygu strategaeth gwaith ieuentid newydd a rhoi cyngor i Weinidogion Cymru.

Roedd Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn darparu i bob awdurdod lleol yng Nghymru a Lloegr sefydlu Timau Troseddau Ieuentid.

Mae'r Comisiwn Cyfiawnder yn nodi mai'r rhesymeg dros wasanaethau troseddau ieuentid yw cynnig 'datrysiadau cydgysylltiedig' i 'broblemau cydgysylltiedig' a bod 'lefel hirsefydledig o ddatblygiad polisi ar y cyd ar gyfiawnder ieuentid yng Nghymru' (Y Comisiwn Cyfiawnder: [4.183]). Datblygwyd Strategaeth Troseddwr Ifanc Cymru Gyfan gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuentid a Llywodraeth Cymru yn 2004, gyda gwaith pellach yn cynnwys strategaeth ar y cyd Plant a Phobl Ifanc yn Gyntaf yn 2014 i wella canlyniadau i bobl yng Nghymru sydd mewn perygl o fod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuentid, neu sydd yn y system cyfiawnder ieuentid. Cyhoeddwyd glasbrint cyffredinol arall ynghylch cyfiawnder ieuentid ym mis Mai 2019.

4. Cyfiawnder Gweinyddol

Man cychwyn ar gyfer cyfiawnder gweinyddol yw'r diffiniad a ddarparwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007. System cyfiawnder gweinyddol yw:

The overall system by which decisions of an administrative or executive nature are made in relation to particular persons, including – (a) the procedures for making such decisions, (b) the law under which such decisions are made, and (c) the systems for resolving disputes and airing grievances in relation to such decisions.

Diddymwyd y diffiniad hwn pan gafodd y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd ei ddiddymu, ond mae'n dal i fod yn addas. Ceir esboniadau eraill o ehangder cyfiawnder gweinyddol yng ngwaith Sefydliad Cyfiawnder Gweinyddol y DU a Chyngor Cyfiawnder Gweinyddol y DU, yn ogystal ag mewn gwaith ymchwil academiaidd ac ombwdsmyrn.

Byddai gwaith mapio manwl o gyfiawnder gweinyddol fel y mae'n ymwneud â Chymru (materion wedi'u datganoli a materion a gedwir yn ôl fel ei gilydd) yn gofyn am roi cyfrif o weithdrefnau cyfraith a gwneud iawn ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd cymhwysedd datganoledig yng Nghymru, ynghyd â chyfrif o'r rhyng-weithredu rhyngddynt, a chyfrif manwl o bolisi Llywodraeth y DU a chymhwysedd San Steffan ar draws yr holl feysydd gweinyddiaeth gyhoeddus nad ydynt wedi'u datganoli. Gan nodi cymhlethdod ac ehangder hyn, mae ymchwilwyr wedi dechrau 'mapio' system Cymru ar sail sectoraidd, gan ddechrau gyda thai a digartrefedd, ac addysg gynradd ac uwchradd a gynhelir. Mae adroddiadau cryno'r ymarferion mapio hynny wedi'u cyflwyno i Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad y Senedd mewn tystiolaeth. Mae'r 'map' presennol yn canolbwyntio ar enghreifftiau o weithgareddau allweddol mwy cyffredinol ym maes cyfiawnder gweinyddol.

4.1 Polisi Cyfiawnder Gweinyddol

Mae Llywodraeth y DU wedi datblygu polisiau a rhaglenni gwaith ym maes cyfiawnder gweinyddol a thribiwnlysoedd ac wedi ceisio'u gweithredu. Y rhaglen gyffredinol olaf yw Rhaglen Waith Strategol ar gyfer 2013-16. Drwy'r gwaith hwn, cafodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ei llywio gan Fforwm Cyfiawnder Gweinyddol (sydd wedi'i ddiddymu ers hynny) a oedd yn cynnwys (o safbwynt Cymreig) gynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, o'r Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yng Nghymru (sydd hefyd bellach wedi'i ddiddymu) ac academyddion.

Mae mentrau allweddol ym maes cyfiawnder gweinyddol yn cynnwys rhaglen ddiwygio Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, sydd â'r nod o ddod â thechnoleg newydd i'r ffordd o weinyddu cyfiawnder. Ymhlith y gweithgareddau penodol ym maes cyfiawnder gweinyddol mae cynlluniau peilot i gynyddu digideiddio gwahanol dribiwnlysoedd sy'n ymdrin â chyfraith weinyddol gyhoeddus, gan gynnwys yn benodol y tribiwnlysoedd haen gyntaf ym maes nawdd cymdeithasol a chynnal plant, a mewnfudo a lloches. Mae'n ddigon posibl y bydd digideiddio'r tribiwnlysoedd hyn yn cael effaith benodol ar hawllywyr sydd yng

Nghymru, ac mae barnwyr tribiwnlysoedd sydd â phrofiad o wrando achosion yng Nghymru, a hawlwr o Gymru, wedi bod yn rhan o'r broses o ddatblygu a threialu'r diwygiadau hyn.

Yn ymarferol, mae apeliadau gan dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru naill ai i dribiwnlysoedd neu lysoedd Cymru a Lloegr, felly hyd yn oed pan fo elfennau allweddol o wneud iawn wedi'u datganoli i Gymru, gall cadw'r llysoedd a'r tribiwnlysoedd uwch yn ôl gael effaith. Fel y dangosir yn Atodiad Tri, yr Arglwydd Ganghellor sy'n gwneud rhai penodiadau i dribiwnlysoedd datganoledig Cymru.

Fel yr archwiliwyd yn adroddiadau ymchwil cymrodoriaeth y Senedd gan Nason, bu cryn bryder ymysg rhanddeiliaid cyfiawnder gweinyddol nad yw Llywodraeth y DU bellach yn mabwysiadu dull cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr o ymdrin â chyfiawnder gweinyddol (gan edrych ar y gyfraith, gwneud iawn a dysgu i wella'r system), a bod mesurau gwneud iawn yn gynyddol yn cynnwys prosesau biwrocraidd fel adolygiad gweinyddol mewnol (yn enwedig ailystyried gorfodol ym meysydd mewnffudo a nawdd cymdeithasol) lle mae mynediad at dribiwnlys annibynnol wedi'i dynnu'n ôl neu ei gyfyngu.

Agwedd ar gyfiawnder gweinyddol sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru, ochr yn ochr â llysoedd a thribiwnlysoedd a gedwir yn ôl, yw rôl yr Ombwdsmon Seneddol a Gwasanaethau Iechyd (i bobl yng Nghymru sy'n dymuno cwyno am drefniadau gweinyddu cyrff Llywodraeth y DU).

Mae gwahanol Bwyllgorau San Steffan yn craffu ar bolisi a deddfwriaeth cyfiawnder gweinyddol Llywodraeth y DU, yn arbennig y Pwyllgor Cyfiawnder a'r Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol.

I bob pwrpas, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am bolisiau cyfiawnder gweinyddol mewn perthynas â phob maes gweinyddiaeth gyhoeddus ddatganoledig (ac eithrio rôl y llysoedd, tribiwnlysoedd a gedwir yn ôl a chymorth cyfreithiol).

4.2 Cyfraith Weinyddol gyhoeddus

Dywedodd y Comisiwn Cyfiawnder mai cyfraith weinyddol sylwedd yw'r maes lle mae cyfraith Cymru wedi ymwahanu fwyaf oddi wrth gyfraith Lloegr, a lle mae'r posibilrwydd mwyaf ar gyfer ymwahanu pellach, ac yn ymarferol mae graddau'r 'ffin amrwd' mewn perthynas â chyfraith weinyddol a chyfiawnder gweinyddol yn amrywio ar draws meysydd pwnc gweinyddiaeth gyhoeddus.

Prif faes cyfraith weinyddol gyhoeddus nad yw wedi'i datganoli yw egwyddorion cyffredinol cyfraith weinyddol sydd wedi datblygu'n bennaf drwy adolygiad barnwrol (sy'n fater a gedwir yn ôl). Mae egwyddorion adolygiad barnwrol wedi datblygu fel rhan o gyfraith gyffredin Cymru a Lloegr, ac mae'r weithdrefn adolygiad barnwrol yn rhan o ddeddfwriaeth Cymru a Lloegr (Deddf Uwchlysoedd 1981) ac yn y Rheolau Trefniadaeth Sifil. Fel y trafodir isod, mae'r Llys Gweinyddol, y Rheolau Trefniadaeth Sifil a chyfraith achosion, gyda'i gilydd, yn pennu rhagdybiaeth y dylid cyhoeddi a gwrando hawliadau adolygiad barnwrol sy'n ymwneud â diffynydion cyrff cyhoeddus Cymru yng Nghymru (ond mae modd mynd uwchben y rhagdybiaeth hon). Er bod system gyfreithiol Cymru a Lloegr fel y cyfryw yn un awdurdodaeth a bod yr apêl derfynol i Oruchaf Lys y DU, gellir awgrymu y gallai egwyddorion cyfraith gyffredin

cyffredinol cyfraith weinyddol ddatblygu mewn fformat unigryw neu wedi'i addasu yn sgil deddfwriaeth Gymreig sy'n effeithio ar weinyddiaeth gyhoeddus (yn enwedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)), ond hyd yma nid oes unrhyw dystiolaeth o hyn mewn dyfarniadau a adroddwyd.

Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 hefyd yn cyflwyno sail benodol o hawliad cyfraith gyhoeddus (o dan adran 6) am dorri dyletswyddau cyrff cyhoeddus i gydymffurfio â hawliau Siarter Hawliau Dynol Ewrop a ymgorfforir gan Ddeddf 1998. Rhaid i'r Senedd a Llywodraeth Cymru gydymffurfio â Siarter Hawliau Dynol Ewrop, ond nid yw arsylwi a gweithredu rhwymedigaethau rhyngwladol, gan gynnwys o dan Siarter Hawliau Dynol Ewrop, yn fater a gedwir yn ôl.

4.3 Egluro, Cydgrynhoi a Chodeiddio Cyfraith Cymru, ac Ymwybyddiaeth Ohoni a Mynediad ati

Mae gwaith y Senedd mewn perthynas ag ymwybyddiaeth o gyfraith Cymru a mynediad ati o bwys canolog i gyfraith weinyddol. Mae'r Senedd wedi pasio Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019 ac mae'n parhau i graffu ar gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer egluro, cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith Cymru, a chynigion i wella ymwybyddiaeth o gyfraith Cymru a mynediad ati. Un o feysydd allweddol cyfraith weinyddol Cymru y cynigir eu codeiddio yw cyfraith cynllunio. Mae'r enghraifft hon hefyd yn dangos rhyngweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Gyfraith. *Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gymwys yng Nghymru* oedd prosiect allweddol cyntaf Comisiwn y Gyfraith sy'n benodol i Ghymru, a chyfraith cynllunio oedd ei ail.

Mae Comisiwn y Gyfraith hefyd yn argymhell bod cod cynllunio newydd yn cael ei greu ar gyfer Cymru, sy'n gynhwysfawr ond yn symlach. Mae'r Comisiwn wedi dadansoddi ymatebion i'w bapur ymgynghori, ac wedi llunio adroddiad terfynol, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ac a osodwyd yn Senedd y DU a Senedd Cymru ym mis Rhagfyr 2018. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ymateb interim ym mis Mai 2019. Bydd gwaith craffu y Senedd ar y broses hon yn bwysig.

Mae ymchwil newydd Nason et al i dai cymdeithasol a digartrefedd, ac addysg gynradd ac uwchradd a gynhelir, yn dod i'r casgliad y byddai'r ddau faes o'r gyfraith yn elwa o eglurhad a chydgrynhoi, a chodeiddio o bosibl, yn y tymor hwy. Yn y ddau faes, mae'r gyfraith yn parhau i ledaenu ar draws ffynonellau Gymreig, a ffynonellau Cymru a Lloegr, gwneir camgymeriadau'n rheolaidd gan y rhai sydd â'r dasg o gymhwyso'r gyfraith, weithiau nid yw mecanweithiau gwneud iawn yn glir, ac yn aml ymddengys nad oes cyfiawnhad dealladwy ynghylch pam y mae rhai mathau o wneud iawn ar gael mewn perthynas â rhai dyletswyddau, ond nid rhai eraill. Maes arall y mae hefyd angen ei gydgrynhoi, ond nad yw Nason et al wedi'i drafod yn fanwl, yw gofal cymdeithasol/cymunedol.

Mae sylwebwyr wedi argymhell y dylid mynd ati yn y pen draw i lunio Cod Cyfraith Weinyddol neu Weithdrefn Weinyddol i Gymru (yn unol â'r rhan fwyaf o awdurdodaethau cyfreithiol sydd â rhyw fath o ddeddfwriaeth gweithdrefn weinyddol – mae Cymru a Lloegr braidd yn anarferol yn hyn o beth). Byddai hyn yn cynnwys egwyddorion o ran gwneud penderfyniadau gweinyddol cyhoeddus a ddylai fod yn gymwys yn gyffredinol i bob awdurdod datganoledig yng Nghymru, yn niffyg unrhyw amrywiadau sy'n benodol i feysydd pwnc.

Mae'r Senedd yn craffu'n fwy cyffredinol ar gynigion i wella hygyrchedd y gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru (sef cyfraith weinyddol yn bennaf), a hynny drwy ailwampio gwefan Cyfraith Cymru a gwaith rhwng Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r Archifau Gwladol. Mae craffu ar y broses hon yn hollbwysig, yn enwedig mewn perthynas â chyflwyno'r gyfraith yn ddigidol.

4.4 Cyfraith Weinyddol Gyffredinol Cymru

Dywedodd y Comisiwn Cyfiawnder y canlynol:

Mae gan Gymru bolisiau clir a phellgyrhaeddol ynghylch cenedlaethau'r dyfodol, cynaliadwyedd a safonau rhyngwladol ar hawliau dynol. Fodd bynnag, nid yw'r rhain wedi'u hintegreiddio â'r system gyfiawnder. Nid yw'r fframwaith cyfreithiol nodedig a ddatblygir i ategu'r polisiau hyn, gan gynnwys creu swyddogion cyhoeddus annibynnol sy'n gyfrifol am hyrwyddo a diogelu hawliau, yn gyson â'r system gyfiawnder (Y Comisiwn Cyfiawnder: [12.21]).

Mae'r polisiau hyn wedi arwain at ddeddfwriaeth (deddfwriaeth sylfaenol ac is-ddeddfwriaeth), canllawiau, codau ymarfer statudol ac anstatudol ac ati sy'n effeithio ar benderfyniadau strategol, gweithredol ac mewn rhai achosion y penderfyniadau dyddiol gan gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Fel y trafodwyd ym mharagraff 43 o'r prif adroddiad, erbyn 2014 roedd y llu o ddyletswyddau ar gyrff cyhoeddus (mewn deddfwriaeth a chanllawiau) eisoes wedi arwain y Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus i argymhell bod Llywodraeth Cymru a'r Senedd yn cynnal adolygiad. Nid oes adolygiad wedi'i gynnal eto, ond mae gwaith ymchwil gan Nason et al yn gwneud argymhellion pellach ynghylch yr hyn y gallai ei gynnwys, yn enwedig o gofio'r posibilrwydd o gydgrynhoi a chodeiddio gwahanol feysydd o gyfraith weinyddol Cymru.

4.5 Sefydliadau cyfiawnder gweinyddol: Sefydliadau Cyfiawnder Gweinyddol: Y Llys Gweinyddol yng Nghymru ac Adolygiad Barnwrol

Mae adolygiad barnwrol yn rhan hollbwysig o gyfraith trefniadaeth weinyddol Cymru sy'n ymwneud â hawliau, cydraddoldeb a chynaliadwyedd. Ym mhob achos lle nad oes hawl gyfreithiol benodol ar wyneb y deddfwriaeth, tybir wedyn y bydd modd gwneud iawn yn gyfreithiol drwy adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol.

Adolygiad barnwrol yw'r ateb diofyn a ddefnyddir ar gyfer cyfraith weinyddol gyffredinol, ond fe'i defnyddir hefyd mewn meysydd o gyfraith weinyddol sy'n ymwneud â phynciau penodol. Er enghraifft, mewn amryw feysydd yn ymwneud â deddfwriaeth tai cymdeithasol a digartrefedd yng Nghymru, nid oes hawl benodol i wneud iawn naill ai drwy adolygiad gweinyddol mewnol nac apêl mewn llys sirol neu dribiwnlys, ac felly adolygiad barnwrol yw'r unig opsiwn sydd ar gael. Mae hyn hefyd yn wir mewn perthynas â rhai polisiau, strategaethau a phenderfyniadau o dan gyfraith addysg Cymru (sef y maes arall sydd wedi'i fapio'n fanwl gan ymchwilwyr hyd yma).

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn gosod dyletswyddau newydd ar rai awdurdodau datganoledig yng Nghymru gan gynnwys awdurdodau lleol a

byrddau iechyd, sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithio i hybu llesiant y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt, a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt, gan gynnwys oedolion yn ogystal â phlant. Ni nodir llwybr cyfreithiol penodol i orfodi'r dyletswyddau hyn yn y ddeddfwriaeth ei hun, a'r unig lwybr gwneud iawn yn gyfreithiol yw'r opsiwn wrth gefn, sef adolygiad barnwrol. Mae'r Pwyllgor Cyngori Arbenigol Annibynnol ar gyfer yr adolygiad parhaus o gyfiawnder yng Nghymru yn nodi mai'r disgwyliad oedd y byddai gweithredu'r Ddeddf yn cael effaith fawr ar y llysoedd. Roedd y Pwyllgor yn synnu felly na chafwyd fawr ddim effaith ar y llysoedd, gan gymryd mai rhan o'r rheswm am hynny oedd y lefel uwch o hyfforddiant a roddwyd i farnwyr a chynghorwyr cyfreithiol (y Pwyllgor Annibynnol: paragraff [53]). Fodd bynnag, mae cryn dystiolaeth wedi bod ar gael ers amser am y diffyg mynediad i adolygiad barnwrol yng Nghymru, sy'n golygu nad yw'n syndod na fu fawr ddim effaith ar y llysoedd o ran cyfraith weinyddol. Efallai bod y Pwyllgor Cyngori Arbenigol Annibynnol yn ystyried dyletswyddau eraill o dan y Ddeddf yn ymwneud â'r penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol o ran plant sy'n derbyn gofal, ac yn benodol materion sy'n gyfyngedig i'r Llysoedd Teulu, ond ni nododd at ba faes cyfreithiol yr oedd yn cyfeirio nac at ba lysoedd.

Sefydlwyd Llys Gweinyddol yng Nghaerdydd yn 2009 (ond roedd rhywfaint o gyfleuster gweinyddol yn bodoli eisoes ar gyfer cychwyn achosion a chynnal gwrandawiadau yng Nghymru). Sefydlwyd Canolfan y Llysoedd fel rhan o gynigion y Gweithgor Barnwrol dros Gyfiawnder y tu allan i Lundain i ddatganoli adolygiad barnwrol yng Nghymru a Lloegr, gan olygu bod modd i achosion gael eu cychwyn a'u penderfynu'n lleol gyda'r nod o leihau costau ac anghyfleustra i gyfreithwyr 'rhanbarthol' a'u cyfreithwyr. Er bod rhesymau cyfansoddiadol ac ieithyddol dros ddatganoli'n benodol i Gymru (math o ranbartholi yn ôl continwwm Pritchard), nid dyna'r sail a nodwyd ar gyfer diwygio'r drefn. Roedd gwrthwynebiad cryf gan rai o aelodau'r farnwriaeth a swyddogion y llysoedd a oedd o'r farn y gellid cyflawni'r nod o wella mynediad at gyfiawnder gystal drwy ddefnyddio mwy o dechnoleg (rhestru electronig a gwrandawiadau drwy gysylltiad fideo ac ati).

Mae nifer yr adolygiadau barnwrol a gynhelir yng Nghymru, pwy sy'n cychwyn hawliadau a phwy sy'n eu hamddiffyn, yn cael eu trafod yn nes ymlaen yn y prif Adroddiad. O ran sylwedd cyfreithiol, mae'r llwyth achosion o ran adolygiadau barnwrol sy'n ymwneud â Chymru yn amrywio, ac yn aml yn cynnwys cyfuniad cymhleth o gyfraith a pholisi sydd wedi'u datganoli, a rhai sydd heb eu datganoli, sy'n berthnasol i'r hawliad penodol. Dangosodd dadansoddiad y Public Law Project a Nason o 82 o ddyfarniadau mewn adolygiadau barnwrol a gyflwynwyd gan Lys Gweinyddol Caerdydd dros gyfnod o wyth mlynedd mai dim ond mewn 26 o ddyfarniadau yr archwiliwyd deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau a wnaed gan y Senedd neu Weinidogion Cymru.

Dim ond cyfran fach o hawliadau adolygiad barnwrol sy'n cyrraedd gwrandawriad terfynol, ac mae nifer o'r rhai a dynnwyd yn ôl ar gamau amrywiol wedi arwain at negodi ateb o blaid yr hawlydd. Efallai y bydd llawer o hawliadau adolygiad barnwrol posibl hefyd yn cael eu datrys drwy ohebiaeth cyn achos neu drafodaethau anffurfiol cyn eu cychwyn. Mae enghreifftiau o hawliadau posibl yng Nghymru a gafodd eu terfynu ar ôl i gyrff cyhoeddus naill ai ildio'r pwynt cyfreithiol, neu, yn fwy aml, ymrwymo i ailfeddwl eu penderfyniad o blaid yr unigolyn heb ildio unrhyw wallau cyfreithiol o ran y penderfyniad gwreiddiol. Efallai bod yr hyn a ddysgwyd o'r heriau posibl hyn yn cael ei drosglwyddo drwy rwydweithiau cyrff cyhoeddus, ond nid yw

hynny'n digwydd mewn modd systematig ac nid yw'n digwydd mewn ffordd a fyddai'n cael ei chyfleu i amrywiaeth o bobl eraill (gan gynnwys unigolion) a allai gael eu heffeithio.

Cynigiodd y Comisiwn ar Gyfiawnder y dylai fod yn orfodol o dan y Rheolau Trefniadaeth Sifil i hawliadau yn erbyn cyrff cyhoeddus yng Nghymru sy'n herio cyfreithlondeb eu penderfyniadau gael eu cychwyn a'u gwranddo yng Nghymru, ac mae hyn yn cael ei drafod yn y prif Adroddiad ym mharagraffau 51-54.

Mae Barnwr Cyswllt Llys Gweinyddol Cymru yn swydd benodol a gyflawnwyd am y cyfnod hiraf gan Hickinbottom LJ a roddodd arweiniad ac a gyfrannodd at ddadleuon ar natur neilltuol cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru. O ran ei ragflaenwyr, nid oeddent yn y swydd am fwy nag ychydig flynyddoedd (gellir ystyried y swydd yn gam ar y ffordd i benodiad i'r Llys Apêl), ac ar y cyfan maent wedi tueddu i ymgysylltu llai â'r cyd-destun Cymreig penodol o ran darlithoedd a seminarau oddi ar y fainc.

4.6 Comisiynwyr Cymru

Comisiynydd y Gymraeg

Crëwyd Comisiynydd y Gymraeg gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ac mae gan ddeiliad y rôl ystod eang o swyddogaethau a phwerau sy'n ymwneud â hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Er mai rheoleiddiwr yw'r Comisiynydd yn bennaf, ceir amgylchiadau lle gall unigolion gwyno i'r Comisiynydd am achosion honedig o ddiffyg cydymffurfiaeth pan na fydd cyrff cyhoeddus yn bodloni gofynion iaith penodol, a gall unigolion gwyno am ymyriadau â'u hawl i ddefnyddio'r Gymraeg. Ni all unigolion herio cynnwys Safonau'r Gymraeg a ddatblygwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg yn uniongyrchol. Fodd bynnag, os bydd achwynydd o'r farn bod ymchwiliad y Comisiynydd i achos o gydymffurfiaeth â'i Safonau ei hun yn wallus, gall apelio i Dribiwnlys y Gymraeg.

Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg bŵer statudol penodol i 'gychwyn achos cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, neu ymyrryd mewn achos o'r fath, os yw'n ymddangos i'r Comisiynydd fod yr achos yn un sy'n berthnasol i fater y mae gan y Comisiynydd swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef' (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, adran 8(1)). Fodd bynnag, mae'r pŵer hwn yn amodol ar y cyfyngiad nad yw'n 'creu sail i achos'. Er nad yw effaith y cyfyngiad hwn wedi'i phrofi yn y llysoedd, fe allai beri rhwystr pan fo'r Comisiynydd yn ceisio datganiadau gan y llysoedd o ran y gyfraith cyn i'r Comisiynydd arfer y swyddogaeth y mae'r cwestiwn o ran y gyfraith yn ymwneud â hi. Caiff y Comisiynydd roi cymorth i unigolyn os yw'r person yn barti, neu os gall person ddod yn barti, i achos cyfreithiol gwirioneddol neu achos cyfreithiol posibl yng Nghymru a Lloegr sy'n berthnasol i fater y mae gan y Comisiynydd swyddogaeth mewn perthynas ag ef.

Mae rhai'n dadlau nad yw'r Comisiynydd yn ddigon annibynnol ar y Llywodraeth, gan mai Llywodraeth Cymru sy'n ei benodi, a'i fod hefyd yn rhwym yn gyfreithiol i fonitro cydymffurfiaeth y Llywodraeth â Safonau'r Gymraeg. Cynigiodd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru yn 2017 ddiwygiadau gyda'r nod o 'leihau biwrocratiaeth' a sicrhau 'gwerth am arian', gan obeithio sicrhau cydbwysedd mwy cymesur rhwng hyrwyddo'r Gymraeg a rheoleiddio cydymffurfiaeth â Safonau. Byddai hyn wedi diddymu Comisiynydd y Gymraeg a chreu Comisiwn y Gymraeg yn ei le. Byddai Llywodraeth Cymru wedi bod yn gyfrifol am greu a gosod

Safonau a byddai Comisiwn y Gymraeg yn gorfodi cydymffurfiaeth â'r Safonau ac yn hyrwyddo defnydd o'r iaith. Disgrifiwyd y diwygiadau fel cam yn ôl gan ymgyrchwyr iaith. Roedd posibilrwydd y gallent leihau hawliau unigol; yn gyntaf, drwy'r ddarpariaeth mai dim ond mewn achosion difrifol y dylai Comisiwn y Gymraeg ymchwilio i gwynion; yn ail, drwy lastwreiddio cynnwys y Safonau; ac yn drydydd, drwy gyflwyno gofyniad caniatâd ar gyfer rhai apeliadau i Dribiwnlys y Gymraeg.

Un dewis arall fyddai rhoi pŵer i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (sydd eisoes yn ymdrin â chwynion yn ymwneud â'r Gymraeg mewn perthynas â Chomisiwn y Senedd) ymdrin â phob cwyn yn ymwneud â'r Gymraeg, gyda Chomisiwn newydd y Gymraeg yn ymgymryd â rolau rheoleiddio a hyrwyddo.

Yn ei hymgyngoriad cynharach, gwrthododd Llywodraeth Cymru gynnig i ddeddfu er mwyn cynnwys yr hawl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn deddfwriaeth sylfaenol, a allai gael ei gorfodi drwy apêl uniongyrchol i Dribiwnlys y Gymraeg. Ystyriwyd y byddai'n rhy gostus, oherwydd diffyg sgiliau Cymraeg ymhlith y gweithlu; nodwyd y byddai rhestr faith o eithriadau yn 'anochel', gan gymhwyso'r hawl ar ffurf wannach neu ei hepgor yn llwyr. Nid yw'r cynigion diwygio wedi'u datblygu, ac yn sgil nifer o ymatebion i'r ymgynghoriad daeth Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol i'r casgliad nad oedd awydd am ddiwygiadau i'r system gyfan.

Mae Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y Senedd yn craffu ar waith Comisiynydd y Gymraeg o bryd i'w gilydd.

Comisiynydd Plant Cymru

Sefydlwyd Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru gan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae cylch gwaith y Comisiynydd wedi'i nodi yn Neddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (a oedd yn diwygio'r Ddeddf Safonau Gofal), ac mae Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 yn rhoi rhagor o fanylion. Prif nod y rôl yw diogelu a hyrwyddo hawliau a llesiant plant, ac wrth wneud hynny rhaid i'r Comisiynydd roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae gan y Comisiynydd Plant awdurdodaeth dros gyrrff cyhoeddus penodol yng Nghymru gan gynnwys awdurdodau lleol a byrddau ieuchyd.

Gall y Comisiynydd: adolygu'r effaith ar blant yn sgil arfer swyddogaethau neu arfer swyddogaethau arfaethedig, gan gynnwys Llywodraeth Cymru; adolygu a monitro trefniadau ar gyfer cwynion, chwythu'r chwiban ac eiriolaeth rhai cyrff cyhoeddus; rhoi cymorth i blentyn mewn rhai amgylchiadau a chyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru am faterion sy'n ymwneud â'r rôl pan nad yw'r pwerau perthnasol yn nwylo'r Comisiynydd. Gall y Comisiynydd ymchwilio i achos plentyn/plant penodol pan fydd y gŵyn yn gysylltiedig â materion sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau neu effaith arfer swyddogaethau corff cyhoeddus ar y plentyn/plant. Ni chaiff y Comisiynydd ymchwilio i gwynion unigol oni bai bod y sylwadau a wneir gan blentyn, neu berson arall ar ei ran, yn codi cwestiwn ynghylch egwyddor gyffredinol sy'n gymwys neu'n berthnasol yn ehangach i hawliau neu lesiant plant perthnasol. Ni chaiff y Comisiynydd adolygu nac ymchwilio i fater sy'n cael ei farnu ar hyn o bryd neu sydd wedi'i benderfynu gan lys barn neu dribiwnlys. Yn benodol, ni all y Comisiynydd weithredu mewn perthynas â'r materion a ganlyn: materion nad ydynt wedi'u datganoli (sy'n cynnwys mewnfudo a lloches, tlodi plant,

cyfiawnder a phlisma a phlant yn y lluoedd arfog); ni all y Comisiynydd weithredu pan fo'r Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) yn gallu gweithredu; ac ni all weithredu pan fo gan Weinidogion Cymru swyddogaethau mewn perthynas ag achosion teuluol.

Mae Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd yn craffu ar waith Comisiynydd Plant Cymru o bryd i'w gilydd.

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Diffinnir swyddogaethau Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru gan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006 a'r Rheoliadau cysylltiedig. Caiff y Comisiynydd adolygu'r ffordd y caiff buddiannau pobl hŷn eu diogelu a'u hyrwyddo pan fydd cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau, yn bwriadu cyflawni eu swyddogaethau neu'n methu â chyflawni eu swyddogaethau. Gall y Comisiynydd hefyd adolygu a yw trefniadau cyrff penodol o ran eiriolaeth, chwythu'r chwiban a chwynion yn effeithiol wrth ddiogelu a hyrwyddo buddiannau pobl hŷn perthnasol yng Nghymru, ac i ba raddau y mae hynny'n wir.

Gall y Comisiynydd Pobl Hŷn hefyd gynorthwyo person sydd, neu sydd wedi bod, yn berson hŷn yng Nghymru i wneud cwyn am gyrff cyhoeddus neu gyflwyno sylwadau i gyrff cyhoeddus. Mae cymorth yn cynnwys cymorth ariannol neu drefnu i berson gynghori, cynrychioli neu gynorthwyo person hŷn. Gall y Comisiynydd gynorthwyo person mewn achos cyfreithiol penodol ond ni chaiff adolygu nac archwilio mater sy'n cael ei farnu ar hyn o bryd neu sydd wedi'i benderfynu gan lys barn neu dribiwnlys. Dim ond pan fydd materion yn yr achos er budd ehangach pobl hŷn, ac nid dim ond yn berthnasol i un person hŷn penodol, y gall y Comisiynydd helpu mewn achos cyfreithiol. Caiff y Comisiynydd archwilio achos person hŷn yng nghyswllt mater sy'n effeithio ar fuddiannau grŵp ehangach o bobl hŷn, ac nid dim ond yr unigolyn dan sylw. Ar ôl cynnal archwiliad, rhaid i'r Comisiynydd lunio adroddiad, a chaiff wneud argymhellion.

Mae Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Senedd yn craffu ar waith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru o bryd i'w gilydd.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yng Nghymru

Rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yw hyrwyddo'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gofalu am fuddiannau cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, a chefnogi cyrff cyhoeddus i ystyried y tymor hir a gweithio tuag at gyflawni'r nodau llesiant. Mae gan y Comisiynydd swyddogaethau amrywiol i annog a hyrwyddo arfer da, gan gynnwys y ddyletswydd i fonitro ac asesu i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu hamcanion llesiant eu hunain a'r pŵer i gynnal adolygiadau a gwneud argymhellion. Rhaid i gyrff cyhoeddus sydd wedi bod yn destun adolygiad gymryd pob cam rhesymol i ddilyn y camau gweithredu a argymhellir gan y Comisiynydd oni bai eu bod yn fodlon bod rheswm da dros beidio â dilyn yr argymhelliad mewn categorïau penodol o achosion, os o gwbl, neu os yw'r corff cyhoeddus yn penderfynu ar gamau gweithredu amgen mewn perthynas â phwnc yr argymhelliad. Caiff Gweinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i gyrff cyhoeddus eraill am sut i

ymateb i argymhelliad a wneir gan y Comisiynydd, ac yna mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus eraill ystyried canllawiau o'r fath.

Mae Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau'r Senedd yn craffu ar waith Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o bryd i'w gilydd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Archwilydd Cyffredinol Cymru 'gynnal ymchwiliadau o gyrff cyhoeddus at ddibenion asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth a) gosod amcanion llesiant, a b) cymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny. Rhaid cynnal ymchwiliad mewn perthynas â phob corff cyhoeddus rhwng 2015 a 2020. Ar y llaw arall, nid oes dyletswydd ar y Comisiynydd i gynnal asesiadau, ac mae'r Comisiynydd wedi awgrymu bod anghysondeb o ran y swyddogaethau a ddyranwyd i'w swyddfa hi a'r rhai a roddwyd i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r dehongliad cyffredinol o gyfiawnder gweinyddol hefyd yn cynnwys swyddogaethau archwilio cyhoeddus a gyflawnir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

4.7 Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynnig 'siop un stop' ar gyfer cwynion yn erbyn cyrff cyhoeddus yng Nghymru. Enw ei gynllun corfforaethol ar gyfer 2019/20 yw 'Cyflawni Cyfiawnder', ac mae'n nodi mai cenhadaeth Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yw: 'I gadarnhau cyfiawnder a gwella gwasanaethau cyhoeddus.'

Ystyriodd y Comisiwn ar Gyfiawnder y berthynas rhwng Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r Llys Gweinyddol, a archwiliwyd yn flaenorol gan Gomisiwn y Gyfraith. Gwnaeth Comisiwn y Gyfraith dri argymhelliad: dileu'r gwaharddiad statudol (sy'n golygu na chaiff ombwdsmon ymchwilio i weld a allai unigolyn fod wedi ceisio, neu y gellid disgwyl yn rhesymol iddo fod wedi ceisio, ateb drwy lys, tribiwnlys neu ddull adolygu arall); rhoi'r pŵer i'r Llys Gweinyddol atal achos er mwyn i ombwdsmon gynnal ymchwiliad iddo; rhoi'r pŵer i ombwdsmon gyfeirio pwynt cyfreithiol i'r llysoedd. Cymeradwyodd y Comisiwn ar Gyfiawnder y ddau argymhelliad olaf. Mae Pwyllgor Cyllid y Senedd wedi ystyried dileu'r gwaharddiad 'statudol' ac roedd yn pryderu am oblygiadau newid y berthynas rhwng yr ombwdsmon a'r llys ar sail Cymru'n unig. Gallai hyn godi cwestiynau o ran cymhwysedd deddfwriaethol; byddai dileu'r gwaharddiad yn golygu diwygio deddfwriaeth ddatganoledig (Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2019 erbyn hyn) a byddai'n effeithio ar faterion a gadwyd yn ôl yn ymwneud â'r llysoedd ac adolygiad barnwrol o gamau gweinyddol. Fodd bynnag, efallai bod llai o sail i'r pryderon am gostau dull 'dau drac' (lle y mae gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ryw faint o awdurdodaeth gydredol â'r gangen gyfreithiol). Mae'n debyg mai prin y byddai awdurdodaeth gydredol yn cael ei defnyddio, ac y byddai'n cael ei defnyddio'n bennaf i gymhwyso arbenigedd i gadarnhau'r gyfraith, ynghyd â gwella safonau gweinyddiaeth gyhoeddus. Gallai hyn osgoi anghydfodau costus yn y dyfodol a sicrhau arbedion gweinyddol. Ni fyddai unrhyw faterion cymhwysedd deddfwriaethol yn codi wrth ddileu'r gwaharddiad statudol dim ond i'r graddau y mae'n ymwneud ag awdurdodaeth tribiwnlysoedd datganoledig Cymru, a drafodir ymhellach isod.

Cymeradwyodd y Comisiwn ar Gyfiawnder gynigion i'r Llys Gweinyddol allu 'atal' achos er mwyn i'r ombwdsmon ymchwilio iddo. Unwaith eto, gellid rhoi'r pŵer penodol hwn i'r

tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru (gan gynnwys drwy Fil Tribiwnlysoedd Cymru newydd – sy'n debygol o ddeillio o un o brosiectau cyfredol Comisiwn y Gyfraith). Yn ymarferol, mae'n debygol y gall y Llys Gweinyddol yng Nghymru ddefnyddio ei bwerau atal presennol i ganiatáu ar gyfer ymchwiliad gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru pe bai'r barnwr o blaid gwneud hynny. Ond daw Comisiwn y Gyfraith i'r casgliad, pe bai pŵer ffurfiol penodol newydd yn cael ei gyflwyno, y byddai angen newid Deddf Uwch Lysoedd 1981 a'r Rheolau Trefniadaeth Sifil, ac y gallai hyn godi cwestiynau yn ymwneud â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Yn yr un modd, byddai rhoi pŵer penodol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyfeirio pwynt cyfreithiol at y Llys Gweinyddol yng Nghymru yn bennaf yn gofyn am ddiwygio pwerau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ond byddai'n effeithio ar awdurdodaeth y Llys hefyd, ac mae Comisiwn y Gyfraith o'r farn y byddai angen newid y rheolau trefniadol ar adolygiadau barnwrol yn sgil hynny. O ran effaith empiraidd, prin y defnyddir enghreifftiau eraill o weithdrefnau cyfeirio cyfreithiol ffurfiol sydd wedi'u nodi mewn deddfwriaeth (e.e. rhai sy'n ymwneud ag anghydfodau o ran elusennau a phensiynau).

4.8 Tribiwnlysoedd

Rhoddodd Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 ddiffiniad statudol o system cyfiawnder gweinyddol. Ni fyddai llawer o werth i'r system honno ynddi ei hun heb greu'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd i'w goruchwyllo. Roedd hyn yn cynnwys Pwyllgor Cymreig â'r ddyletswydd statudol i oruchwyllo cyfiawnder gweinyddol fel y mae'n gymwys i Gymru, gan gynnwys y tribiwnlysoedd a weinyddir gan Lywodraeth Cymru. Roedd hyn yn gyfle i ddiffinio tribiwnlysoedd datganoledig sy'n gweithredu yng Nghymru o fewn strwythur cydgyfeiriol, ond llac a heb fod yn gynhwysfawr, yn seiliedig ar gylch gwaith statudol Pwyllgor Cymru. Mae tribiwnlysoedd datganoledig wedi bod wrth wraidd diwygio cyfiawnder, yn rhannol oherwydd mai hwy yw'r unig gyrrff barnwrol a weinyddir gan Lywodraeth Cymru, ond hefyd am fod hwn yn faes cyfiawnder lle mae rhywfaint o gonsensws rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, gan arwain at gynnwys darpariaethau ar gyfer Tribiwnlysoedd Cymru yn Neddf Cymru 2017. Trafodir tribiwnlysoedd Cymru ym mharagraffau 57-67 o'r prif Adroddiad.

Goruchwyliaeth y Senedd

Trafodir hyn yn y prif Adroddiad yn Adran 3.3 ac yn y ddau Adroddiad a luniwyd gan Nason fel rhan o Gymrodoriaeth Ymchwil Academaidd y Senedd.

Prosiect Comisiwn y Gyfraith ar Dribiwnlysoedd Cymru

Mae gan Gomisiwn y Gyfraith brosiect ar waith ym mlwyddyn 2020 sydd â chylch gwaith i ystyried y ffactorau a ganlyn:

- rolau Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru ac Uned Tribiwnlysoedd Cymru;
- penodi a disgyblu barnwyr y Tribiwnlys ac aelodau eraill;
- penodi Llywyddion/Dirprwyon;
- y pŵer i wneud ac i safoni rheolau trefniadol;
- y broses apelio;

- y broses gwyno;
- diogelu annibyniaeth farnwrol.

Rhagwelir y bydd y prosiect yn arwain at Fil Tribiwnlysoedd Cymru drafft a gaiff ei gynllunio i sicrhau bod gweithdrefnau'n cyrraedd lefel briodol o gydlynid a chysondeb.

4.9 Dulliau Gwneud iawn 'Ad Hoc'

Roedd gan y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yng Nghymru bryderon hefyd am y gwahanol ddulliau gwneud iawn 'ad hoc' a oedd wedi'u datblygu i ddatrys anghydfodau. Mae'r rhain yn ddulliau a sefydlwyd drwy ddeddfwriaeth a ddatblygwyd gan y Llywodraeth yn y Senedd, neu drwy bolisiau gweinyddol, ac maent yn ddulliau sydd â rhai nodweddion tribiwnlys ond nad ydynt, ac na fwriedir iddynt, fodloni'r un safonau â thribiwnlys o ran eu hannibyniaeth ar y Llywodraeth, eu strwythur, pa mor agored ydynt i graffu cyhoeddus a'u gweithdrefnau. Mae'r rhain wedi cynnwys:

- Adolygiad Annibynnol o Baneli Dyfarnu (Mecanwaith Adolygu Annibynnol Cymru)
- Cronfa Cymorth Dewisol Cymru
- Paneli Adolygiadau o Ofal Iechyd Parhaus

Mae rhai cynlluniau'n cael eu darparu gan Lywodraeth Cymru, ac mae eraill wedi'u contractio allan, gan gynnwys i gwmnïau preifat. Pryder y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yng Nghymru oedd bod risgiau'n gysylltiedig â sefydlu cynlluniau nad ydynt wedi'u seilio ar egwyddorion clir ac nad ydynt yn cydymffurfio â'r safonau gofynnol. Er bod y dulliau presennol wedi eu datblygu ar wahân ac mewn ffordd ad hoc, ymatebodd Llywodraeth Cymru eu bod yn ddigonol ar eu telerau eu hunain ac y byddai angen ymchwilio ymhellach i gostau a manteision dull mwy cydlynol o weithredu.

4.10 Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol y DU

Sefydlwyd Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol newydd yn 2017. Mae ei gylch gorchwyl yn nodi y bydd yn parhau i adolygu'r ffordd y mae system cyfiawnder gweinyddol y DU gyfan yn cael ei gweithredu, gan ystyried sut i'w gwneud yn fwy hygyrch, teg ac effeithlon, gan roi cyngor perthnasol i'r Arglwydd Ganghellor, gweinidogion eraill a'r farnwriaeth, rhannu'r hyn a ddysgir ac arfer da ledled y DU, gan ddarparu fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth rhwng y Llywodraeth, y farnwriaeth, ombwdsmyr, academyddion a sefydliadau sy'n gweithio gyda defnyddwyr y system cyfiawnder gweinyddol, i nodi meysydd a fyddai'n elwa o waith ymchwil, a gwneud cynigion ar gyfer diwygio. Dyma ystod eang iawn o amcanion i gorff sy'n cael cyllid cychwynnol o £15,000 - £20,000 y flwyddyn gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a £25,000 dros ddwy flynedd o ffynonellau elusennol (y Sefydliad Addysg Gyfreithiol) (bydd cyfraniad y Sefydliad Addysg Gyfreithiol yn cynyddu o 2020 ymlaen). O ystyried ei adnoddau prin, a'r ffaith ei fod yn dibynnu ar ewyllys da ei aelodau ar draws y prif Gyngor a phaneli unigol, mae gwaith y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol yn debygol iawn o gynnwys cyfraniadau at faterion penodol sy'n ymwneud â phynciau penodol, gan ganolbwyntio ar y meysydd hynny lle y mae aelodau o'r farn mai Llywodraeth ganolog (ac eraill) a fyddai fwyaf agored i weithredu'r gwaith ymchwil ac argymhellion perthnasol, neu o leiaf ymateb iddo. Er bod Prif gorff y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a'r Paneli Academaidd yn cynnwys aelodau o Gymru (o faes yr ombwdsmon, y

tribiwnlysoedd, polisi cyfiawnder a'r byd academiaidd), ni all y Cyngor gyflawni'r swyddogaeth o oruchwylio'n helaeth ar gyfiawnder gweinyddol yng Nghymru. Yn lle hynny, mae'n ceisio ystyried safbwyntiau, buddiannau a phryderon Cymreig yn benodol, mewn perthynas â themâu ehangach (fel y berthynas rhwng tribiwnlysoedd a'r ombwdsmon, a digideiddio tribiwnlysoedd).

5. Cyfiawnder Teuluol

Mae cyfiawnder teuluol yn ymdrin ag ystod eang o faterion gan gynnwys pryderon am blant, perthnasau sy'n chwalu a'r canlyniadau ariannol pan fydd perthnasau'n chwalu. Mewn cyfraith teulu yn gyffredinol mae gwahaniaeth rhwng materion cyfraith gyhoeddus (fel arfer yn ymwneud ag ymyrraeth awdurdod lleol i ddiogelu plant) a materion cyfraith breifat (ymdrin â pherthnasau a pherthnasau sy'n chwalu, gan gynnwys pan na fydd rhieni, gwarcheidwaid neu ofalwyr eraill yn gallu cytuno ar y trefniadau ar gyfer eu plant). Mae cyfraith a chyfiawnder teuluol preifat ac wedi'u cadw yn ôl, a'r Llys Teulu sy'n gyfrifol am ddatrys anghydfodau a datblygu'r broses gyfreithiol, o dan arweiniad Llywydd yr Is-adran Teuluoedd.

Roedd tystiolaeth Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn pwysleisio bod y cynllun datganoli presennol wedi arwain at rannu cyfrifoldebau a materion cysylltiedig o fewn y system cyfiawnder teuluol, a all achosi cymhlethdod a gwrthdaro. Gwnaed pethau'n waeth wrth i Gymru a Lloegr ymbellhau o'i gilydd a dilyn trywydd gwahanol o ran cyfiawnder teuluol a pholisi mewn meysydd datganoledig sy'n effeithio ar gyfiawnder teuluol (gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru a'r Mesur Hawliau Plant yn arbennig).

5.1 Sefydliadau arweiniol ym maes cyfiawnder teuluol

Mae'r angen am arweinyddiaeth ac atebolrwydd cryf ym maes cyfiawnder teuluol wedi bod yn amlwg ers cryn amser ac fe'i pwysleisiwyd yn 2011 mewn Adolygiad o gyfiawnder teuluol gan Syr David Norgrove, a gomisiynwyd ar y cyd gan Weinyddiaeth Gyfiawnder y Du, Adran Addysg y DU a Llywodraeth Cymru. Mewn ymateb i Adolygiad Norgrove, sefydlwyd Bwrdd Cyfiawnder Teuluol i bennu cyfeiriad a goruchwylio gwelliannau ar draws y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Mae'n cael ei gadeirio gan Weinidogion o Weinyddiaeth Gyfiawnder y DU a'r Adran Addysg, ac mae Llywydd yr Is-adran Teuluoedd yn mynd i'r cyfarfodydd fel sylwedydd. Mae cynrychiolwyr o Gymru yn cynnwys Prif Weithredwr Cafcass Cymru, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Nid oes cynrychiolwyr o blith Gweinidogion Cymru ac mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder o'r farn mai 'prif ffocws y Bwrdd a'r prif ddylanwad arno yw materion sy'n codi yn Lloegr'. (Y Comisiwn ar Gyfiawnder: paragraff [7.12]). Cefnogir y Bwrdd gan is-grwpiau gan gynnwys y Cyngor Cyfiawnder Teuluol (a gadeirir gan Lywydd yr Is-adran Teuluoedd, ac sy'n cynnwys aelodau o Gymru), y Bwrdd Pobl Ifanc Cyfiawnder Teuluol ac is-grŵp Gwella Perfformiad.

Mae Cymru wedi'i rhannu'n dair Ardal Cyfiawnder Teuluol Lleol, y mae gan bob un ohonynt Fwrdd Cyfiawnder Teuluol Lleol a Barnwr Teulu Penodedig. Yr ardaloedd yw (1) Gogledd Cymru; (2) Abertawe a De-orllewin Cymru; a (3) Caerdydd a De-ddwyrain Cymru. Mae aelod o Lywodraeth Cymru yn mynd i gyfarfodydd y Byrddau Cyfiawnder Teuluol Lleol yn ogystal â'r

Barnwr Teulu Penodedig (fel sylwedydd). Mae'r bobl eraill sy'n mynd i'r cyfarfodydd yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol a chyrrff datganoledig eraill.

Fel y trafodir yn y prif Adroddiad (paragraff [76]) mae Rhwydwaith Cyfiawnder Teuluol Cymru yn rhoi arweiniad yng Nghymru ac yn gyswllt â'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol. Mae'n cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Mae'r farnwriaeth yn mynd i gyfarfodydd (fel sylwedyddion) ac yn chwarae rhan bwysig.

5.2 Materion a Gedwir yn ôl yn Gyffredinol

Mae'r materion a gedwir yn ôl ym maes cyfiawnder teuluol yn cynnwys: geneteg ddynol, ffrwythloni dynol a threfniadau geni plant ar ran pobl eraill; cwmpas y Ddeddf Galluedd Meddyliol gan gynnwys amddifadu o ryddid; perthnasoedd teuluol gan gynnwys priodas, partneriaeth sifil, cyd-fyw ac ysgariad; y rhan fwyaf o agweddau ar y gyfraith sy'n ymwneud â phlant; achosion o dan Ran 4 neu 5 o Ddeddf Plant 1989 neu fel arall yn ymwneud â gofal a goruchwyliaeth plant. Yng ngoleuni'r materion niferus hyn a gedwir yn ôl, daw Ruth Henke QC i'r casgliad a ganlyn: 'The effect of devolution on family law in Wales has thus been incremental. It is also often tangential or hidden' (Henke, Cyflwyniad ynghylch cyfraith teulu yng Nghymru: paragraff [14]).

5.3 Mabwysiadu

Mae trefniadau plant a mabwysiadu yn faterion a gedwir yn ôl, ond mae eithriadau ar gyfer gwasanaethau a chyfleusterau sy'n ymwneud â mabwysiadu, asiantaethau mabwysiadu a'u swyddogaethau (ac eithrio swyddogaethau'r Awdurdod Canolog o dan Gonfensiwn yr Hag (ar ddiogelu plant a mabwysiadu trawswladol). Mae rheoleiddio gwasanaethau mabwysiadu wedi'i ddatganoli, yn ogystal â'r ddarpariaeth a'r cymorth ar gyfer lleoliadau mabwysiadu. Mae'r statud sylfaenol yn y maes hwn wedi'i gynnwys mewn deddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru a Lloegr o hyd (Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002), tra bod gwahaniaethau o ran y ddarpariaeth a'r dull gweithredu wedi'u cynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, canllawiau statudol a chodau a wnaed gan y Senedd a Gweinidogion Cymru.

5.4 Bod yn Rhiant a Disgyblu Plant gan Rieni

Mae bod yn rhiant a chyfrifoldeb rhiant yn faterion a gedwir yn ôl, fodd bynnag, mae disgyblu plant gan rieni yn eithriad ac felly wedi'i ddatganoli, ac mae hynny'n cynnwys yr hawl i roi cosb resymol i blentyn a smacio. Yn hyn o beth, mae'r Senedd wedi pasio Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020. Gwnaeth Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd graffu ar y gwaith hwn, ac fe'i trafodwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ar y pryd.

5.5 Gwarcheidiaeth Arbennig

Mae'r brif ddarpariaeth ar gyfer Gwarcheidiaeth Arbennig wedi'i chynnwys mewn deddfwriaeth sy'n gymwys i Gymru a Lloegr o hyd, ond mae'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a chymorth o dan orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig wedi'i ddatganoli a'i gynnwys mewn is-ddeddfwriaeth, canllawiau statudol a chodau sy'n berthnasol i Gymru.

5.6 Trais Domestig

Mae'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth trais domestig yn gyffredin i Gymru a Lloegr ac mae rhwymedïau sifil mewn perthynas â thrais domestig, cam-drin domestig ac anffurfio organau rhywiol menywod wedi'u cadw yn ôl. Fodd bynnag, fel y nodwyd uchod mewn perthynas â chyfiawnder troseddol, nod Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yw gwella ymateb y sector cyhoeddus i gam-drin a thrais yng Nghymru. Unwaith eto, bydd hyn yn effeithio ar y system cyfiawnder teuluol.

5.7 Iechyd Meddwl

Fel y nodwyd uchod mewn perthynas â chyfiawnder troseddol, mae gan Gymru rhywfaint o gyfraith a chanllawiau unigryw sy'n ymwneud ag iechyd meddwl. Mae Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yn rhedeg ochr yn ochr â Deddfau Iechyd Meddwl 1983 a 2007. Mae'r Deddfau hwyrach hyn yn ymwneud yn bennaf â phwerau gorfodol, yn enwedig derbyn cleifion i'r ysbyty a'u rhyddhau o'r ysbyty, ac mae Mesur 2010 yn ymdrin â'r cymorth y dylid ei roi yn gyffredinol i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru. Y bwriad yw sicrhau bod gwasanaethau iechyd meddwl yn canolbwyntio mwy ar anghenion pobl unigol. Mae'n ddigon posibl y bydd pryderon iechyd meddwl yn codi yn sgil anghydfodau ynghylch cyfraith teulu, gan gynnwys pan fydd gan rieni neu warcheidwaid neu ofalwyr eraill anghenion iechyd meddwl.

Mae'r Llys Gwarchod yn eistedd yng Nghymru a Lloegr, ac mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn gymwys, ynghyd ag un Cod statudol â rhai mân wahaniaethau a gyflwynwyd drwy is-ddeddfwriaeth. Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn gymwys yng Nghymru a Lloegr, fodd bynnag, cyhoeddwyd Codau statudol ar wahân. Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl datganoledig Cymru sy'n adolygu achosion yn ymwneud â chleifion a gedwir yn yr ysbyty neu gleifion sy'n byw yn y gymuned sy'n destun gorchymyn rhyddhau amodol, triniaeth neu warcheidiaeth gymunedol.

5.8 Iechyd

Ym maes gofal iechyd yn fras, mae ardal ddaearyddol Byrddau Iechyd Lleol Cymru yr un fath ag ardal y Byrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Oedolion a Phlant a sefydlwyd o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac mae deddfwriaeth Cymru yn darparu'n fwy cyffredinol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth a chydweithio o ran gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

5.9 Addysg

Mae addysg yn faes cymhwysedd datganoledig sy'n cydblethu â chyfraith teulu a gadwyd yn ôl. Er enghraifft, mewn perthynas ag addysg plant sy'n derbyn gofal. Mae'n werth nodi rôl Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (Tribiwnlys Addysg Cymru cyn bo hir) sy'n ymdrin ag apeliadau yn erbyn penderfyniadau penodol am blentyn neu berson ifanc a'i addysg, ac am ei rôl yn ymdrin â hawliadau am driniaeth annheg yn yr ysgol sy'n ymwneud ag anabled.

5.10 Lles Cymdeithasol a Llesiant

Mae amrywiaeth o agweddau ar les cymdeithasol, fel y'i dehonglir yn gyffredinol, wedi'u datganoli gan gynnwys amddiffyn plant a phobl ifanc a llesiant plant a phobl ifanc, gofalu am blant a phobl ifanc, a safonau gofal. Fodd bynnag, mae eithriadau mewn nifer o feysydd gan gynnwys cymorth i blant, budd-dal plant a chredydau treth, a nawdd cymdeithasol.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diddymu Rhan 3 o Ddeddf Plant 1989 mewn perthynas â Chymru, gan greu cynllun statudol newydd sy'n llywodraethu'r gwaith o ddarparu gofal cymdeithasol yng Nghymru a'r modd y caiff swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol eu cyflawni gan awdurdodau lleol.

5.11 Rhoi Plant mewn Gofal

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cynnwys darpariaethau penodol sy'n ymdrin â phwerau a dyletswyddau awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya. Trafodir y materion hyn yn y prif Adroddiad yn Adran 4.3.

5.12 Achosion Cyfraith Teulu

Mae Rheolau Trefniadaeth Teulu 2010 a gymhwysir gan y Llys Teulu yn berthnasol i Gymru a Lloegr, er bod y gyfraith yng Nghymru, fel y nodwyd eisoes, yn rhoi dyletswyddau sylweddol a threfniadol gwahanol ar y penderfyniadau a wneir gan gyrff cyhoeddus a'u gweithredoedd, yn enwedig mewn perthynas â phlant.

Mae llyfr Lexis Nexis, Family Court Practice (y cyfeirir ato hefyd fel y Llyfr Coch) yn cynnwys atodiad ar gyfraith Cymru sy'n esbonio'r gwahaniaethau rhwng cyfraith teulu yng Nghymru a Lloegr. Cyhoeddir gwahaniaethau hefyd yn Butterworths Family Law Service. O ran methiant pobl i werthfawrogi'r gwahaniaethau cyfreithiol o ran arfer, mae'n werth nodi nad diffyg deunyddiau cyfreithiol sydd ar fai, ond diffyg gwybodaeth gyffredinol bod agweddau ar gyfraith teulu wedi'u datganoli, ac nid yw pobl (gweithwyr proffesiynol ym maes y gyfraith a phobl leyg) wedyn yn sylweddoli bod angen ymchwilio i gyfraith benodol Cymru a'i chymhwyso (Y Comisiwn ar Gyfiawnder: [7.8]). Mae achosion cyfraith teulu wedi'u cadw i raddau helaeth ar wahân i'r materion a ganlyn:

- cyngor i lysoedd o ran lles, cynrychiolaeth a darparu gwybodaeth, cyngor a mathau eraill o gymorth i blant sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru a'u teuluoedd;
- cyngor i lysoedd mewn perthynas ag achosion teuluol a allai fod yn trafod lles plant sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru a chynrychiolaeth mewn perthynas ag achosion o'r fath;
- darparu cymorth (gan gynnwys gwybodaeth a chynngor) i blant sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru a'u teuluoedd mewn perthynas ag achosion o'r fath;
- swyddogion achosion teuluol yng Nghymru.

5.13 Cafcass Cymru a Swyddogion Achosion Teuluol

Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros y Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) i Lywodraeth Cymru yn 2004. Trafodir Cafcass ymhellach yn Adran 4.2 o'r prif Adroddiad.

Mae Swyddogion Achosion Teuluol Cafcass Cymru yn cynnwys Swyddog Adrodd y Llys Teulu a Gwarcheidwaid. Mewn achosion cyfreithiol dadleuol preifat sy'n ymwneud â phlant, penodir Swyddog Adrodd y Llys Teulu i adrodd i'r llys ar les y plentyn ac mewn rhai achosion i gynrychioli buddiannau lles y plentyn gerbron y llys. Mewn achosion cyfraith gyhoeddus bydd gan y plentyn/plant perthnasol Warcheidwad.

6. Cyfiawnder Sifil

I bob pwrpas, mae cyfraith sifil yn disgrifio'r gyfraith ac eithrio mewn perthynas â pherthnasoedd teuluol, troseddu a gwneud penderfyniadau gweinyddol. Y meysydd allweddol yn ymarferol yw cyfraith camweddau sifil a chyfraith contractau, sef materion lle na fu fawr ddim gweithgarwch datganoledig.

Y Ddeddf gyntaf y bwriedir iddi wneud newidiadau i gyfraith sifil sylwedd fydd Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 pan ddaw i rym.

Ym maes cyfiawnder sifil, canolbwyntiodd y Comisiwn ar Gyfiawnder ei sylw'n bennaf ar yr opsiynau ar gyfer datrys anghydfodau.

Ni thrafodir strwythur llysoedd sifil yn yr ymarfer mapio hwn. Digon yw dweud, o ran y rhan fwyaf o anghydfodau cyfraith sifil sy'n effeithio ar bobl yng Nghymru, mai'r fforwm ar gyfer apeliadau cyfreithiol fydd y llysoedd sirol, ac Is-adrannau penodol perthnasol o'r Uchel Lys lle y bo'n berthnasol, gydag apeliadau'n cael eu hanfon ymlaen i'r Llys Apêl ac yn y blaen. Mae'n berthnasol nad oedd Is-adran Sifil y Llys Apêl yn eistedd yng Nghymru yn ystod blwyddyn llys 2017/18 na 2018/19 ac nad oedd Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn gallu esbonio'r rhesymau am hyn i'r Comisiwn ar Gyfiawnder na darparu gwybodaeth am nifer y ceisiadau neu apeliadau yn deillio o lysoedd yng Nghymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf y gellid bod wedi eu clywed yng Nghymru pe bai'r Is-adran Sifil wedi eistedd yno.

Mae'r rhaglen i ddiwygio'r llysoedd wedi bod yn fater pwysig arall, sydd wedi arwain at gau llysoedd ledled Cymru. Rhoddir cryn sylw i'r mater hwn yn Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder, gan gyflwyno'r data'n glir. Mae Cymdeithas y Cyfreithwyr hefyd yn monitro'r mater hwn fel rhan o'i gwaith yng Nghymru.

6.1 Materion Cyfraith Cyflogaeth

Er nad yw cyfraith cyflogaeth wedi'i datganoli ceir deddfwriaeth sy'n benodol i Gymru mewn perthynas â chyflogau amaethyddol, undebau llafur, a hawliau gwell i'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal cartref, yn ogystal â Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol ehangach yng Nghymru. Mae'r rhan fwyaf o anghydfodau cyfreithiol yng Nghymru sy'n ymwneud â materion cyfraith cyflogaeth yn cael eu penderfynu gan y Tribiwnlys Cyflogaeth nad yw wedi'i ddatganoli (ni chrëwyd tribiwnlys ar wahân i Gymru am fod nifer yr achosion yn debygol o fod yn fach). Mae'n werth nodi bod Barnwr Cyflogaeth Rhanbarthol Cymru wedi dweud wrth y Comisiwn ar

Gyfiawnder bod deddfwriaeth sy'n effeithio ar waith y Tribiwnlys Cyflogaeth wedi'i phasio heb gyfathrebu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Tribiwnlys. Mae'n ymddangos bod hyn wedi digwydd oherwydd diffyg system gyfathrebu briodol.

6.2 Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru a Thribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru

Er bod y rhain, fel tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, wedi'u hystyried uchod fel rhan o'r trefniadau cyfiawnder gweinyddol, mae eu llwyth achosion yn cynnwys anghydfodau cyfraith sifil yn bennaf.

6.3 Datrys Anghydfod ym Maes Cyfiawnder Sifil (a Gweinyddol)

Argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder y gellid gwella arweinyddiaeth a chydgyssylltu drwy sefydlu corff, i'w gadeirio gan uwch-farnwr, i hyrwyddo a chydgyssylltu'r broses o ddatrys anghydfodau gerbron llysoedd sifil, tribiwnlysoedd, ffyrdd amgen o ddatrys anghydfodau ac ombwdsmyrn yn ogystal â datrys anghydfodau mewn perthynas â chyfraith weinyddol yng Nghymru. Yn y pen draw, argymhellodd y Comisiwn y dylai llysoedd a thribiwnlysoedd sy'n dyfarnu ar anghydfodau ym maes cyfraith sifil a chyfraith gweinyddol fod yn rhan o un system unedig yng Nghymru.

7. Cymorth Cyfreithiol (Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth)

Gweinyddiaeth Gyfiawnder Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisi cymorth cyfreithiol. Gweinyddir cymorth cyfreithiol gan yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol (asiantaeth weithredol a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder). Mewn cymorth cyfreithiol troseddol, mae'r Asiantaeth yn caffael gwasanaethau gan fargyfreithwyr a chyfreithwyr drwy'r Gwasanaeth Amddiffynwyr Cyhoeddus. Nodir y meini prawf ar gyfer cael gafael ar gymorth cyfreithiol troseddol yn Neddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, ac maent yn cynnwys prawf modd a phrawf buddiannau cyfiawnder yn ymwneud â rhinweddau a difrifoldeb yr achos. Oherwydd y bernir yn awtomatig bod achosion Llys y Goron yn bodloni'r prawf, yn ymarferol ni fydd y rhan fwyaf o ddiffynyddion yn Llysoedd yr Ynadon yng Nghymru yn cael cymorth cyfreithiol ar gyfer troseddau nad ydynt yn garcharadwy. Yn dilyn y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr, bu gostyngiad difrifol mewn gwariant cymorth cyfreithiol ledled Cymru a Lloegr, gan gynnwys cymorth cyfreithiol troseddol yng Nghymru. Mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder wedi nodi bod y dirywiad (o'i gymharu â Lloegr) yn rhy ddifrifol i'w gyfiawnhau drwy ddweud bod y ddarpariaeth yn cael ei harwain gan y galw a bod mwy o achosion mawr yn Lloegr.

Ym maes cymorth cyfreithiol sifil mae'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol yn ariannu Civil Legal Advice, sef gwasanaeth sy'n rhoi cyngor ar amrywiaeth o faterion gan gynnwys materion teuluol, tai a dyled, i bobl sy'n gymwys (unwaith eto yn dilyn prawf modd yn arbennig). Mae bellach yn dra hysbys bod y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr wedi arwain at ostyngiad anghymesur o ran gwariant cymorth cyfreithiol yng Nghymru o'i gymharu â Lloegr. Gwelwyd gostyngiad mewn termau real yn Lloegr rhwng 2011/12 a 2018/19 o 28 y cant. Gwelwyd gostyngiad yng Nghymru o 37 y cant.

Gwelwyd gostyngiad ar draws pob maes cymorth cyfreithiol, ond roedd y gostyngiad mwyaf ym maes cyfiawnder sifil a theuluol. Ynghyd â phryderon am y gyfran uchel o blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, yn 2018/19 roedd tua 97 y cant o gyfanswm y gwariant ar gymorth cyfreithiol i deuluoedd yng Nghymru yn cynnwys cynrychiolaeth yn y llys ac eiriolaeth. Rhwng 2011/12 a 2017/18 (gan gynnwys y blynyddoedd hynny) roedd gwariant Cymru fesul y pen ar achosion gofal cyfraith gyhoeddus 32 y cant yn uwch na gwariant Lloegr.

Y 'ffin amrwd' ganolog o ran darparu cyngor, gwybodaeth a chymorth yw i ba raddau y mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu gwasanaethau cynghori yn effeithiol er bod y mater wedi'i gadw'n ôl yn ffurfiol. Trafodir cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori ym mharagraff 97 o'r prif Adroddiad.

7.1 Y Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol a'r Gronfa Cynghori Sengl

Sefydlwyd Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol Cymru gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2015 ac mae'n cynnwys rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys cyllidwyr, darparwyr cyngor, sefydliadau ymbarél, a phartneriaid eraill. Mae'n gyfrifol am ddarparu cyngor, arweiniad a chymorth arbenigol i Weinidogion Cymru ar sut i ddatblygu'r ddarpariaeth yn strategol o ran gwasanaethau gwybodaeth a chyngor ym maes lles cymdeithasol ledled Cymru. Mae chwe Rhwydwaith Cynghori Rhanbarthol hefyd wedi'u sefydlu ledled Cymru.

O dan Gynllun y Rhwydwaith Gwybodaeth a Chyngor (a gyhoeddwyd yn 2016), mae Llywodraeth Cymru wedi uno tair o'i rhaglenni arian grant ar wahân ar gyfer gwasanaethau cynghori, sy'n werth tua £6 miliwn gyda'i gilydd, yn Gronfa Cynghori Sengl sydd â'r bwriad o wella'r broses o gydgyssylltu ei chyllid ei hun ar gyfer gwasanaethau cynghori. O fis Ionawr 2019 ymlaen, mae cyfran o Ardoll Ariannol y DU (taliad blynyddol a gesglir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, ar ran Trysorlys EM, gan sefydliadau ariannol sy'n cyflawni eu busnes yn y DU) ar gyfer cyllid cyngor ar ddyledion wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru. Mae'r cyllid hwn sy'n werth dros £2 filiwn yn cael ei integreiddio â'r broses o gomisiynu gwasanaethau cyngor ar ddyledion ochr yn ochr â meysydd eraill o wasanaethau cynghori lles cymdeithasol a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy'r Gronfa Cynghori Sengl. Trafodwyd hyn yn y Cyfarfod Llawn yn y Senedd.

Enillodd Cyngor ar Bopeth broses gystadleuol i ddarparu'r Gronfa Cynghori Sengl a dyfarnwyd cyllid o £8.1 miliwn iddo ym mis Ionawr 2020 i ddarparu gwasanaethau ar draws pob rhanbarth yng Nghymru, yn ogystal â gwasanaeth cynghori o bell, am 12 mis.

Er gwaethaf sefydlu'r Rhwydwaith Cynghori Cenedlaethol a'r Rhwydweithiau Cynghori Rhanbarthol cysylltiedig a'u holl waith parhaus, mynegodd y Comisiwn ar Gyfiawnder bryder nad oes dull cwbl gydgyssylltiedig o hyd o ariannu gwasanaethau cynghori yng Nghymru. A bod yn deg, nododd nad oes dyletswydd statudol ar unrhyw asiantaeth yng Nghymru i ariannu gwasanaethau a ddarperir o fewn y trydydd sector, ac eithrio cyngor ar ddyledion (fel y nodir uchod).

Yn y tymor hwy, argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder y dylid datblygu strategaeth sy'n dwyn ynghyd y ffrydiau cyllido ar gyfer cymorth cyfreithiol a darpariaeth cyngor y trydydd sector, ac y dylai'r strategaeth hon gael ei llywio gan gorff annibynnol a fyddai'n sicrhau nad

oes bwlch yn y ddarpariaeth a bod y cyllid yn gynaliadwy. Dylai gael ei llunio i ddiwallu anghenion pobl Cymru a sicrhau tegwch ledled Cymru. Dylid dilyn dull o sicrhau ansawdd sy'n cyfuno safonau uchel â disgwyliadau cymesur ar ddarparwyr bach, a dylai'r corff helpu i godi arian elusenol yn ogystal â gweinyddu arian cyhoeddus er mwyn darparu cyllid hirdymor craidd a monitro cynnydd. Roedd y Comisiwn hefyd o'r farn bod codi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn hollbwysig gan gynnwys blaenoriaethu allgymorth i gysylltu'n benodol â phobl anabl, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl ag anawsterau dysgu, pobl mewn argyfwng, pobl nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf a phobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Roedd hefyd yn argymhell ehangu Support Through Court i bob llys a thribiwnlys yng Nghymru.

Cyfiawnder yng Nghymru - Atodiad Dau: Adolygiad o'r Llenyddiaeth

Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru (Hydref 2019)

Dyma'r astudiaeth fwyaf helaeth i gyfiawnder yng Nghymru ers 200 mlynedd. Cafodd dystiolaeth ysgrifenedig gan ychydig dros 200 o bobl/sefydliadau a chymerodd dystiolaeth lafar gan 150 o bobl. Roedd ei gylch gwaith yn eang, a gwnaeth 78 o argymhellion penodol. Yn ogystal â'r prif argymhellion penodol a ailadroddwyd yn yr adroddiad crynodeb gweithredol, mae 156 o argymhellion pellach sy'n ategu'r prif argymhellion. Mae'r Adroddiad yn darparu rhaglen helaeth o waith, ac mae llawer ohoni yn gofyn am o leiaf rywfaint o ymgysylltiad â Llywodraeth y DU. Arweiniwyd y Comisiwn nid gan gwestiynau ynghylch trefniadau awdurdodaethol (ynglŷn â pharhad, neu beidio, awdurdodaeth gyfreithiol sengl Cymru a Lloegr), ond gan yr egwyddor bod cyfiawnder wrth wraidd unrhyw system o lywodraethu democrataidd. Serch hynny, nododd y Comisiwn mai'r unig ffordd y gellir datrys ei ganfyddiad unfrydol, nad yw'r system bresennol yn diwallu anghenion pobl Cymru (Comisiwn, Crynodeb Gweithredol: paragraff [1]) yw drwy ddatganoli cyfrifoldeb dros gyfiawnder yn llawn yn ddeddfwriaethol ac yn weithredol, a throsglwyddo adnoddau ariannol yn llawn (argymhellion 58, 59 a 60). Argymhellodd hefyd y dylid nodi'r gyfraith sy'n gymwys yng Nghymru yn ffurfiol fel cyfraith Cymru, sy'n wahanol i gyfraith Lloegr (Comisiwn, argymhelliad 73), ond y dylid parhau â'r system bresennol lle gall ymarferwyr cyfreithiol ymarfer yng Nghymru a Lloegr, a lle caiff y proffesiynau eu rheoleiddio ar y cyd (argymhelliad 74).

Yn sail i'r Adroddiad mae ystod o egwyddorion; cydraddoldeb, tegwch, rheolaeth y gyfraith, cynaliadwyedd, parch at hawliau dynol rhyngwladol, cymesuredd a mynediad at gyfiawnder. Mae'n cynnwys 12 o Benodau, gan gynnwys cyd-destun hanesyddol ac egwyddorion arweiniol; Gwybodaeth, cyngor a chymorth; Cyfiawnder troseddol; Cyfiawnder teuluol; Cyfiawnder sifil; Cyfiawnder gweinyddol a chrwneriaid; Sicrhau cyfiawnder; Y sector cyfreithiol ac economi Cymru; Gwybodaeth, sgiliau ac arloesedd; Y Gymraeg; a Llywodraethu, cyfraith Cymru a'r farnwriaeth.

Ymateb Gweinyddiaeth Gyfiawnder y DU, drwy drydariad o fewn 15 munud i gyhoeddi'r Adroddiad, oedd ailadrodd ei chred mai un awdurdodaeth gyfreithiol yw'r ffordd fwyaf effeithiol o hyd i sicrhau cyfiawnder ledled Cymru a Lloegr. Mewn dadl yn Neuadd San Steffan, a gynigiwyd gan Liz Saville-Roberts AS Plaid Cymru, nododd Chris Philp AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Gyfiawnder, na fydd ymateb ffurfiol gan Lywodraeth y DU i'r Adroddiad. Dadleuodd Mr Philp AS y byddai costau datganoli cyfiawnder yn anghymesur o ystyried maint cymharol y ddeddfwriaeth sydd wedi'i datganoli a'r ddeddfwriaeth sydd wedi'i chadw'n ôl.

Defnyddir adroddiad y Comisiwn fel sail yn helaeth yn yr ymarfer cyfredol hwn o fapio swyddogaethau cyfiawnder yng Nghymru, ochr yn ochr ag atebolrwydd, craffu a chyllid. O ran rôl Llywodraeth Cymru a'r Senedd, nododd y Comisiwn ar Gyfiawnder yn benodol, o dan y pennawd 'camau i'w cymryd ar unwaith', bod yn 'rhaid i arweinyddiaeth glir ac atebol ar gyfiawnder yn Llywodraeth Cymru gael ei sefydlu o dan y drefn ddatganoli bresennol.' (Comisiwn: argymhelliad 61). Argymhellodd, gyda datganoli deddfwriaethol bod yn 'rhaid sefydlu Adran Gyfiawnder newydd yn Llywodraeth Cymru a arweinir gan un o Weinidogion y

Cabinet' (Comisiwn: argymhelliad 68). Mae Is-bwyllgor Cabinet ar Gyfiawnder wedi'i ffurfio, sy'n cynnwys y Prif Weinidog, Cwnsler Cyffredinol Cymru, a'r Dirprwy Weinidog.

Argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder ymhellach: 'Dylai'r Cynulliad chwarae rôl fwy rhagweithiol wrth graffu'n briodol ar weithrediad y system gyfiawnder' (Comisiwn: argymhelliad 62) gydag argymhelliad i sefydlu Pwyllgor Cyfiawnder yn y tymor hwy yn sgil datganoli deddfwriaethol (Comisiwn: argymhelliad 70). Argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder ymhellach: 'Dylai'r Cynulliad wneud trefniadau i fonitro ac adolygu'r broses ddiwygio' (Comisiwn: argymhelliad 78), fel y mae'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad bellach yn ei wneud drwy'r ymchwiliad cyfredol.

Argymhellodd y Comisiwn hefyd y 'dylai Llywodraeth Cymru ddechrau'r broses o ddiwygio drwy restru'r argymhellion y bydd yn ceisio eu rhoi ar waith tra bydd y drefn ddatganoli bresennol yn parhau.' (Comisiwn: argymhelliad 78).

R Jones ac R Wyn Jones, *Justice at the Jagged Edge in Wales* (Prifysgol Caerdydd, Canolfan Llywodraethiant Cymru: Mawrth 2019)

Yn ogystal ag Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder, dyma'r gwaith mwyaf arwyddocaol sy'n edrych ar drefniadaeth, gweithrediad, atebolrwydd a chraffu ar draws plismona a'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru yn dilyn datganoli. Ei ganfyddiad canolog yw bod cyfrifoldebau polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gorgyffwrdd o fewn yr un gofodau polisi, ond nid mewn modd clir, yn hytrach mae 'ffin amrwd' o ran cymwyseddau a chyfrifoldebau croestoriadol. Yn benodol, mae'r awduron yn nodi hyd yn oed yn absenoldeb awdurdodaeth gyfreithiol i Gymru a system cyfiawnder troseddol ddatganoledig, nad yw'r system gyfiawnder yng Nghymru union yr un fath â system Lloegr mwyach. Mae hyn oherwydd y ffyrdd y mae cymaint o feysydd polisi cymdeithasol sydd â dylanwad uniongyrchol ar y system cyfiawnder troseddol wedi'u datganoli. ('Jagged Edge': tudalen 5).

Mae'r Adroddiad yn tynnu sylw at sut mae Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau cyflenwol mewn perthynas â'r amgylchedd cyfiawnder troseddol a phlismona. Mae'r awduron yn dadlau bod y sefydliadau hyn gyda'i gilydd yn cynrychioli 'system datganoli gweinyddol de facto' ('Jagged Edge': Pennod 2).

Mae penodau pellach o'r Adroddiad 'Jagged Edge' yn canolbwyntio ar natur gymhleth cysylltiadau rhynglywodraethol a therfynau llunio polisi cydgysylltiedig. Drwy amrywiaeth o gyfweiliadau lefel uchel, ochr yn ochr â ffynonellau ymchwil sylfaenol ac eilaidd eraill, daw'r awduron i'r casgliad bod Cymru yn aml yn cael ei hanwybyddu gan swyddogion cyfiawnder y DU yn Llundain a bod dogfennau polisi'r DU, er eu bod efallai yn cydnabod cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru, yn aml yn methu ag adlewyrchu sut y bydd y polisi'n gweithio'n ymarferol. Ceir tystiolaeth o ddiffyg ymgynghori, sy'n tanseilio cydweithio a chydweithredu rhynglywodraethol, ond nid oes gan Lywodraeth Cymru ei hun ddigon o gapasiti ychwaith i roi ystyriaeth lawn i blismona a chyfiawnder troseddol yng Nghymru. Dywedir hefyd fod diffyg cydweithio rhwng adrannau Llywodraeth Cymru a newidiadau i bortffolios Gweinidogol wedi cyfrannu at drefniadau dryslyd ar gyfer plismona a chyfiawnder troseddol.

Daw'r awduron i'r casgliad y gall y trefniadau cyfansoddiadol atal Llywodraeth Cymru rhag dilyn dulliau amgen mewn meysydd y mae ganddi gyfrifoldeb polisi drostynt, a hefyd atal Llywodraeth Cymru rhag defnyddio dull 'system gyfan', gan gynnwys mynd i'r afael ag yr achosion wrth wraidd troseddau. Daw'r awduron i'r casgliad bod Llywodraeth Cymru yn aml yn cael ei hystyried yn is-bartner, gyda phŵer cyfyngedig i ddylanwadu ar bolisi Llywodraeth y DU, gan arwain Llywodraeth Cymru mewn rhai achosion i weithredu polisiau y mae'n eu gwrthwynebu.

Mae'r Adroddiad hefyd yn archwilio'r trefniadau cyllido cymhleth ar gyfer plismona a chyfiawnder troseddol. Daw'r awduron i'r casgliad: bod cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddefnyddio i gefnogi Llywodraeth y DU i ddarparu gwasanaethau plismona a chyfiawnder troseddol yng Nghymru; bod cyllid gan asiantaethau plismona a chyfiawnder troseddol yn cael ei ddefnyddio i 'sybsideiddio' gwasanaethau cyhoeddus datganoledig a bod yr arbedion yn sgil polisi 'gwario i arbed' Llywodraeth Cymru (o leiaf ar adeg ysgrifennu'r Adroddiad) yn mynd i Drysorlys y DU.

Mae'r Adroddiad yn canfod bod y Senedd yn chwarae rhan sylweddol wrth graffu ar blismona a chyfiawnder troseddol, ond mae'n gyfyngedig yn ei gallu i wneud hynny, ac yn cael ei rhwystro ymhellach gan y diffyg eglurder mewn perthynas â phortffolios Gweinidogol ac adrannol Llywodraeth Cymru a'r diffyg data sydd ar gael ar blismona a chyfiawnder troseddol ar gyfer Cymru yn unig. Daw'r awduron i'r casgliad bod natur gymhleth y trefniadau yn sgil datganoli yn golygu bod pwyllgorau yng Nghaerdydd a San Steffan yn methu materion sy'n ymwneud â phlismona a chyfiawnder troseddol. ('Jagged Edge': tudalen 10 ac yn benodol Pennod 6).

[Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Gweithgor Cyfiawnder yng Nghymru a'r Pwyllgor Cyngori Arbenigol Annibynnol ar gyfer adolygiad parhaus o weithrediad cyfiawnder yng Nghymru: Adroddiad Cyntaf \(Gorffennaf 2019\)](#)

Ni chyfeirir yn benodol at y Gweithgor hwn yn Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder. Fe'i sefydlwyd yn 2016 ac mae'n cynnwys grŵp o swyddogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru (y Tîm Polisi Cyfiawnder yn bennaf) yn ystyried ac yn gwneud argymhellion ynghylch rheoli'r broses o ymwahanu a sicrhau bod anghenion unigryw Cymru yn cael eu hystyried ar draws y system gyfiawnder a gedwir yn ôl. Ymddengys y bu rhai pryderon ynghylch tryloywder gweithrediad y Grŵp, gyda Dr Rob Jones (Prifysgol Caerdydd, Canolfan Llywodraethiant Cymru) yn troi at wneud ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn 2017 i ddarganfod gwybodaeth am ba mor aml yr oedd y Grŵp yn cwrdd a'r pynciau a drafodwyd. Gofynnodd Liz Saville-Roberts AS gwestiwn ysgrifenedig Seneddol ar 17 Hydref 2017 yn gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder a fyddai'n cyhoeddi'r rhestr o sefydliadau ac unigolion yr ymgynghorodd y Gweithgor Cyfiawnder yng Nghymru â hwy ynghylch ei adroddiad ar ddatganoli. Cyhoeddwyd y wybodaeth wedi hynny ac roedd yn cynnwys (yn drylwyr), Cymdeithas y Gyfraith, Cyngor y Bar, Prifysgolion Cymru, dau gwmni cyfreithiol yng Nghymru, Comisiwn y Gyfraith, Gwasanaeth Eryl y Goron, y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwy, Gwasanaeth Llysoedd a Thriwiwnlysoedd Ei Mawrhydi Cymru, Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid Cymru a'r Coleg Barnwrol. Nid wyf wedi gallu dod o hyd i gopi o'r Adroddiad hwn ar-

lein, efallai nad yw ar gael i'r cyhoedd o hyd er fy mod yn deall bod cynrychiolwyr ysgolion y gyfraith yng Nghymru wedi'i weld. Daw'r wybodaeth o Adroddiad y Gweithgor a atgynhychir isod o Adroddiad mwy diweddar y Pwyllgor Cynghori Arbenigol Annibynnol.

Gwnaeth y Gweithgor ddeg Argymhelliad yn ymwneud yn bennaf â gwaith rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru. Mae'n werth nodi'r argymhellion a ganlyn (wedi'u rhifo fel y maent yn ymddangos yn yr Adroddiad):

1. Gallai'r Ysgrifennydd Gwladol ystyried a fyddai budd o roi cyfrifoldeb penodol i un o Weinidogion y Weinyddiaeth Gyfiawnder dros ystyried sut y mae gwasanaethau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cael eu darparu yng Nghymru.
2. Dylai Bwrdd y Weinyddiaeth Gyfiawnder ystyried cael trafodaeth flynyddol (o leiaf) ynghylch sut mae'r adran gyfan yn diwallu anghenion unigryw Cymru.
6. Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sefydlu mecanweithiau clir ar gyfer sicrhau bod (a) anghenion unigryw Cymru yn cael eu hystyried yn llawn wrth ddatblygu a gweithredu polisi, a bod Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan lle bo hynny'n briodol; a (b) bod gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad (er enghraifft am newidiadau deddfwriaethol sydd ar ddod) yn cael ei chyfleu'n effeithiol i bob rhan berthnasol o'r system gyfiawnder.
8. Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gynnal adolygiad o sut mae ei harferion casglu a chyhoeddi data yn adlewyrchu natur unigryw Cymru, a lle bo hynny'n bosibl, ddadgyfuno data i roi darlun clir o sut mae cyfiawnder yng Nghymru yn gweithredu.
9. Dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ystyried y ffordd y mae gwybodaeth yn cael ei chyflwyno ar ei gwefan, er mwyn sicrhau bod gwybodaeth am Gymru yn hygyrch.

Gwnaed cynnydd ar wella trefniadau ar gyfer ymgynghori a chydweithredu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, yn benodol drwy 'Goncordat rhwng Llywodraeth Cymru a Weinyddiaeth Gyfiawnder y DU' y cytunwyd arno ar 21 Mawrth 2018. Fodd bynnag, daw'r Comisiwn ar Gyfiawnder i'r casgliad 'n[a]d yw'r concordat yn mynd i'r afael â'r problemau mewn gwirionedd nac yn darparu ateb cynaliadwy na hirdymor i effaith gwahanu cyfiawnder o feysydd datganoledig eraill. Yn ymarferol, mae gweithredoedd y Cynulliad a Llywodraeth Cymru sy'n uniongyrchol berthnasol i gyfiawnder yn ehangach na hyn. (Comisiwn ar Gyfiawnder: paragraffau [2.32-2.33]).

Mae'r Concordat yn darparu ar gyfer 'Cyfnewid Gwybodaeth, Ystadegau ac Ymchwil' rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru, ond prin yw'r data sydd ar gael yn gyhoeddus o hyd ar sail Cymru yn unig sydd wedi'u dadgyfuno ac mae ymchwilwyr yn canfod yn gyson nad oes data ar gael, nid dim ond am nad ydynt wedi'u dadgyfuno a'u cyhoeddi, ond hefyd am nad ydynt yn cael eu casglu. Gellid sicrhau bod gwybodaeth am Gymru ar gael yn haws o lawer drwy wefan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Bellach mae 'Grŵp Strategaeth Cyfiawnder yng Nghymru' sy'n dwyn ynghyd swyddogion gweithredol a pholisi o Lywodraeth Cymru, y Weinyddiaeth Gyfiawnder ac amrywiol gyrrff cyfiawnder. Mae'n darparu fforwm ar gyfer trafod a chydweithio ar faterion polisi.

Mae'r Pwyllgor Cyngori Arbenigol Annibynnol ar gyfer adolygiad parhaus o weithrediad cyfiawnder yng Nghymru yn wahanol i'r Gweithgor Cyfiawnder yng Nghymru, ac mae'n gyfrifol am adolygu gweithrediad cyfiawnder yng Nghymru yn barhaus. Mae'n cyflwyno adroddiadau i'r Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder, gyda chopiau i'r Prif Weinidog, Ysgrifennydd Gwladol Cymru a'r Arglwydd Brif Ustus. Mae ei aelodaeth yn cynnwys Cyfarwyddwr o Swyddfa Gabinet Llywodraeth y DU, cynrychiolwyr o'r farnwriaeth yng Nghymru/y Coleg Barnwrol, swyddogion Llywodraeth Cymru (ar lefel Cyfarwyddwr/Dirprwy Gyfarwyddwr), swyddog o Swyddfa Cymru, Cyngor y Bar, Cymdeithas y Gyfraith yng Nghymru, a Chyfarwyddwyr/Dirprwy Gyfarwyddwyr o Wasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn nodi ei fod wedi ystyried Adroddiad cyntaf y Pwyllgor hwn (2019) ond nad yw'r Comisiwn yn cyfeirio at argymhellion penodol y Pwyllgor yn uniongyrchol.

Mae Adroddiad y Pwyllgor yn 2019 yn canolbwyntio ar yr heriau a achosir gan wahaniaethau yn y gyfraith a hygyrchedd cyfraith Cymru. Hyd yn oed gyda'r Concordat a mentrau eraill, amlygodd y Pwyllgor yr angen am weithio mwy cydweithredol a strategol rhwng y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod effaith swyddogaethau a gedwir yn ôl a swyddogaethau datganoledig yn cael ei hystyried yn briodol ar gam cynnar. (Pwyllgor Cyngori: paragraff [16]). Cydnabu'r Pwyllgor waith sy'n cael ei wneud ar hygyrchedd cyfraith Cymru ac argymhellodd y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder gydweithredu ymhellach â Llywodraeth Cymru ar yr agenda hon; gan gynnwys gweithio gyda'r Archifau Cenedlaethol i alluogi cyfleusterau chwilio pwrpasol gwell ar legislation.gov; y gallai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru ystyried ymagweddau ar y cyd tuag at ddarparwyr masnachol i wella'r ddarpariaeth o gynnwys mwy thematig ar gyfraith Cymru; ac y gallai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru weithio ar y cyd â threfnwyr ymarferwyr i lunio canllawiau i'r gyfraith sy'n berthnasol yng Nghymru.

O ran gwahaniaethau yn y gyfraith, pwysleisiodd y Pwyllgor ei bod yn bwysig i Weinidogion wybod bod goblygiadau o ran cost ac adnoddau mewn trefniadau a chynigion i reoli ymwahanu cynyddol mewn deddfau yn well, ac er bod systemau a phrosesau wedi'u rhoi ar waith, y gallai'r rhain ddod dan fwy o straen os bydd mwy o ymwahanu. Nododd y Pwyllgor hefyd nad oes unrhyw systemau pwrpasol ar waith ar lefel cyflenwi a gweithredol i reoli ymwahanu pellach a ragwelir yn y dyfodol. Yn benodol, mae angen sicrhau gwaith paratoi gwell o fewn canghennau gweithredol. (Pwyllgor Cyngori: paragraff [44]).

Mae'r Pwyllgor yn rhoi enghraifft o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a bod y gwaith gweithredu wedi'i ohirio yn rhannol oherwydd yr angen i ddatblygu systemau cyfrifiadurol Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (yn benodol y porth hawliau mediant ar-lein) i ddarparu ar gyfer y broses o ymwahanu oddi wrth gyfraith Lloegr. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod datblygu systemau'n gostus ac yn cymryd llawer o amser ac y bydd angen ei ystyried bob tro y mae deddfwriaeth yn gofyn am newidiadau yn y ffordd y mae systemau Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi yn gweithredu. Roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig sicrhau bod y broses o ymwahanu yn cael ei rheoli yn fwy cadarn ac effeithiol ac argymhellodd y dylai'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru ystyried trefniadau ymarferol i sicrhau bod canghennau dosbarthu a chyrrff datganoledig yn cael eu hysbysu o achosion o ymwahanu ymlaen llaw fel y gallant nodi, cytuno a rheoli effeithiau yn effeithiol (Pwyllgor Cyngori: paragraffau [65-67]).

Tystiolaeth Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru

Er na all yr Adroddiad hwn adolygu pob un o'r 200 darn o dystiolaeth ysgrifenedig i'r Comisiwn ar Gyfiawnder, mae'n cael ei lywio gan rai darnau allweddol o dystiolaeth, gan gynnwys tystiolaeth Llywodraeth Cymru. Rhennir prif dystiolaeth Llywodraeth Cymru yn ddwy ran; y cyntaf yn canolbwyntio ar faterion cyfansoddiadol a'r ail ar blismona a chyfiawnder fel gwasanaethau cyhoeddus. Mae tystiolaeth atodol bellach ar faterion eraill, gan gynnwys Cyfiawnder Teuluol.

Mae rhan gyntaf prif dystiolaeth Llywodraeth Cymru yn ailadrodd cefnogaeth y Llywodraeth i awdurdodaeth gyfreithiol Cymru ar wahân a datganoli pwerau plismona a chyfiawnder. Mae'r pwyslais yn yr Adroddiad cyfredol ar yr ail ran sy'n pwysleisio pwysigrwydd llunio polisiau cydgyssylltiedig ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus a bod y Llywodraeth wedi gweld hyn 'bron yn amhosibl' i'w gyflawni o ystyried 'nad yw'n glir pwy yn union fyddai'n gyfrifol ac yn atebol ar draws y gwasanaethau hynny y byddem yn ceisio eu cydgyssylltu.' (Tystiolaeth Llywodraeth Cymru: tudalen 9).

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod dull Cymru o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei danategu gan y ffyrdd o weithio sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a'i fod wedi'i gynllunio i sicrhau dull mwy cydgyssylltiedig a chynaliadwy yn seiliedig ar gydweithredu ac integreiddio gwasanaethau sy'n annog atal. Mae Egwyddorion Arweiniol strategaeth Llywodraeth Cymru wedi'u nodi yn 'Ffyniant i Bawb', sef; atal, partneriaeth, cydweithredu a sicrhau canlyniadau gwell. Barn y Llywodraeth yw na ellir cyflawni'r Egwyddorion hyn yn llawn yn sgil y setliad datganoli lle ystyrir nad yw pwerau'r Llywodraeth a'r Senedd yn gynhwysfawr, yn gyson nac yn resymegol yn aml.

Yn benodol, mae'r Llywodraeth yn tynnu sylw at ei hadolygiad diogelwch cymunedol lle canfu fod agweddau ar weithio mewn partneriaeth amlasiantaeth yn cael eu tansilio'n ddifrifol gan y rhaniad presennol o gyfrifoldebau, atebolrwydd ac arweinyddiaeth. Mae'r rhain yn cynnwys; anallu partneriaethau ac asiantaethau i seilio eu gwaith cynllunio a'u gweithgareddau ar ddata, ymchwil a thystiolaeth a rennir; rhwystrau a achosir gan flaenoriaethau cystadleuol a gostyngiad yn yr adnoddau sydd ar gael i'r sector cyhoeddus; methiant i gymell dulliau 'buddsoddi i arbed' o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus o ganlyniad i strwythurau cyllidebu a seilos (mae buddsoddi mewn dulliau datganoledig o atal ac ymyrraeth gynnar yn sicrhau arbedion ar gyfer cyllidebau cyfiawnder troseddol heb eu datganoli); a llai o gyfleoedd i ganolbwyntio ar 'le' neu 'berson' wrth lunio cyllidebau gwasanaeth cyhoeddus.

Mae'r Llywodraeth yn nodi y gall mentrau Cymru fod yn rhwystredig oherwydd diffyg pŵer, rheolaeth gyllidebol neu gymhlethdod ac y gall newid sefydliadol a ddyluniwyd yn Whitehall nad yw wedi'i deilwra i gyd-destun Cymru amharu arno (mae'r gwasanaeth prawf yn enghraifft benodol). Mae'r Llywodraeth hefyd yn nodi bod diffyg atebolrwydd o hyd ym maes iechyd ac addysg carcharorion sy'n llesteirio llywodraethu da.

Mae'r Llywodraeth yn rhoi enghreifftiau o gamau y mae'n eu cymryd drwy ddeddfwriaeth a rhaglenni darparu ar faterion sy'n effeithio ar y system gyfiawnder. Nodir y rhain yn Atodiad Un 'Mapio' yr Adroddiad hwn.

Y Gyfraith a Chyfiawnder yng Nghymru: Rhai Materion ar gyfer y Cynulliad Nesaf, Adroddiad i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus gan y Grŵp Rhanddeiliaid Cyfiawnder (Mawrth 2016)

Mae'r Adroddiad yn ystyried yr angen am fwy o hygyrchedd i'r corff cynyddol o Gyfraith Cymru. Mae'n trafod yr heriau sy'n gysylltiedig â darparu hyfforddiant cyfreithiol ar wahanol lefelau a bod hyn yn rhan o set ehangach o faterion sy'n gysylltiedig â datblygiad posibl cyfraith Cymru sy'n unigryw ac yn ehangu, a'r posibilrwydd o greu awdurdodaeth gyfreithiol unigryw i Gymru.

Yn sgil y cyd-destun hwn, mae'r Adroddiad yn ystyried diwygiadau ehangach i'r system gyfiawnder (megis toriadau cymorth cyfreithiol, digideiddio a diwygio'r llysoedd) a'r Gymraeg, gan ystyried sut y gellid datblygu ymagwedd Gymreig tuag at gyfiawnder. Gwnaeth y Grŵp ddeg argymhelliad yr ymatebodd Llywodraeth Cymru iddynt. Cydnabu Llywodraeth Cymru argymhellion y Grŵp ynghylch hygyrchedd cyfraith Cymru a'r angen am welliannau i wefan Cyfraith Cymru a chyhoeddi deunyddiau cyfreithiol Cymru yn ehangach. Nododd ei fod ar y pryd yn ymateb i Adroddiad Comisiwn y Gyfraith, sef [Ffurf a Hygyrchedd y Gyfraith sy'n Gwmwys yng Nghymru](#) (gweler Deddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019) ac yn parhau i wella safle Cyfraith Cymru. Gwrthododd yr argymhelliad y dylai geisio cyllid gan Lywodraeth y DU i gefnogi cyhoeddi testunau a deunyddiau cyfraith Cymru, gan nodi nad yw Llywodraeth y DU yn gyfrifol am gyhoeddi, hyrwyddo a hygyrchedd deunyddiau o'r fath.

Argymhellodd y Grŵp y dylai Llywodraeth Cymru ymgysylltu mwy ag ysgolion y gyfraith a chyrrff hyfforddi i gefnogi datblygiad addysg gyfreithiol Cymru ar bob lefel. Ymatebodd Llywodraeth Cymru ei bod eisoes yn ymgysylltu'n rheolaidd ag ysgolion y gyfraith Prifysgolion a chyrrff proffesiynol. Mewn perthynas ag argymhellion y Grŵp ynghylch yr angen i fod yn rhagweithiol wrth ddatblygu datrysiad awdurdodaethol i ddiwallu anghenion penodol Cymru, nododd Llywodraeth Cymru ei bod wedi dadlau'n gyson dros sefydlu pwyllgor anstatudol ar gyfiawnder yng Nghymru.

Argymhellodd y Grŵp hefyd y dylai Llywodraeth Cymru ystyried y potensial i fabwysiadu dulliau mwy ymchwilgar (yn hytrach na dulliau gwrthwynebus) yn y tribiwnlysoedd y mae'n eu gweinyddu. Ymatebodd Llywodraeth Cymru bod dulliau o'r fath eisoes yn cael eu defnyddio mewn tribiwnlysoedd sydd wedi'u datganoli ac sydd heb eu datganoli. Er gwaethaf ymateb Llywodraeth Cymru, dylid nodi bod sbectwm o ddulliau barnwrol ymchwiliol i wrthwynebus (neu fel y dëllir yn fwy diweddar hefyd, dulliau barnwrol gweithredol a goddefol) yn hytrach na rhaniad deuaidd rhwng dulliau ymchwiliol/gwrthwynebus a gellid bod wedi ystyried yn fanylach drafodaeth ehangach y Grŵp ar y mater.

Argymhellodd y Grŵp hefyd y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau dull mwy cyson a strwythuredig o ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder, gan gynnwys ymarferwyr cyfreithiol, y farnwriaeth a Chomisiwn y Gyfraith. Fel y mae adroddiadau mwy diweddar yn awgrymu, er bod ymgysylltiad o'r fath yn amlwg yn digwydd, mae'n amheus a

yw'n strwythuredig a chyson eto. Yn yr un modd, argymhellodd y Grŵp y dylid sefydlu 'Grŵp Rhanddeiliaid Cyfiawnder', yn dilyn ei argymhelliad blaenorol ar ymgysylltu â rhanddeiliaid. Roedd yn tybio y byddai'r grŵp hwn yn cynnwys ymarferwyr cyfreithiol, y farnwriaeth a Chomisiwn y Gyfraith yn ogystal â'r rhai sy'n ymwneud â gweinyddu cyfiawnder. Ymatebodd Llywodraeth Cymru yn gadarnhaol fod achos dros sefydlu'r fath beth fel fforwm hunan-drefnu annibynnol. Ond hyd yma ymddengys nad oes unrhyw gorff yn union fel hyn wedi'i sefydlu; gallai rôl o'r fath gael ei chyflawni gan 'Gyngor Cyfraith Cymru' arfaethedig y Comisiwn ar Gyfiawnder.

H Pritchard, *Justice in Wales: Principles, Progress and Next Steps* (Prifysgol Caerdydd, Canolfan Llywodraethiant Cymru: Medi 2016)

Mae'r Adroddiad yn nodi egwyddorion allweddol y mae Pritchard yn dadlau y dylai'r Gweithgor 'Cyfiawnder yng Nghymru' (a drafodwyd uchod) eu hyrwyddo'n weithredol. Gan dynnu ar egwyddorion a fynegwyd gan y Comisiwn Silk, mae'r rhestr lawn yn cynnwys; eglurder, effeithlonrwydd, cydweithredu, sybsidiaredd ac atebolrwydd. Mae Pritchard hefyd yn nodi pwysigrwydd mynediad at gyfiawnder o ystyried nodweddion demograffig, economaidd, cymdeithasol ac ieithyddol unigryw Cymru. Nod yr Adroddiad yw datgelu sut mae datblygiadau tameidiog ac *ad hoc* wedi cyfrannu at fylchau ac achosion o orgyffwrdd mewn swyddogaethau cyfiawnder, ac ochr yn ochr â chymhlethdod cyffredinol y setliad datganoli, fod hyn yn arwain at ddiffyg democrataidd o ran goruchwylio cyfiawnder yng Nghymru.

Yn hanfodol, mae Pritchard yn nodi: 'To proceed simply in binary terms – whether or not the justice function is devolved – is not helpful...decentralisation can and does come in a variety of different forms.' (Pritchard: tudalen 11). Mae'n cynnig bod sbectrwm o drefniadau:

At one end, it may not mean any formal model of decentralisation but rather an 'awareness of devolution in Wales and Welsh law'. This may increase to include intergovernmental mechanisms such as simple consultation, concordats and memoranda of understanding. More formal decentralisation occurs with establishing Welsh Committees, appointments of Welsh representatives on central boards or appointing Welsh commissioners for particular organisations either voluntarily or through statutory requirement. A more advanced form of administrative decentralisation occurs with regionalisation, when an organisation establishes a directorate in Wales with a physical presence and a dedicated Welsh remit. At the far end, bodies such as Welsh tribunals or Welsh Commissioners may be the product of executive and/or legislative devolution. (Pritchard: t.11)

Mae Pritchard yn cydnabod y gall gwahanol fathau o ddatganoli fod yn amlwg o fewn yr un corff, gan roi enghraifft o driwlynlysoedd datganoledig Cymru lle mae'r cyfrifoldeb deddfwriaethol yn bennaf gyda'r Senedd ond lle mae rhai swyddogaethau gweithredol yn cael eu cadw gan Arglwydd Ganghellor y DU a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder.

Gwnaeth Pritchard 16 o argymhellion. Yn yr un modd ag eraill, argymhellodd ryw fath o bwyllgor sefydlog i adolygu trefniadau. Argymhellodd gongordat mwy ffurfiol rhwng Llywodraeth Cymru a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder (sydd, fel y nodwyd uchod, bellach wedi'i

gwblhau) a dulliau eraill o weithio mewn modd mwy cydweithredol. Rhai argymhellion na chawsant eu symud ymlaen yw'r argymhelliad ar gyfer Swyddfa'r Uchel Lys yng Nghymru sy'n gwbl weithredol a newidiadau i gyfansoddiad corff Ynadon y Goruchaf Lys i adlewyrchu sefyllfa Cymru (mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder wedi cymryd cyfrifoldeb dros y rhain). Er y gwelwyd rhywfaint o welliant o bosibl mewn perthynas â'i argymhellion ynghylch argaeledd data a gweledd ar-lein adrannau neu ganghennau 'Cymreig' sefydliadau Cymru a Lloegr, mae mwy o waith y gellir ei wneud o hyd. Argymhellodd Pritchard y dylai cynrychiolydd Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd barnwrol o Gymru gael seddi ar Fwrdd Gwasanaeth Llysoedd a Thriwlynlysoedd Ei Mawrhydi. Nid yw hyn wedi digwydd eto (hyd y gwn i).

Pwyllgor Cymru'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd (AJTC), a'r Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd yng Nghymru (CAJTW)

Y corff cyntaf â rôl ffurfiol i oruchwylio'r system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru oedd Pwyllgor Cymru'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd a sefydlwyd yn 2008. Diddymwyd y Pwyllgor ynghyd â'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd gan Lywodraeth San Steffan yn 2013 ond yn ei oes fer cafodd effaith sylweddol wrth dynnu sylw at yr heriau cyfiawnder gweinyddol penodol a wynebir yng Nghymru, ac wrth hyrwyddo diwygio. Cyhoeddiad allweddol Pwyllgor Cymru'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd oedd ei *Adolygiad o Driwlynlysoedd sy'n Gweithredu yng Nghymru* a gyhoeddwyd yn 2010. Mae hyn wedi bod yn sail i raglen Llywodraeth Cymru o ddiwygio triwlynlysoedd datganoledig Cymru, gan gynnwys datblygu deddfwriaethol yn Neddf Cymru 2017, a phrosiect parhaus gan Gomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr.

Dilynwyd Pwyllgor Cymru'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd yn 2013 gan y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd yng Nghymru, a sefydlwyd gan Weinidogion Cymru i sicrhau bod cyngor arbenigol yn parhau i fod ar waith yng Nghymru, a bod anghenion defnyddwyr y system yng Nghymru yn parhau i fod o'r pwys mwyaf. Cyhoeddiad allweddol y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd yng Nghymru yw ei 'Adroddiad Gwaddol' fel y'i gelwir, [Cyfiawnder Gweinyddol: Sylfaen Cyfiawnder Cymdeithasol yng Nghymru; Diwygio blaenoriaethau ar gyfer y Pumed Cynulliad](#), a gyhoeddwyd yn 2016. Tynnodd yr Adroddiad hwn yn helaeth ar waith ymchwil a gomisiynwyd gan y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd yng Nghymru o Brifysgol Bangor i gefnogi dau amcan: creu cymuned o ddiddordeb mewn diwygio triwlynlysoedd a materion o ran cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru y gellir eu cefnogi dros yr hirdymor; ac i ddarparu cyngor, arweiniad a sylwebaeth a fydd yn parhau i hyrwyddo datblygiad y system cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru. Roedd Adroddiad Prifysgol Bangor, [Deall Cyfiawnder Gweinyddol yng Nghymru](#), a gyhoeddwyd yn 2015, yn mapio pa elfennau o gyfiawnder gweinyddol sydd wedi'u datganoli i Gymru, beth yw'r egwyddorion sylfaenol sy'n dod i'r amlwg mewn dull Cymreig, a beth yw'r cyfleoedd a'r heriau allweddol.

Daeth y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd yng Nghymru i'r casgliad fod cyfiawnder gweinyddol yn llawer mwy arwyddocaol nag a sylweddolir yn aml a'i bod yn well ei ddeall fel sylfaen i gyfiawnder cymdeithasol. Er bod Pwyllgor Cymru'r Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thriwlynlysoedd wedi canolbwyntio'n bennaf ar ddiwygiadau triwlynlys,

edrychodd Adroddiad Gwaddol y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yng Nghymru ar draws y dirwedd cyfiawnder gweinyddol, gan lunio 35 o argymhellion yn pwysleisio nad yw cyfiawnder gweinyddol yn ymwneud â gwneud iawn i ddinasyddion yn unig ond mae hefyd yn ymwneud â dysgu gwersi o'r hyn sy'n mynd o'i le a'u hymgorffori mewn gweledigaeth o weinyddiaeth gyhoeddus dda.

Pwysleisiodd yr Adroddiad Gwaddol hefyd fod cyfraith dda a gwaith craffu effeithiol yn elfennau allweddol o gyfiawnder gweinyddol, a bod gwasanaethau cynghori yn hanfodol i alluogi pobl i lywio systemau gwneud iawn a deall eu hawliau. Gwnaeth y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd yng Nghymru ystod o argymhellion i Lywodraeth Cymru ac argymhellion pellach i'w cyfleu i'r Senedd. Trafodir y rhain ym mharagraffau 37 i 38 o'r prif Adroddiad.

G Ifan, [Gwariant cyhoeddus ar y system gyfiawnder i Gymru \(Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd: Mai 2019\)](#) a [Goblygiadau cyllidol datganoli cyfiawnder \(Canolfan Llywodraethiant Cymru, Prifysgol Caerdydd: Awst 2019\)](#)

Mae'r adroddiad cyntaf yn trafod maint a chyfansoddiad gwariant cyhoeddus ar system gyfiawnder Cymru. Trafodir hyn ym Mhennod 7 o'r prif Adroddiad. Mae'r ail yn asesu goblygiadau cyllidol a chyllidebol posibl datganoli swyddogaethau cyfiawnder i Lywodraeth Cymru. Mae'r ail hefyd yn dadansoddi maint y trosglwyddiad cyllid y byddai ei angen o Lywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru; maint posibl costau gweinyddu a sefydlu ychwanegol; materion a fyddai'n destun trafodaeth rhwng llywodraethau; a'r risgiau a'r cymhellion cyllidebol y gallai Llywodraeth Cymru eu hwynebu ar ôl datganoli.

Yn yr adolygiad cryno hwn o lenyddiaeth, mae'r ffocws ar adroddiadau sy'n trafod cyfiawnder yng Nghymru yn gyffredinol ac sy'n mynd i'r afael yn benodol â threfniadaeth, atebolrwydd, craffu a chyllid. Defnyddir gwaith ymchwil sy'n benodol i'r maes a thystiolaeth arall yn yr ymarfer mapio, ond mae'n werth sôn yn benodol am ddwy ffrwd waith. Dyma waith Canolfan Llywodraethiant Cymru (a Dr Rob Jones yn benodol) ym maes cyfiawnder troseddol, a gwaith ymchwilwyr ym maes cyfiawnder gweinyddol (dan arweiniad Prifysgol Bangor yn bennaf, ond yn cydweithredu ar draws ysgolion y gyfraith yng Nghymru).

Cyfiawnder Gweinyddol

Mae adroddiadau o'r gwaith hwn yn cynnwys prosiect 2015 (a nodir uchod) a lywiodd Adroddiad Gwaddol CAJTW. Cyhoeddwyd diweddariad pellach, yn bennaf cynnyrch gweithdy a gynhaliwyd yn y Senedd dan arweiniad Cwnsler Cyffredinol Cymru, yn 2018. Roedd yr Adroddiad diweddaru hwn, [Cyfiawnder Gweinyddol: System Gyfiawnder Ddatganoledig Gyntaf Cymru: Gwerthusiad ac Argymhellion](#) (Prifysgol Bangor/ESRC IAA), yn cynnwys 13 o argymhellion. Roedd y rhain yn ymwneud â chyfraith weinyddol gyhoeddus a hawliau dynol (yn enwedig yng nghyd-destun cydgrynhoi a chodeiddio), rolau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a Chomisiynwyr Cymru, adolygu mecanweithiau gwneud iawn 'ad hoc' (neu'r hyn y mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn cyfeirio ato fel 'lled-farnwrol'), argymhellion yn

ymwneud â diwygio a goruchwylio tribiwnlysoedd, ac argymhellion yn ymwneud â thribiwnlysoedd datganoledig penodol yng Nghymru. Mewn gwirionedd mae'r mwyafrif o'r argymhellion hyn wedi'u cymeradwyo gan y Comisiwn ar Gyfiawnder yn ei delerau ei hun.

Mae [Administrative Justice in Wales and Comparative Perspectives](#) (Gwasg Prifysgol Cymru 2017) yn gasgliad wedi'i olygu o benodau sy'n trafod cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru o'i gymharu ag awdurdodaethau eraill, gan gynnwys gwledydd eraill y DU, Awstralia, Gwlad Belg a'r Iseldiroedd.

Disgwylir i ymchwil bellach gael ei gyhoeddi erbyn diwedd mis Mai. Yn benodol canfyddiadau ac argymhellion prosiect 18 mis a ariannwyd gan Sefydliad Nuffield, gan gynnwys academyddion o Brifysgol Bangor, Canolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd. Mae tri adroddiad o'r gwaith hwn. Mae'r cyntaf, dan y teitl [Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Chymru Gyfiawn](#), yn canolbwyntio ar bedwar mater allweddol: Gweinyddiaeth gyhoeddus a chyfraith weinyddol; Sefydliadau cyfiawnder gweinyddol; Cyfleoedd i ddiwygio deddfwriaeth (cydgrynhoi a chodeiddio) a dylunio a goruchwylio system gwneud iawn. Mae'n gwneud 36 o argymhellion, y gellir eu crynhoi fel a ganlyn:

- argymhellion a ddyluniwyd i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhellach o gyfiawnder gweinyddol yng Nghymru, a'i gysylltiadau ag agendâu polisi ym maes llesiant, hawliau dynol a chydarddoldeb.
- argymhellion ar gyfer gwell hyfforddiant ar gyfiawnder gweinyddol i gynrychiolwyr etholedig (ar bob lefel) ac ar gyfer staff gweinyddol mewn cyrff cyhoeddus sy'n gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar hawliau pobl.
- argymhellion bod yn rhaid cymryd agwedd egwyddorol tuag at gyfiawnder gweinyddol, ac y dylid defnyddio'r egwyddorion hyn i arwain gwerthusiad o sefydliadau penodol yn y system (tribiwnlysoedd, ombwdsmyrn, adolygiadau mewnol ac ati) yn ogystal â sut mae'r system gyffredinol yn gweithredu.
- argymhellion ynghylch natur deddfau gweinyddol Cymru sy'n gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus ac yn ceisio hyrwyddo hawliau, yn benodol i gynyddu eglurder ynghylch sut y bwriedir gorfodi'r dyletswyddau hyn a sicrhau'r hawliau hyn.
- argymhellion ynghylch eglurder, cydgrynhoi a chodeiddio cyfraith weinyddol gyhoeddus Cymru.
- argymhellion i sicrhau gwell defnydd o'r system cyfiawnder gweinyddol i ddwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif mewn cyd-destun sy'n seiliedig ar hawliau a lles.
- argymhellion i hyrwyddo mwy o gyfleoedd i gyfraith weinyddol Cymru gael ei dehongli'n fwy tryloyw gan y farnwriaeth, ac ar gyfer gwell rhyngweithio ymarferol rhwng sefydliadau gwneud iawn (gan gynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y Llys Gweinyddol yng Nghymru a thribiwnlysoedd Cymru).
- argymhellion ar strwythur a gweithrediad tribiwnlysoedd datganoledig Cymru.
- argymhellion ar gyfer goruchwylio cyfiawnder gweinyddol a gwell craffu gan y Senedd.

Enw'r ail adroddiad yw, [Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Chyfiawnder yng Nghymru: Tai Cymdeithasol a Digartrefedd](#). Mae'r adroddiad yn darparu map manwl o gyfiawnder gweinyddol (y gyfraith, osgoi anghydfodau, a datrys anghydfodau) ym maes tai cymdeithasol a digartrefedd fel y mae wedi'i ddatganoli i Gymru. Mae'r adroddiad yn gwneud 19 o argymhellion. Casgliad allweddol yw y dylai Llywodraeth Cymru adolygu cyfraith tai a datrys

anghydfodau yn benodol fel y maent yn berthnasol i Gymru. Mae astudiaethau eraill wedi'u cynnal yn ôl pob golwg ar sail Cymru a Lloegr, ond oherwydd amseriad, cwmpas neu amcanion, nid yw'r un wedi gallu ystyried yn llawn y sefyllfa bresennol o ran cyfraith tai a datrys anghydfodau fel y'u datganolwyd i Gymru, na'r ffordd y mae'r meysydd sydd wedi'u datganoli a'r rhai sydd heb eu datganoli yn rhyngweithio â phrosesau gwneud iawn. Mae hyn yn golygu bod rhai cynigion naill ai ddim yn berthnasol i Gymru, neu fod problemau wrth eu cymhwysu. Daw'r awduron i'r casgliad: mae'n ddigon posibl y bydd gwella mynediad at gyngor, egluro a chydgrynhoi'r gyfraith gyfredol, a gwella argaeledd a chryfhau effeithiolrwydd y llwybrau unigol presennol o ran unioni cam yn cael mwy o effaith ar ganlyniadau cyfiawn a theg yn y sector tai cymdeithasol, na rhoi'r hawl i dai wrth wraidd polisi - er eu bod yn argymhell y dylid mynd ar drywydd yr holl elfennau hyn ar yr un pryd. Rhaid cydnabod dyheadau tuag at hawliau, cydraddoldeb a gweinyddiaeth dda yng Nghymru fel materion o ran cyfiawnder, a dylid ystyried mecanweithiau gwneud iawn am gyfiawnder gweinyddol fel modd o bontio'r bwlch rhwng polisi a gweithredu, gan sicrhau bod llunwyr polisi a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn cael eu dwyn i gyfrif. Mae angen i gyfraith tai Cymru gael ei dehongli a'i hegluro'n fwy annibynnol ac yn fwy tryloyw gan y farnwriaeth. Mae cyfraith tai yn gofyn yn rheolaidd am benderfynu ar hawliau cyfreithiol pobl ochr yn ochr â rheoli perthnasoedd. Ond ni ddylid diwallu'r angen hwn am gyfiawnder mwy ffurfiol ar draul strwythurau llai ffurfiol cyfiawnder ar y cyd; yn wir pan fydd y strwythurau hyn wedi datblygu o'r lefel llawr gwlad dylid eu hannog a'u cefnogi gyda gwell mecanweithiau i nodi materion cymunedol a galluogi pobl i fynd i'r afael â phryderon gyda'i gilydd a chefnogi'r syniad o ddysgu gwersi mewn cyd-destun mwy anffurfiol.

Enw'r trydydd adroddiad yn y gyfres yw, [Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Chyfiawnder yng Nghymru: Addysg](#) Addysg Mae'n darparu dadansoddiad manwl o gyfraith addysg yng Nghymru yn benodol o gyd-destun cyfiawnder gweinyddol. Mae ei ffocws ar addysg gynradd ac uwchradd a gynhelir, ac mae'n gwneud 12 o argymhellion. Daw'r awduron i'r casgliad bod ystod eang a chymhleth o lwybrau posibl wrth geisio gwneud iawn mewn perthynas ag anghydfodau addysg. Nid yw'n syndod iddynt y gallai o leiaf rhai rhieni, dysgwyr, athrawon, llywodraethwyr, a hyd yn oed rhai mewn awdurdodau lleol ei chael hi'n anodd mynd i'r afael â hwy. Er bod gwybodaeth o ansawdd da ar gael, mae angen gwybodaeth sylfaenol am ble i ddechrau a beth i edrych amdano. Yr hyn nad oes gan lawer o bobl yw trosolwg o'r system gwneud iawn yn ei chyfanrwydd lle gallant leoli'r llwybrau posibl y gallent eu dilyn, a goblygiadau dewis un dros un arall. Mae hefyd yn bwysig bod gwybodaeth a chynghor clir a chywir ar gael, cyn gynted â phosibl mewn perthynas â mater sydd wedi codi neu a allai godi, ac o ffynhonnell sy'n annibynnol ar y partiön yn yr anghydfod. Rhaid i'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau ar bob lefel feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth briodol o'r gyfraith ac o gwynion cyffredinol sy'n ymdrin ag arfer gorau a rhaid eu cefnogi wrth wneud penderfyniadau. Un o ganfyddiadau allweddol yr adroddiad yw ei bod yn hanfodol bod materion o ran anghydfodau addysg yn cael eu gwerthfawrogi o safbwynt cyfiawnder yn ogystal ag o safbwynt addysg. Mae'r un peth yn wir mewn perthynas â thai cymdeithasol a digartrefedd. Yng nghydestun y ddau faes o'r gyfraith (tai cymdeithasol a digartrefedd, ac addysg) mae'r ymchwilyr yn argymhell cydgrynhoi a chodeiddio, ond noder bod cyfraith addysg fel y mae'n gymwys i Gymru yn faes lle y mae wir angen codeiddio oherwydd y sefyllfa dameidiog a chymhleth bresennol.

Yn olaf, mae dau [adroddiad Dr Nason fel rhan o Gymrodoriaeth y Senedd](#) yn trafod ei barn ar rôl bosibl y Senedd o ran cyfiawnder gweinyddol.

Cyfiawnder Troseddol: Carcharu, Dedfrydu a Charcharorion

Mae rhan fwyaf o adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yn ymwneud â chyfiawnder troseddol, gan gynnwys 16 o argymhellion. Cyn hyn roedd Adroddiad Rhan II Comisiwn Silk (yn 2014) wedi argymhell datganoli plismona a chyfiawnder ieuenctid.

Mae gwaith ymchwil gan Dr Rob Jones ar gyfer Canolfan Llywodraethiant Cymru yn dechrau gydag Adroddiad 2018, [Imprisonment in Wales: A Factfile](#), a gasglodd ystod o ddata yn datgelu perfformiad carchardai yng Nghymru, statws yr holl garcharorion o Gymru a ble maent yn cael eu dal. Datgelodd yr adroddiad broblemau penodol ac unigryw o ran carcharu, sy'n effeithio ar bobl o Gymru ac yng Nghymru, gan gynnwys lefelau uchel o hunan-niweidio ac ymosodiadau, pellteroedd uwch na'r cyffredin ar gyfer dynion, menywod a phlant o Gymru sydd yn y ddalfa. Daeth Dr Jones i'r casgliad mai'r unig ffordd o gael gafael ar lawer o ffynonellau data yn ymwneud â Chymru yn unig oedd drwy ddefnyddio deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth, a bod y problemau a ddatgelwyd yn yr adroddiad yn codi cwestiynau dybryd ynghylch atebolrwydd gwleidyddol am garcharu. Mae Atodiad i adroddiad 2018 yn dadansoddi'r data carcharu yn ôl awdurdod lleol ac yn darparu darlun manylach o ledaeniad daearyddol pobl o Gymru ledled Cymru a Lloegr, yn ogystal â charcharorion o Loegr sydd wedi'u carcharu yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn archwilio ymhellach y defnydd o'r ystâd carchardai yng Nghymru ac yn archwilio'r materion sy'n wynebu unigolion sy'n gysylltiedig â'r system cyfiawnder troseddol yng Nghymru neu sy'n cael eu heffeithio ganddi.

Mae Canolfan Llywodraethiant Cymru hefyd wedi cyflwyno tystiolaeth i Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin ar faterion, yn cynnwys cyffuriau, alcohol a digartrefedd yng nghydestun cyfiawnder troseddol; i ymchwiliadau'r Senedd i hawliau pleidleisio i garcharorion, a darparu iechyd a gofal cymdeithasol yn yr ystâd carchardai i oedolion.

Roedd adroddiad 2019 Dr Jones, [Sentencing and Immediate Custody in Wales: A Factfile](#) yn dangos bod cyfran uwch o boblogaeth gyffredinol Cymru yn treulio amser yn y carchar o gymhatru â Lloegr am bob blwyddyn ers 2013. Roedd canfyddiadau allweddol eraill yn cynnwys, er bod y defnydd o ddedfrydau gwarchodol yn gostwng yn Lloegr rhwng 2010 a 2017, bu cynnydd ymylol yng Nghymru, a bod anghymesuredd hiliol yn uwch ymhlith poblogaeth carchardai Cymru na phoblogaeth carchardai Lloegr (2017). Daeth Dr Jones i'r casgliad bod angen mwy o waith ymchwil i egluro cyfradd carcharu uchel Cymru ymhellach, gan gydnabod bod y cyd-destun economaidd-gymdeithasol yn debygol o fod wedi cael effaith, gan nodi gwaith ymchwil blaenorol yn cysylltu tlodi, ymyleiddio a charcharu. Daeth Dr Jones i'r casgliad bod canfyddiadau'r adroddiad yn ychwanegu pwysau at yr alwad i gydnabod gwahaniaethau dedfrydu posibl rhwng Cymru a Lloegr. Yn olaf, roedd o'r farn bod canfyddiadau'r gwaith ymchwil nid yn unig yn ddychrynlyd ynddynt eu hunain, ond yn fwy felly oherwydd nad oedd y tueddiadau wedi'u canfod o'r blaen. Daeth Dr Jones i'r casgliad bod hyn, heb os, yn cwestiynu'r rôl sy'n cael ei chwarae gan asiantaethau cyfiawnder y DU yng Nghymru yn ogystal â sefydliadau cymdeithas sifil ac ymchwilwyr academiaidd. (Jones: 2019, tudalen 123). Mae gwaith ymchwil pellach, a gyhoeddwyd hefyd yn 2019, yn archwilio [Tystiolaeth Ryngwladol ar Ostwng Cyfraddau Carcharu](#), gan ddefnyddio astudiaethau achos o awdurdodaethau cyfreithiol sydd wedi cyflwyno mesurau i leihau lefelau uchel o garcharu.

Cyfiawnder Teuluol

Mae hwn yn faes lle ymddengys fod llenyddiaeth llai penodol, ac ymddengys fod hyn yn cydfynd ag argymhelliad y Comisiwn ar Gyfiawnder y dylid cael 'cefnogaeth fawr i raglen ymchwil sy'n ategu'r gwaith o ddiwygio cyfiawnder teuluol a gwasanaethau ataliol cysylltiedig yng Nghymru'. (Y Comisiwn ar Gyfiawnder: paragraff [7.111]). Canolbwyntiodd y Comisiwn yn bennaf ar agweddau cyfraith gyhoeddus ar gyfiawnder teuluol ac mae'r rhan fwyaf o'r drafodaeth a'r dadansoddiad yn ymwneud â phlant. Mae'n nodi amryw fentrau yng Nghymru yr oedd o'r farn nad oeddent wedi'u monitro a'u gwerthuso'n iawn, gan gynnwys drwy waith ymchwil annibynnol, casglu a dadansoddi data. Ymhlith yr enghreifftiau mae Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a'r Cod Ymarfer sy'n nodi dyletswyddau awdurdodau lleol o dan Ddeddf 2014, gan gynnwys yn ymwneud â dychwelyd plant at eu rhieni biolegol), Gwasanaethau Ar Ffiniau Gofal, a'r rhaglen Reflect (ar gyfer rhieni yr oedd eu plant wedi'u gosod yn y system ofal).

Yn ei drafodaeth o'r niferoedd rhyfeddol o uchel o blant mewn gofal (plant sy'n derbyn gofal) yng Nghymru, tynnodd y Comisiwn ar Gyfiawnder ar waith ymchwil a gyhoeddwyd yn 2019 gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, [Analysis of the Factors Contributing to the High Rates of Care in Wales](#). Rhaglen ymchwil y Ganolfan, 'Gwell Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal', gan gynnwys adroddiadau pellach yn 2020, [International approaches to managing placement provision for children and young people looked after](#) ac [What do children and young people and their families looked after think about care?](#)

O ran deall cyfraith teulu ac yn enwedig 'ffiniau amrwd' y setliad datganoli, tynnodd y Comisiwn yn helaeth ar gyflwyniad Ruth Henke CF, [Tystiolaeth mewn perthynas â chyfraith teulu yng Nghymru](#). Mae'r Comisiwn a Ms Henke yn nodi cymhlethdodau cyfraith teulu, er gwaethaf y ffaith bod pwerau a swyddogaethau deddfwriaethol sy'n ymwneud â chyfraith teulu a'r Llys Teulu wedi'u cadw'n ôl, mae pwerau datganoledig ym maes iechyd, addysg a gofal cymdeithasol wedi'u defnyddio yn y fath fodd fel bod agweddau ar gyfraith teulu, ac yn benodol y gyfraith sy'n ymwneud â phlant yng Nghymru, yn sylweddol wahanol i'r gyfraith sy'n gymwys yn Lloegr. Mae Ms Henke yn gwneud pedwar sylw allweddol. Yn gyntaf, mae'n nodi bod y ffordd y mae datganoli wedi esblygu yn golygu bod llawer o gyfraith Cymru (yn wahanol i Loegr) wedi'i chynnwys mewn is-ddeddfwriaeth neu Godau, pan fo'r ymwahaniad mewn pwnc cysylltiedig (fel addysg, iechyd neu ofal cymdeithasol) sydd serch hynny yn effeithio ar y teulu, sy'n golygu bod yr angen i ystyried y gwahaniaeth posibl rhwng y deddfau yng Nghymru a Lloegr yn aml yn cael ei anghofio. Mae Henke yn nodi, ac mae'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn ei chael yn 'siomedig' (paragraff [7.8]) y diffyg ymwybyddiaeth o gyfraith Cymru o ystyried bod deddfwriaeth a chanllawiau Cymru yn y maes penodol hwn yn cael eu cyhoeddi fel atodiad i destunau allweddol ac ar gael yn rhad ac am ddim ar-lein. Ymddengys mai'r casgliad yw nad yw pobl y tu mewn a'r tu allan i Gymru (lleygwyr a chyfreithwyr fel ei gilydd) yn ymwybodol o'r gwahaniaethau ac felly nid ydynt yn eu ceisio.

Mae ail sylw Henke yn ymwneud â'r cyhoeddiad cyfyngedig o ddyfarniadau'r Llys Teulu, a'r effaith ar yr ymwybyddiaeth o gyfraith Cymru. Yn drydydd, mae'n pwysleisio'r costau ychwanegol posibl i eiriolwyr sy'n archwilio achosion sy'n ymwneud â chyfraith Cymru, yn enwedig lle awgrymir y dylai eiriolwyr, fel mater o arfer, dynnu'r gwahaniaethau rhwng cyfraith Cymru a Lloegr i sylw'r llys. Yn olaf, ac yn gysylltiedig â hynny, mae'n nodi'r effaith y mae

gostyngiadau mewn mynediad at gymorth cyfreithiol wedi'i chael yng nghyd-destun cyfraith teulu yng Nghymru.

Roedd tystiolaeth Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar Gyfiawnder yn pwysleisio bod y cynllun datganoli presennol wedi arwain at rannu cyfrifoldebau a materion cysylltiedig o fewn y system cyfiawnder teuluol, a all achosi cymhlethdod a gwrthdaro. Gwnaed pethau'n waeth wrth i Gymru a Lloegr ymbellhau o'i gilydd a dilyn trywydd gwahanol o ran cyfiawnder teuluol a pholisi mewn meysydd datganoledig sy'n effeithio ar gyfiawnder teuluol (Y Comisiwn ar Gyfiawnder: paragraff [7.17]).

Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth: Yn benodol, Cymorth Cyfreithiol

Ni all yr adolygiad hwn o lenyddiaeth ddarparu asesiad cynhwysfawr o'r ystod o dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Comisiwn ar Gyfiawnder ar y mater, yn benodol effaith toriadau cyllid cymorth cyfreithiol yng Nghymru. Mae asesiad y Comisiwn ar Gyfiawnder ei hun yn gyfraniad pwysig i'r lenyddiaeth, ac yma ni allaf ond tynnu sylw at rai cyflwyniadau allweddol a gwaith cysylltiedig.

Yn gyntaf gwaith Dr Daniel Newman o Brifysgol Caerdydd, gan gynnwys yn arbennig ei waith ar '[Agweddau tuag at Gyfiawnder mewn Cymuned Wledig](#)' (2016) 36(6) [Astudiaethau Cyfreithiol](#) 591 a '[Justice in a Time of Austerity](#)' (2018). Yn ei dystiolaeth i'r Comisiwn ar Gyfiawnder pwysleisiodd Dr Newman ei bod yn dal i fod yn wir nad oes llawer o waith empiraidd wedi'i wneud ar fynediad at gyfiawnder yng Nghymru, gyda'r rhan fwyaf wedi'i gynnwys yng ngwaith ymchwil generig Cymru a Lloegr a allai fod â diffyg cyfranogiad Cymreig digonol i fod yn gynrychioliadol iawn; yn aml gall y gwaith ymchwil presennol fod wedi'i adrodd gyda'r rhagdybiaeth bod Cymru yr un peth â Lloegr. Ar ôl cynnal gwaith ymchwil yng Nghymru, gan gynnwys mewn ardaloedd gwledig, mae Dr Newman yn nodi y gallai toriadau cymorth cyfreithiol fod wedi arwain at effeithiau mwy niweidiol yng Nghymru yn sgil cyfraddau uwch o dlodi incwm (700,000 o bobl yn byw mewn tldi, oddeutu 1 o bob 4 o'r boblogaeth yn ôl y Comisiwn ar Gyfiawnder). Mae hefyd yn canfod mai'r bobl sy'n llai abl i dalu am wasanaethau cyfreithiol yng Nghymru sydd fwyaf tebygol o fod angen y gwasanaethau hyn, gan ddod i'r casgliad bod disgwyl y bydd yn rhaid talu er mwyn sicrhau triniaeth deg yn gyfystyr â threth de facto ar y tlawd. (Newman: tudalen 9). Mae'n ystyried y dylai Llywodraeth Cymru o leiaf ariannu mwy o waith ymchwil i fynediad at gyfiawnder yng Nghymru er mwyn datblygu gwell dealltwriaeth o anghenion pobl mewn gwahanol rannau o'r wlad, ac y dylid cymryd Cymru o ddifrif fel safle lle mae cyfiawnder yn cael ei sicrhau.

Cyflwynwyd tystiolaeth i'r Comisiwn ar Gyfiawnder ar effeithiau penodol Deddf Cymorth Cyfreithiol Dedfrydu a Chosbi Troseddwy 2012, hefyd gan [Sue Harper ar ran y Prosiect Cyfraith Gyhoeddus](#). Ymhlith y casgliadau allweddol mae Cymru wedi gweld cwmpas cymesur mwy mewn gwariant cymorth cyfreithiol sifil na Lloegr, bu gostyngiad yn y darparwyr cymorth cyfreithiol ar gyfer materion sy'n parhau i fod o fewn eu cwmpas yng Nghymru gan arwain at ardaloedd daearyddol â darpariaeth denau ('ardaloedd dim cyngor' fel y'u gelwir); a bod cyfran fwy o gwmnïau yng Nghymru wedi nodi bod newidiadau i gymorth cyfreithiol yn broblem sylweddol o gymharu â chwmnïau yn Lloegr.

Mae'r corff cyffredinol o dystiolaeth ar effeithiau niweidiol y Ddeddf Cymorth Cyfreithiol Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr ledled Cymru a Lloegr yn helaeth, ac yn y pen draw, cynhaliodd

Llywodraeth y DU [Adolygiad Ôl-weithredu](#), gan arwain at [Gynllun Gweithredu Cymorth Cyfreithiol](#). Mae'n addo adolygiad cynhwysfawr o'r drefn cymhwysedd cymorth cyfreithiol, gyda chymau gweithredu cynharach yn canolbwyntio'n benodol ar fynediad at gymorth cyfreithiol mewn anghydfodau sy'n ymwneud â theuluoedd a phlant. Mae porth ffôn gorfodol ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol sifil ym maes addysg, gwahaniaethu a dyled hefyd yn dod i ben yn raddol. Mae adolygiad parhaus o gynlluniau cymorth cyfreithiol troseddol yn mynd rhagddo (y bwriedir iddo adrodd yn haf 2020).

Casgliad y Comisiwn ar Gyfiawnder oedd nad yw'r adolygiad a'r cynllun yn asesu maint y broblem yn iawn nac yn mynd i'r afael ag ef yn effeithiol a bod angen cynllun mwy pellgyrhaeddol a radical yng Nghymru. (Y Comisiwn ar Gyfiawnder: para[3.26]). Yn y tymor hwy, argymhellodd y Comisiwn ar Gyfiawnder y dylid datblygu strategaeth sy'n dwyn ynghyd y ffrydiau cyllido ar gyfer cymorth cyfreithiol a darpariaeth cyngor y trydydd sector, ac y dylai'r strategaeth hon gael ei llywio gan gorff annibynnol a fyddai'n sicrhau nad oes bwlch yn y ddarpariaeth a bod y cyllid yn gynaliadwy. Dylai gael ei llunio i ddiwallu anghenion pobl Cymru a sicrhau tegwch ledled Cymru. Dylid dilyn dull o sicrhau ansawdd sy'n cyfuno safonau uchel â disgwyliadau cymesur ar ddarparwyr bach, a dylai'r corff helpu i godi arian elusennol yn ogystal â gweinyddu arian cyhoeddus er mwyn darparu cyllid hirdymor craidd a monitro cynnydd. Roedd y Comisiwn hefyd o'r farn bod codi ymwybyddiaeth y cyhoedd yn hollbwysig gan gynnwys blaenoriaethu allgymorth i gysylltu'n benodol â phobl anabl, pobl â phroblemau iechyd meddwl, pobl ag anawsterau dysgu, pobl mewn argyfwng, pobl nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf a phobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol. Roedd hefyd yn argymhell ehangu Support Through Court i bob llys a thriwlynlys yng Nghymru.

Atodiad Tri: Penodiadau i dribiwnlysoedd datganoledig Cymru

Tribiwnlysoedd a Weinyddir gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru			
Tribiwnlys	Sefydlwyd gan	Y broses benodi	Apêl
Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru	Deddf Addysg 1996 Caiff ei lywodraethu gan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 pan fydd mewn grym.	<p style="text-align: center;">Cadeirydd cyfreithiol a dau aelod.</p> <p>Yr Arglwydd Ganghellor sy'n penodi'r Llywydd a'r Cadeirydd o dan adran 333(3) o Ddeddf Addysg 1996.</p> <p>Gweinidogion Cymru sy'n penodi aelodau lleig y panel o dan adran 333(4) o Ddeddf Addysg 1996 gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol.</p> <p>Pan fydd mewn grym, ni fydd adran 91 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn newid y broses hon. Bydd y Llywydd yn parhau i gael ei benodi gan yr Arglwydd Ganghellor gyda chytundeb yr Arglwydd Brif Ustus. Mae Cadeiryddion Cyfreithiol i'w penodi gan yr Arglwydd Ganghellor gyda chytundeb Llywydd y Tribiwnlys ac mae'r aelodau lleig i'w penodi gan Weinidogion Cymru gyda chytundeb yr Ysgrifennydd Gwladol a Llywydd y Tribiwnlys.</p>	Yr Uwch Dribiwnlys
Tribiwnlys Apeliadau Arolygwyr Cofrestredig Ysgolion a Thribiwnlys Apeliadau Arolygwyr	Apeliadau o dan adran 27 o Ddeddf Addysg 2005 yn erbyn penderfyniadau Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (ESTYN) mewn perthynas â	<p>Mae'r Cadeirydd i'w benodi gan yr Arglwydd Brif Ustus ar ôl ymgynghori â'r Arglwydd Ganghellor. Gweinidogion Cymru sydd i benodi'r ddau aelod arall.</p> <p>Yn ystod y flwyddyn adrodd ddiweddaraf (2017/18), yn ôl Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, ni chyfansoddwyd tribiwnlys, yn benodol, i wrando apeliadau o dan adran 27 o Ddeddf Addysg 2005. Yn sicr, nid oes ganddo arweinydd barnwrol a benodwyd drwy broses ffurfiol. Fodd bynnag, mae aelodau o</p>	Caiff adolygu ei benderfyniadau ei hun ond ymddengys nad oes llwybr apêl uniongyrchol, fel y mae modd mynd ar drywydd adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol.

Addysg Feithrin Cofrestredig	chofrestru. Pŵer Gweinidogion Cymru bellach wedi'i gynnwys yn Atodlen 3 i Ddeddf Addysg 2005.	Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru yn gymwys i ymdrin ag unrhyw achosion sy'n codi.	
Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru	Deddf Iechyd Meddwl 1983	Atodlen 2 i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 Caiff yr Arglwydd Ganghellor benodi aelodau cyfreithiol, aelodau meddygol ac unigolion eraill sydd â phrofiad neu wybodaeth am wasanaethau cymdeithasol, neu brofiad arall fel y bo'n briodol ym marn yr Arglwydd Ganghellor. Rhaid penodi un aelod cyfreithiol yn Gadeirydd y Tribiwnlys. Rhaid penodi un aelod cyfreithiol yn Llywydd y Tribiwnlys.	Yr Uwch Dribiwnlys
Panel Dyfarnu Cymru	Deddf Llywodraeth Leol 2000	Cadeirydd cyfreithiol a dau aelod wedi'u penodi gan Weinidogion Cymru (y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd) yn ôl adran 75 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.	Yr Uchel Lys
Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru	Deddf Amaethyddiaeth 1947	Yr Arglwydd Ganghellor sy'n penodi'r Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd. Rhaid i'r Cadeirydd fod yn fargyfreithiwr neu'n gyfreithiwr sydd ag o leiaf saith mlynedd o brofiad. Mae'r Arglwydd Ganghellir hefyd yn penodi aelodau'r panel.	Yr Uwch Dribiwnlys
Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru	Amrywiol - rhai swyddogaethau o dan Ddeddf Tai 2004, eraill o dan Ddeddf Cyfundaliad a Diwygio Cyfraith Lesddaliad 2002, eraill o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 a Deddf Tai (Cymru) 2014	Yr Arglwydd Ganghellor sy'n penodi cyfreithiwr-gadeiryddion tribiwnlysoedd. Enwebir y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd gan Weinidogion Cymru o blith yr aelodau a benodir gan yr Arglwydd Ganghellor. Penodir aelodau proffesiynol a lleyg gan Weinidogion Cymru.	Yr Uwch Dribiwnlys

Tribiwnlys y Gymraeg	Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011	Penodir y Llywydd a'r aelodau gan Weinidogion Cymru (rhaid i'r Llywydd fod yn fargyfreithiwr neu'n gyfreithiwr sydd ag o leiaf ddeng mlynedd o brofiad).	Apêl neu adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol, gan ddibynnu ar y penderfyniad sy'n cael ei herio
Heb ei Weinyddu gan Uned Tribiwnlysoedd Cymru			
Tribiwnlys Priso Cymru	Rheoliadau Tribiwnlys Priso Cymru 2010	Penodir aelodau gan yr awdurdod lleol perthnasol ar y cyd â Llywydd y Tribiwnlys. Mae rheoliadau'n darparu i'r Llywydd gael ei benodi drwy weithdrefn etholiadol, ac i gadeiryddion ac aelodau gael eu penodi drwy etholiad.	Apeliadau priso ardrethi i'r Uwch Dribiwnlys, ac apeliadau atebolrwydd y dreth gyngor i'r Uchel Lys ar bwynt cyfreithiol; ni chaniateir herio prisiad treth gyngor.
Tribiwnlys Cosbau Traffig	Rheoliadau Gorfodi Sifil ar Dramgwyddau Traffig Ffyrdd (Darpapiaethau Cyffredinol) (Cymru) 2013	Mae adran 81(1) o Ddeddf Rheoli Traffig 2004 yn darparu i'r Arglwydd Ganghellor wneud rheoliadau ynghylch penodi. Mae Rheoliadau 2013 yn darparu bod Gweinidogion Cymru yn penodi cynifer o ddyfarnwyr ag y maent yn penderfynu; mae angen cydsyniad yr Arglwydd Ganghellor i benodi a diswyddo.	Mae proses ar gyfer adolygu penderfyniad yn fewnol, ond nid oes proses apelio, felly caiff adolygiad barnwrol fynd i'r Llys Gweinyddol.
Panelli Apelau Derbyn Cymdeithasol	Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005	Penodir aelodau gan yr Awdurdod Addysg Lleol (AALI): un aelod lleyg, un person â phrofiad ym maes addysg, un rhiant (panel o 3-5 aelod), a'r AALI i benodi cadeirydd.	Dim darpariaeth ar gyfer apelio, felly mae'n debygol y bydd mesurau gwneud iawn pellach yn cael eu cyfyngu i adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol
Panelli Apelau Gwaharddiadau Ysgol	Rheoliadau Addysg (Gwaharddiadau Disgyblion ac Apelau) (Ysgolion a Gynhelir) (Cymru) 2003	Penodir aelodau gan yr AALI, 3-5 aelod: un aelod lleyg, un person â phrofiad ym maes addysg, un llywodraethwr neu gyn-lywodraethwr ysgol a gynhelir. Rhaid i aelod lleyg gadeirio'r panel.	Dim darpariaeth ar gyfer apelio, felly mae'n debygol y bydd mesurau gwneud iawn pellach yn cael eu cyfyngu i adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol

<p>Paneli Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (IRM Cymru)</p>	<p>Rheoliadau Adolygu Penderfyniadau'n Annibynnol (Mabwysiadu a Maethu) (Cymru) 2010</p>	<p>Gweinidogion Cymru</p>	<p>Dim darpariaeth ar gyfer apelio, felly mae'n debygol y bydd mesurau gwneud iawn pellach yn cael eu cyfyngu i adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol</p>
<p>Bwrdd Canolwyr Meddygol</p>	<p>Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2007 (apeliadau yn erbyn penderfyniadau o natur feddygol o dan ddeddfwriaeth Gwasanaethau Tân ac Achub).</p>	<p>Penodir aelodau gan Weinidogion Cymru neu yn unol â'u trefniadau</p>	<p>Dim darpariaeth ar gyfer apelio, felly mae'n debygol y bydd mesurau gwneud iawn pellach yn cael eu cyfyngu i adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol</p>
<p>Pwyllgorau Coedwigaeth Cymru</p>	<p>Cynghori Gweinidogion ar adolygiadau o wrthod trwyddedau cwmpo coed neu amodau trwyddedau ac apeliadau yn erbyn hysbysiadau ailstocio. Gweinidogion Cymru yw'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.</p>	<p>Gweinidogion Cymru sy'n penodi'r cadeirydd a dau aelod.</p>	<p>Dim darpariaeth ar gyfer apelio, felly mae'n debygol y bydd mesurau gwneud iawn pellach yn cael eu cyfyngu i adolygiad barnwrol yn y Llys Gweinyddol</p>